

# **Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)**

## **Memorandwm Esboniadol**

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Bethan Jenkins AC ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Datganiad ar Gymhwysedd Deddfwriaethol**

Yn fy marn i, mae darpariaethau Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 15 Gorffennaf 2014, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Bethan Jenkins AC**

**Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil**

**Gorffennaf 2014**

# Cynnwys

|   |    |
|---|----|
| Rhan 1: Cefndir a diben y Bil .....                                     | 3  |
| 1. Cyflwyniad .....   | 3  |
| 2. Cefndir deddfwriaethol .....   | 5  |
| 3. Diben ac effaith arfaethedig y deddfwriaeth .....                    | 7  |
| 4. Ymgynghori .....   | 41 |
| 6. Cymhwysiad Tiriogaethol .....  | 52 |
| 7. Materion trawsffiniol .....  | 52 |
| Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol.....                               | 53 |
| 8. Opsiynau .....   | 53 |
| 9. Amcangyfrif o gostau a buddion – Opsiwn 3 (yr opsiwn a ffefrir)..... | 56 |
| 10. Canlyniadau anfwriadol.....   | 74 |
| 11. Ystyriaethau cydraddoldeb.....                                      | 75 |
| 12. Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant .....                          | 76 |
| 13. Adolygiad ôl-weithredu .....  | 76 |
| Rhan 3: Nodiadau Esboniadol.....  | 77 |
| Atodiad A: Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA).....             | 80 |
| Atodiad B: Cyfeiriadau.....   | 88 |

# Rhan 1: Cefndir a diben y Bil

## 1. Cyflwyniad

1. Ar 17 Gorffennaf 2013, bu Bethan Jenkins AC yn llwyddiannus yn y bleidlais a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 26.87 am yr hawl i ofyn caniatâd i gyflwyno Bil Aelod. Roedd yn cynnig ar gyfer Bil a fyddai'n hyrwyddo llythrennedd ariannol ymysg pobl yng Nghymru. Ar 16 Hydref 2013, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y câi Bethan Jenkins gyflwyno Bil er mwyn rhoi effaith i'r wybodaeth a ddarparodd cyn y bleidlais.
2. Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â Rheol Sefydlog 26.6. Mae'n nodi cefndir darpariaethau a chwmpas *Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)* ac yn nodi sut y bydd y Bil yn gweithio'n ymarferol.
3. Nod y Bil yw ymdrin â'r sefyllfa lle mae llawer o bobl yng Nghymru'n mynd i drafferthion ariannol oherwydd diffyg gwybodaeth a sgiliau wrth reoli arian. Mae'r mater hwn yn cael ei gymhlethu gan duedd, yn yr hinsawdd economaidd anffafriol hon, i bobl droi at fenthyciadau llog uchel, anghynaliadwy fel ffordd o fynd i'r afael â'u problemau ariannol.
4. Felly, yn gyntaf, mae'r Bil yn darparu sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer addysg ariannol yng Nghymru drwy ei gwneud yn rhan statudol o'r cwricwlwm ysgol.
5. Yn ail, bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol yn amlinellu pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo cynhwysiant ariannol trigolion yn eu hardal.
6. Yn drydydd, mae'r Bil yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol o ran darparu cyngor i ddinasyddion am wasanaethau ariannol a rheolaeth ariannol.
7. At ddibenion y Bil hwn, dyma yw ystyr y termau canlynol:
  - Ystyr 'addysg ariannol' yw addysg am wasanaethau a rheolaeth ariannol;
  - Ystyr 'cynhwysiant ariannol' yw mynediad i wasanaethau ariannol ac addysg ariannol am gost resymol;
  - Mae 'rheolaeth ariannol' yn cynnwys defnyddio gwasanaethau ariannol a rheoli dyledion;
  - Mae 'gwasanaethau ariannol' yn cynnwys, yn benodol, cynilion, credyd, morgeisi, yswiriant a gwasanaethau trosglwyddo arian;

- Ystyr 'awdurdodau lleol' yw cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.
8. Pan fydd darpariaethau yn y Bil yn ymwneud ag ysgolion, mae hyn mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir yn unig.

## 2. Cefndir deddfwriaethol

9. Mae Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu ar gyfer cyflwyno Biliau gan Aelodau unigol o'r Cynulliad, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, pan fydd gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol mewn maes polisi.
10. Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol sy'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud Deddf mewn perthynas ag addysg a chynhwysiant ariannol wedi ei gynnwys yn Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.
11. Yn benodol, mae pwnc 5 (addysg a hyfforddiant) yn uniongyrchol berthnasol yn ogystal â phwnc 12 (llywodraeth leol) sy'n llywodraethu 'pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol'. Mae Pennawd 15 (lles cymdeithasol) yn llywodraethu 'amddiffyn a llesiant plant' yn ogystal â 'gofalu am blant' a 'phobl sy'n agored i niwed'.
12. Mae pob un o'r pynciau hyn yn ymwneud â phwnc y Bil. Nodir geiriad pob pennawd perthnasol isod:

### 5: Addysg a Hyfforddiant

Addysg, hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol a'r gwasanaeth gyrfaoedd. Hyrwyddo datblygiad a defnydd o wybodaeth.

*Eithriad-*  
Cynghorau Ymchwil.

### 12: Llywodraeth leol

Cyfansoddiad, strwythur ac ardaloedd awdurdodau lleol. Trefniadau etholiadol ar gyfer awdurdodau lleol. Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion. Cyllid llywodraeth leol. Nid yw "awdurdodau lleol" yn cynnwys yr heddlu a chomisïynwyr troseddu.

*Eithriadau-*  
Etholfraint llywodraeth leol.  
Cofrestru a gweinyddu etholiadol.  
Cofrestru genedigaethau, priodasau, partneriaethau sifil a marwolaethau.  
Trwyddedu gwerthu a chyflenwi alcohol, darparu adloniant a lluniaeth hwyr y nos.  
Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol.  
Pridiannau tir lleol, ar wahân i ffioedd.  
Masnachu ar y Sul.  
Darparu cyngor a chymorth dramor gan awdurdodau lleol mewn cysylltiad â chynnal gweithgareddau llywodraeth leol yno.

### 15: Lles cymdeithasol

Lles cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol. Amddiffyn a llesiant plant (gan gynnwys mabwysiadu a maethu) ac oedolion ifanc. Gofalu am blant, oedolion ifanc, pobl agored i niwed a phobl hŷn, gan gynnwys safonau gofal. Bathodynau i'w harddangos ar gerbydau modur a ddefnyddir gan bobl anabl.

*Eithriadau-*

Cynnal plant.

Cronfeydd ymddiriedolaeth plant, ar wahân i danysgrifiadau i gronfeydd o'r fath gan-

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, neu

(b) Gweinidogion Cymru.

Credydau treth.

Budd-dal plant a lwfans gwarcheidwad.

Nawdd cymdeithasol.

Cronfeydd Byw'n Annibynnol.

Motability.

Mabwysiadu trawswladol, ar wahân i asiantaethau mabwysiadu a'u swyddogaethau, a

swyddogaethau'r "Awdurdod Canolog" o dan Gofensiwn yr Hâg ar Amddiffyn Plant a

Chydweithrediad mewn perthynas â Mabwysiadu Trawswladol.

Y Comisiynydd Plant (a sefydlwyd o dan Ddeddf Plant 2004).

Cyfraith teulu ac achosion, ar wahân i-

(a) cyngor lles i lysoedd, cynrychiolaeth a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i blant sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru a'u teuluoedd, a

(b) swyddogion achosion teuluol yng Nghymru.

### 3. Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

13. Mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael â mater amserol a phwysig iawn, sef sicrhau bod gan bobl yng Nghymru y cymhwysedd ariannol sydd ei angen arnynt i reoli eu hamgylchiadau ariannol yn effeithiol. Wrth wneud hynny, bydd y cynigion yn helpu i gynyddu ffyniant yng Nghymru drwy wella addysg a gallu ariannol ei dinasyddion.
14. Mae angen deddfwriaeth gan fod risg sylweddol y bydd addysg ariannol yn cael ei hesgeuluso, er gwaethaf symudiadau presennol i'w chynnwys yn y cwricwlwm, ac na fydd yn cael ei blaenoriaethu yng nghanol blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu os na fydd gofyniad statudol yn mynd law yn llaw â hi. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai i'r cyfeiriad hwn y mae pethau'n symud yn rhyngwladol, ac mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn hyrwyddo cynnwys addysg ariannol yn ffurfiol yn y cwricwlwm ysgol a chydabod ei phwysigrwydd drwy ddeddfwriaeth.
15. O ran gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru ei hun yn tynnu sylw at swyddogaeth bwysig awdurdodau lleol o ran ymdrin â materion cynhwysiant ariannol yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o gynnydd sydd wedi ei wneud mewn perthynas â rhoi strategaeth Llywodraeth Cymru ar waith yn gyffredinol. Mae hefyd yn anodd barnu i ba raddau y mae gwahanol awdurdodau lleol yn bwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn. Mae canlyniadau diriaethol y gwaith hwn yr un mor anodd eu dirnad. O ganlyniad, mae angen deddfwriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy cadarn yn cael eu sefydlu er mwyn sicrhau ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio'n strategol i hyrwyddo cynhwysiant ariannol eu trigolion.
16. Mae cynigion y Bil yn perthyn i dri chategori bras.
17. **Bydd y Bil yn gwella gallu ariannol ymhlith plant oedran ysgol a phobl ifanc drwy ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol fod addysg ariannol yn cael ei chynnwys yn y cwricwlwm ysgol (adrannau 4 i 7 o'r Bil).**
18. Bydd addysg ariannol yn wahanol i bwnc y cwricwlwm cenedlaethol, lle y mae'r sylw a roddir i gynnwys penodol yn cael ei ragnodi i ysgolion, a bydd yn fwy tebyg i Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith o ran ei darpariaeth; h.y. bydd yn orfodol ond bydd gan ysgolion hyblygrwydd o ran sut y maent yn ei chyflwyno. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru'n llunio fframwaith anstatudol, fel gydag ABCh, y dylai ysgolion ei ddilyn, ond ni fyddai hynny'n orfodol.
19. **Bydd y Bil yn cryfhau swyddogaeth awdurdodau lleol wrth helpu pobl i osgoi mynd i drafferthion ariannol, drwy ei gwneud yn ofynnol i**

**awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol (adrannau 8 i 10 o'r Bil).**

20. Dylai'r strategaeth amlinellu sut y mae awdurdod lleol yn bwriadu annog trigolion i ennill sgiliau mewn llythrennedd ariannol a rheolaeth ariannol, yn ogystal ag amlinellu sut y bydd yr awdurdod lleol yn hwyluso mynediad am ddim i wasanaethau addysg a rheolaeth ariannol ar-lein. Dylai'r strategaeth hefyd nodi sut y mae awdurdodau lleol yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio i hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn eu hardal.

**21. Bydd y Bil yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran darparu cyngor am reolaeth ariannol, yn gyffredinol ac yn benodol i blant a arferai dderbyn gofal ac i fyfyrwyr (adrannau 11 i 13 o'r Bil).**

22. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth gyffredinol am ffynonellau o gyngor i drigolion, gwybodaeth i blant a arferai dderbyn gofal fel rhan o gyfrifoldebau parhaus awdurdodau lleol i fod yn gyfaill, i gynghori ac i gynorthwyo, a thuag at fyfyrwyr addysg bellach ac uwch sy'n astudio yn eu hardal.

**Yr angen cyffredinol am y Bil**

23. Mae'r Bil hwn yn angenrheidiol o ystyried y rhagolygon economaidd anodd sy'n parhau yng Nghymru a gweddill y DU. Mae llawer o bobl yng Nghymru nad oes ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i reoli arian yn effeithiol ac mae angen cymorth ychwanegol arnynt i fod yn llythrennog yn ariannol ac i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer eu hamgylchiadau. Prif nod y Bil, felly, yw helpu pobl yng Nghymru i osgoi mynd ymhellach i drafferthion ariannol.

24. Fodd bynnag, nid dim ond mewn cyfnod ariannol anffafriol lle ceir amrywiadau yn y cylch economaidd y mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol. Mae angen addysg a chynhwysiant ariannol yng Nghymru ar sail barhaol a pharhaus.

25. Mae tystiolaeth gynyddol fod angen cymorth ar bobl i wella eu cymhwysedd ariannol. Er enghraifft, yn ôl yn 2011, adroddodd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Addysg Ariannol i Bobl Ifanc<sup>1</sup>:

- Nad yw pobl ifanc yn gyffredinol wedi eu paratoi'n dda i ymdopi â'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth fyw'n annibynnol, ac mae 70 y cant o bobl ifanc 18-24 oed mewn dyled;
- Nid oedd 43 y cant o rieni yn gwybod beth oedd ystyr termau ariannol sylfaenol megis APR neu PPI;
- Mae ymchwil gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol wedi dod o hyd i lefelau isel o allu ariannol ar draws poblogaeth y Deyrnas Unedig;



- Mae bron i dri chwarter o bobl ym Mhrydain yn beio diffyg dealltwriaeth ariannol bersonol sylfaenol am eu dyledion;
- Oherwydd diffyg addysg ariannol, roedd taliadau wedi effeithio ar 24 y cant o'r boblogaeth am nad oeddent yn deall telerau ac amodau cynhyrchion ariannol.

26. Yn fwy diweddar, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2012-13 ar Gynhwysiant Ariannol<sup>2</sup> yn dangos:

- Mai dim ond 42 y cant o bobl o dan 65 mlwydd oed sy'n gallu talu eu biliau heb anhawster;
- Roedd lefelau llesiant ar eu hisaf pan oedd pobl yn ei chael yn anodd talu biliau neu ymrwymadau credyd;
- Roedd 16 y cant o bobl naill ai'n cael problemau ariannol go iawn ac ar ei hôl hi â'u biliau neu ymrwymadau credyd, yn methu â thalu rhai biliau neu ymrwymadau credyd, neu'n wynebu brwydr gyson i dalu biliau ac ymrwymadau credyd;
- Dywedodd 33 y cant arall fod talu biliau neu ymrwymadau credyd yn anodd o bryd i'w gilydd;
- Er gwaethaf hyn, dim ond 4 y cant o bobl a ddywedodd eu bod wedi defnyddio gwasanaethau sefydliad cyngori ar ddyled yn y flwyddyn ddiwethaf.

27. Roedd adroddiad gan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ym mis Tachwedd 2013<sup>3</sup> hefyd yn amlygu'r angen dybryd i helpu pobl â sgiliau rheoli ariannol. Roedd yr adroddiad yn dangos:

- Bod cyfran y bobl yn y DU sy'n ei chael yn anodd talu biliau ac ymrwymiad credyd wedi codi o 35 y cant yn 2006 i 51 y cant yn 2013;
- Bod 35 y cant o bobl wedi profi ysgytwad yn eu cyllid yn y tair blynedd diwethaf;
- Bod 23 y cant wedi profi gostyngiad mawr yn eu hincwm yn ystod y tair blynedd diwethaf;
- Byddai'n rhaid i 40 y cant feddwl sut i dalu bil annisgwyl o £300;
- O gymharu â 2006, mae 5 miliwn yn llai o bobl yn y DU yn 2013 yn gwneud yn siŵr eu bod yn cynilo arian ar gyfer digwyddiad annisgwyl (tua 238,000 o bobl yng Nghymru, yn ôl cyfran y boblogaeth);

- Yn ystod y chwe mis diwethaf, roedd 12 y cant (neu tua 398,000 o bobl yng Nghymru, yn ôl cyfran y boblogaeth) wedi colli mwy nag un taliad ar fenthyciad, cytundeb credyd neu forgais neu wedi cael tâl gorddrafft heb ganiatâd;
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 40 y cant o bobl (neu 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru, yn ôl cyfran y boblogaeth) wedi defnyddio cerdyn credyd neu siop i dalu gan nad oedd yr arian ganddynt ar y pryd.

28. Ochr yn ochr â'r astudiaeth uchod, cyhoeddodd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol hefyd adroddiad ar effaith dyled ar fywydau pobl<sup>4</sup>. Dangosodd yr adroddiad:

- O'r 8.8 miliwn o bobl yn y DU a oedd â gorddyled, roedd 74 y cant yn anhapus; 70 y cant yn aml yn teimlo'n bryderus oherwydd eu dyledion; a 56 y cant yn nodi effaith negyddol ar eu bywyd teuluol;
- Er gwaethaf hyn, dim ond 17 y cant o bobl â gorddyled sy'n gofyn am gyngor ar hyn o bryd;
- Ar ben hynny, nid oes gan 41 y cant o'r boblogaeth sydd â gorddyled y sgiliau a'r hyder i ymdopi â chredydwyr ac nid yw 44 y cant yn gwybod am yr atebion sydd ar gael iddynt.

29. Felly, gall anawsterau ariannol gael effaith negyddol iawn ar fywydau pobl a'u llesiant. Mae ffigurau a ryddhawyd gan y Samariaid ar gyfer 2013-14 yn dangos bod y galw am eu gwasanaethau yn cynyddu, a chysylltwyd â'r gwasanaeth 161,170 o weithiau am gymorth yn 2013<sup>5</sup>. Mae adroddiad y Samariaid yn cyfeirio yn y cyd-destun hwn at gefndir o gyfnod economaidd anodd a bod nifer anghymesur o'r rhai sy'n cymryd eu bywydau yn cael trafferth ag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd.

30. Yn fwyaf diweddar ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru adroddiad ar ddyled, incwm isel ac allgáu ariannol<sup>6</sup>. Roedd yr adroddiad yn dweud bod 16 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru – 400,000 o bobl – â dyledion. Mae hefyd yn dweud yn glir fod cysylltiad cryf rhwng incwm isel ac allgáu ariannol. Yn ôl yr adroddiad:

Financial exclusion is an additional factor in low income individuals and households becoming indebted. It does not cause indebtedness (or poverty), but it increases the difficulty of managing on a low income. Financial exclusion typically exacerbates individual and household financial difficulties [...]

Most people agree that financial inclusion is:

A state in which people have access to appropriate, desired financial products and services in order to manage their money effectively (www.transact.org)

Achieving that state is generally to be through financial literacy and financial capability on the part of the consumer, and by the provision of access to products and services on the part of financial product, services and advice providers.

Some (such as the Money Advice Service) regard this definition as too narrow, and suggest that financial inclusion encompasses attitudes to and understanding of money and the ability to manage it, as well as access to products and services.

31. Y mater hwn y mae *Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)* yn ceisio mynd i'r afael ag ef yn uniongyrchol. Ni honnir y bydd y Bil yn ateb pob problem ym mhob un o'r materion hyn, ond mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ceisio amlinellu rhai bylchau clir yn y ddarpariaeth addysg a'r gwaith cynllunio polisi a allai, trwy fynd i'r afael â hwy mewn deddfwriaeth, gyfrannu'n sylweddol tuag at wella cynhwysiant ariannol pobl Cymru.
32. Mae symudiad clir tuag at hyrwyddo cynhwysiant ariannol a dyfnhau addysg ariannol ar lefel Cymru, y DU ac ar lefel ryngwladol. Mae diben y Bil wedi ei alinio â'r polisi hwn, ond ei nod yw cryfhau'r ffordd y mae hyn yn cael ei wneud yng Nghymru.
33. Er enghraifft, dau brif gasgliad a wnaed gan y Sefydliad ar Gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (yr OECD) mor bell yn ôl â mis Gorffennaf 2005 oedd nad oedd gan ddefnyddwyr gefndir na dealltwriaeth ariannol ddigonol; a bod addysg ariannol yn effeithio ar ymddygiad defnyddwyr<sup>7</sup>.
34. Ar 18 Rhagfyr 2007, mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd ddogfen gyfathrebu ar Addysg Ariannol (COM 2007 (808))<sup>8</sup>, a oedd yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:
- Dylai addysg ariannol fod ar gael ac yn cael ei hyrwyddo'n weithredol ar bob adeg ym mywydau pobl yn barhaus;
  - Dylai defnyddwyr gael eu haddysgu mewn materion economaidd ac ariannol cyn gynted ag y bo modd, gan ddechrau yn yr ysgol;
  - Dylai awdurdodau cenedlaethol ystyried gwneud addysg ariannol yn rhan orfodol o gwricwlwm addysg ysgolion.
35. Cydnabuwyd arwyddocâd patrymau newidiol wrth wneud penderfyniadau ariannol a phwysigrwydd addysg a chynhwysiant ariannol gan y Grŵp Arbenigol ar Addysg Ariannol a sefydlwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, a adroddodd yn 2008:

...OECD researchers have observed that there is a trend of increasing the transfer of responsibility for personal finances to individual households. As a consequence, households have to take on more risks for which they are not always well prepared. There is a need for greater financial education of consumers who should be aware of the various types of risks and equipped with the means to make responsible decisions on their personal finance.<sup>9</sup>

36. A hithau'n un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, mae'r DU wedi ymrwymo'n fras i'r agenda addysg a chynhwysiant ariannol a hyrwyddir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Yn 2008, ynghyd ag Iwerddon, nododd y Comisiwn ei bod ymhlith arweinwyr y byd o ran datblygiad ei rhaglenni cenedlaethol ar gyfer gwella gallu ariannol defnyddwyr.<sup>10</sup>
37. Sefydlodd Llywodraeth y DU y Corff Addysg Ariannol i Ddefnyddwyr ym mis Ebrill 2010, a newidiwyd ei enw i'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol ym mis Ebrill 2011. Mae hwn yn wasanaeth rhad ac am ddim, diduedd, a'i nod yw gwella dealltwriaeth a gwybodaeth aelodau o'r cyhoedd am faterion ariannol a gwella eu gallu i reoli eu materion eu hunain.
38. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cydnabod yr angen i gymryd camau yn y maes hwn. Cyhoeddodd ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn 2009<sup>11</sup>, Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Ariannol dilynol yn 2010<sup>12</sup>, a Blaenoriaethau Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar gyfer 2011-2013<sup>13</sup> yn 2011.
39. Roedd y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn ceisio nodi'r gwaith yr oedd angen i Lywodraeth Cymru ei wneud, ar y cyd â'r holl randdeiliaid perthnasol, i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig ag allgáu ariannol. Roedd gwella hygyrchedd cyngor a gallu ariannol yn nodau allweddol yn y strategaeth honno. Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso gwaith ar y cyd rhwng asiantaethau yn y maes hwn drwy'r Grŵp Cyflawni Cynhwysiant Ariannol, sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu'r prosiect Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol drwy Ganolfan Cydweithredol Cymru.
40. Yn ôl cofnodion y Grŵp Cyflawni Cynhwysiant Ariannol ym mis Mawrth 2011, fe'i sefydlwyd i newid y pwyslais i helpu i greu mwy o berchnogaeth ar y swyddogaeth ddarparu â'r nod o wneud y ddeinameg yn gryfach ac yn fwy cadarn.<sup>14</sup> Fel y dangosir ym mharagraffau 42-45 isod, mae penderfynu a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw gynnydd gwirioneddol o ran cyflawni'r agenda cynhwysiant ariannol yn fater i'w drafod.
41. Mae amcanion y Bil yn arbennig o berthnasol i'r llinyn Trechu Tlodi yn Rhaglen Lywodraethu bresennol Llywodraeth Cymru.<sup>15</sup> O dan yr ymrwymiad sy'n ymwneud â 'mynd i'r afael â diweithdra a chynyddu incwm aelwydydd', mae gweithredu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru yn gam allweddol. Ar ben hynny, mae ymrwymiad uniongyrchol yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â 'gwella sgiliau pobl ifanc a theuluoedd' er mwyn trechu tlodi. O ran llythrennedd ariannol, mae hyn yn rhywbeth y mae'r Bil yn ceisio ei hwyluso'n uniongyrchol.
42. Er gwaethaf y camau uchod, nid yw'n glir faint o gymhelliant go iawn sydd i ddatblygu'r gwaith hwn ledled Cymru. Er enghraifft, mae'r ddogfen strategol ddiwethaf a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar y mater hwn yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2011-2013, ac nid oes diweddariad wedi ei

gyhoeddi ers hynny.

43. Yn yr un modd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adroddiad Blynyddol ar ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ym mis Rhagfyr 2010<sup>16</sup>, ond nid oes Adroddiadau Blynyddol pellach wedi dilyn. Mae Adroddiad Cynnydd Mehefin 2013 ar Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn nodi bod disgwyl diweddariad ar y cynnydd wrth weithredu'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol cyn toriad yr haf.<sup>17</sup> Fwy na blwyddyn yn ddiweddarach, nid oedd y diweddariad hwnnw wedi ei gyhoeddi wrth i'r Memorandwm Esboniadol hwn fynd i'r wasg.
44. Mae Adroddiad Cynnydd Mehefin 2014 ar Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru<sup>18</sup> yr un mor amwys am y canlyniadau sydd wedi eu cyflawni drwy Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru. Mae'r Adroddiad Cynnydd yn nodi bod pum thema'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar waith, a chefnogaeth i undebau credyd a'r cynllun *Cyngor Da, Bywyd Gwell* yw'r unig enghreifftiau y mae'n eu rhoi o'r gwaith hwn.
45. Mae beirniadaeth allanol wedi bod hefyd ar effaith Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru, a dywedodd Grŵp Tai Cymunedol Cymru wrth un o Bwyllgorau'r Cynulliad ym mis Hydref 2012 fod y strategaeth wedi methu a bod diffyg uchelgais.<sup>19</sup>
46. Gellid dadlau hefyd fod diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn gwneud yr achos dros y Bil hwn hyd yn oed yn fwy cymhellol. Yn benodol, bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae pobl yn rheoli ac yn rhoi trefn ar eu harian eu hunain, a bydd yn golygu y bydd unigolion yn wynebu problemau cyllidebu na fu'n rhaid iddynt ymdopi â hwy o'r blaen.
47. Er enghraifft, bydd costau tai'n rhan o Gredyd Cynhwysol, yn hytrach na'u bod yn fudd-dal ar ei ben ei hun fel y maent ar hyn o bryd. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r hawliwr (yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r landlord) felly gallai anallu i gyllidebu'n effeithiol olygu y gallai pobl yn llythrennol golli eu tai. Mae newidiadau i Fudd-dal Tai sydd eisoes wedi eu rhoi ar waith yn golygu bod dros 30,000 o aelwydydd yng Nghymru yn gorfod dod o hyd i arian ychwanegol i dalu eu rhent a gwneud iawn am doriadau sy'n deillio o'r 'dreth ystafell wely'.<sup>20</sup>
48. Yn wir, roedd yr angen i bobl ddeall y diwygiadau hyn a'r newidiadau sy'n dod yn eu sgil yn thema a bwysleisiwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd wrth baratoi'r Bil hwn. Yn benodol, dywedodd y rhai a ymatebodd fod pobl yn hynod anwybodus am y newidiadau i fudd-daliadau lles ac am y dulliau sydd ar gael i'w helpu i reoli eu harian.
49. Ategwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod rheoli arian yn debygol o fod yn broblem gynyddol wrth i effaith diwygio lles gronni ac wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno. Gellid dadlau, felly, fod angen mwy dybryd nag erioed bod yn

fwy rhagweithiol wrth fynd i'r afael ag allgáu ariannol a phroblemau gallu ariannol yng Nghymru. Mae'r Bil hwn yn ceisio ymateb i'r angen hwnnw.

50. Mae elfennau o addysg ariannol eisoes wedi eu cynnwys mewn rhannau o'r cwricwlwm, gan gynnwys mathemateg, addysg bersonol a chymdeithasol, a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.<sup>21</sup> Mae'r Bil hwn yn darparu sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer addysg ariannol, gan gryfhau ei swyddogaeth a'i dylanwad ar draws y system addysg. Mae'r cynigion wedi eu cynllunio i gefnogi agenda addysg ariannol Llywodraeth Cymru ac adeiladu ar yr hyn sydd eisoes wedi ei wneud i gyflwyno hyn i'r cwricwlwm. Yn hanfodol, bydd y Bil yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru'n cael addysg ariannol mewn gwirionedd ac nad yw'n cael ei gwasgu allan gan flaenoriaethau eraill sy'n cystadlu.
51. Bydd y Bil hefyd yn cyfrannu at hyrwyddo amcanion gwrth-dlodi Llywodraeth Cymru. Mae'n werth nodi bod y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, sydd yn ei swydd ers mis Mehefin 2013, wedi gwneud un o'r tair blaenoriaeth yr oedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi eu nodi – mynd i'r afael â'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad – yn brif flaenoriaeth iddo.<sup>22</sup>
52. Gall llawer o awdurdodau lleol gyfrannu'n sylweddol at yr agenda cynhwysiant ariannol ac mae llawer ohonynt yn gwneud hynny. Fodd bynnag, gellid cryfhau eu swyddogaeth yn hyn o beth a'i hatgyfnerthu. Mae nifer o awdurdodau lleol yn ddi-rym i weithredu yn erbyn y twf mewn cynhyrchion ariannol peryglus megis siopau benthyciadau diwrnod cyflog a galwadau diwahoddiad. Gall y rhain luosogi mewn ardaloedd difreintiedig, lle mae cymhwysedd ariannol yn aml yn wael. Mae poblogaeth fwy llythrennog yn ariannol yn boblogaeth iachach ym mhob ystyr. Oherwydd eu swyddogaeth ganolog o ran cydlynu a darparu gwasanaethau lleol, byddai darparu swyddogaeth arweiniol i awdurdodau lleol wrth hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol yn gam ataliol cadarnhaol a fyddai'n dda o beth i les cymdeithas yn ei chyfanrwydd.
53. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau cynghori rheng flaen yng Nghymru, gan gynnwys cyngor a chefnogaeth am reoli arian. Yn ogystal â chynllun *Cyngor Da, Byw'n Well* mewn partneriaeth â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2014 gynllun grantiau gwerth £1 miliwn y flwyddyn ar gyfer sefydliadau annibynnol dielw sy'n darparu cyngor i bobl ledled Cymru.<sup>23</sup> Fodd bynnag, nododd Adolygiad o Wasanaethau Cynghori Llywodraeth Cymru<sup>24</sup> ym mis Mawrth 2013 gynnydd tebygol yn nifer y bobl y bydd angen cyngor arbenigol arnynt am fudd-daliadau lles, dyled a thai, yn ogystal â chyngor ariannol, o ganlyniad i ddiwygio lles. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Bil yn ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol yn meithrin y cysylltiadau angenrheidiol â'r gwasanaethau cynghori hynny a'u bod yn gallu cyfeirio dinasyddion i'r cyfeiriad mwyaf priodol.
54. Gellid dadlau y byddai'r ddarpariaeth bresennol, o ran addysg ariannol, cynhwysiant ariannol a chyngor ariannol yn annigonol mewn hinsawdd

economaidd fanteisiol, heb sôn am yr amodau presennol. Mae pobl yng Nghymru'n wynebu dewisiadau ariannol anodd o ddydd i ddydd ac mae'r cynigion yn y Bil hwn wedi'u cynllunio i wella eu gallu i wneud hyn.

55. I grynhoi, felly, mae angen rhoi sylfaen statudol gadarnach i addysg ariannol i sicrhau ei bod yn cael ei darparu mewn ffordd gyson sydd wedi ei chyd-gysylltu, fel bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle i ennill sgiliau angenrheidiol. Mae gwybodaeth fanylach am yr achos dros wneud addysg ariannol yn ofyniad statudol ym mharagraffau 58-121.
56. Mae angen sicrhau bod gan awdurdodau lleol gynlluniau ar waith fel bod materion sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol yn flaenllaw yn eu cynllunio strategol. Mae rhai awdurdodau eisoes yn esiampl dda yn hyn o beth, ond ni ellir dweud hynny am yr holl awdurdodau. O ganlyniad, mae angen gosod dyletswydd statudol arnynt i lunio strategaeth cynhwysiant ariannol. Mae gwybodaeth fanylach am yr achos dros gyflwyno'r gofyniad hwn ym mharagraffau 122-180.
57. Mae hefyd angen sicrhau bod dinasyddion yn gallu cael cyngor amserol o ansawdd da am reolaeth ariannol. Gellir dweud bod hyn yn arbennig o wir am blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol a myfyrwyr. Mae angen i awdurdodau lleol wneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau bod y cyngor hwn ar gael bob amser. Mae gwybodaeth fanylach am yr elfen hon o'r Bil ym mharagraffau 181-199.

#### **Cynigion y Bil mewn perthynas ag addysg ariannol (adrannau 4 i 7 o'r Bil)**

58. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofyniad statudol i addysg ariannol gael ei chyflwyno fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Ni fyddai canllawiau ynglŷn â sut y dylai ysgolion ddarparu addysg ariannol fod yr un fath ag ar gyfer pwnc y cwricwlwm cenedlaethol ond yn debyg i elfennau statudol eraill y cwricwlwm ysgol megis addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Rhagwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fframwaith anstatudol, fel gydag ABCh, yn rhoi arweiniad ar yr hyn a ddisgwylir iddi ei gynnwys. Gallai hyn gynnwys gwahaniaethu rhwng cymwyseddau craidd sydd eu hangen er mwyn bod yn ariannol llythrennog a chyfleoedd eraill mwy hyblyg y gellid eu cynnig i ddisgyblion.
59. Ni fyddai'r gofyniad statudol i ysgolion a gynhelir ddarparu addysg ariannol yn gwbl newydd nac yn groes i ddatblygiadau sydd eisoes wedi digwydd a chatau diweddar gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn. Felly bwriedir y bydd sefydlu addysg ariannol yn y cwricwlwm statudol yn ffurfioli llawer o'r hyn sydd eisoes yn digwydd ac yn adeiladu ar hyn fel bod darpariaeth i bobl ifanc yn cael ei gwella a'i bod yn fwy cyson.

*Y sefyllfa ar hyn o bryd*

60. Mae'n ofynnol i ysgolion a gynhelir drwy statud ddilyn y cwricwlwm sylfaenol (neu ysgol) ond nid yw'r ffordd y mae'n rhaid iddynt gyflawni hynny wedi ei rhagnodi. Mae Adran 101 o *Ddeddf Addysg 2002*, fel y'i diwygiwyd, yn rhestru gofynion y cwricwlwm ysgol sylfaenol yng Nghymru.
61. Mae gwahaniaeth pwysig rhwng y cwricwlwm sylfaenol a'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys gorchmynion pwnc a rhaglenni astudio ar gyfer y pynciau craidd a sylfaen, y mae'n ofynnol i ysgolion eu dilyn yn y ffordd y maent yn addysgu'r pynciau hynny. O dan y Bil, byddai addysg ariannol yn cael ei hychwanegu at ofynion y cwricwlwm sylfaenol yng Nghymru o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen (7 oed a throsodd).
62. Mae ABCh ac addysg gysylltiedig â gwaith yn rhannau statudol o'r cwricwlwm o dan adran 101, ond, yn wahanol i bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, gall ysgolion benderfynu sut i ymdrin â hwy a beth i'w gynnwys. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fframweithiau ar gyfer ABCh ac addysg gysylltiedig â gwaith (a elwir yn Gyrfaoedd a Byd Gwaith) ac mae'r rhain yn ffynonellau pwysig o arweiniad i ysgolion. Fodd bynnag, maent yn fframweithiau anstatudol, sy'n golygu nad yw eu cynnwys yn orfodol i ysgolion. Bydd y Bil yn rhoi statws cyfreithiol i addysg ariannol sy'n debyg i ABCh ac addysg gysylltiedig â gwaith; byddai'n orfodol i ysgolion ei darparu ond byddai ganddynt hyblygrwydd o ran sut y maent yn gwneud hyn.
63. Bydd y Bil yn ategu ac yn adeiladu ar yr elfennau hynny o addysg ariannol sydd eisoes yn rhan o ofynion y cwricwlwm ar ysgolion. Ar hyn o bryd, mae addysg ariannol a defnyddio arian yn cael eu cynnwys yng nghwricwlwm cenedlaethol mathemateg, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Statudol, a'r fframwaith ABCh anstatudol. Mae'r fframwaith Gyrfaoedd a byd gwaith anstatudol i bobl ifanc 11 i 19 oed yn cynnwys darpariaeth ar gyfer entrepreneuriaeth ond nid gallu ariannol.
64. Mae'r cwricwlwm mathemateg yn cynnwys deall a defnyddio arian ym mhob Cyfnod Allweddol, er enghraifft, yng Nghyfnod Allweddol 4, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i:
- Cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario, gan gynnwys cyfraddau cyfnewid arian cyfred, elw a cholled, disgownt, hurbwrcas, bargeinion gorau, biliau cartref a llog cyfansawdd.<sup>25</sup>
65. Mae'r cwricwlwm mathemateg hefyd yn datgan yng Nghyfnod Allweddol 4, fod dysgwyr yn atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth gan eu galluogi i ddatrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau, yn enwedig rheoli cyllid personol.<sup>26</sup> Fodd bynnag, nid yw'r ffordd y mae hyn yn cael ei ddarparu wedi ei nodi.



66. Mae cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ofyniad statudol ar ysgolion yng Nghymru ac fe'i cyflwynwyd ym mis Medi 2013. Mae nifer o ddisgwyliadau o ran galluoedd dysgwyr yn cael eu pennu ym mhob blwyddyn o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 9. O fis Medi 2014, bydd yn ofynnol i athrawon asesu disgyblion yn erbyn y disgwyliadau hyn yn flynyddol.
67. Un o linyddau'r cydrannau rhifedd yn y Fframwaith yw 'Defnyddio sgiliau rhif' ac o fewn y maes hwn, mae elfen o'r enw 'Rheoli arian'. Erbyn diwedd Blwyddyn 9, disgwylir i ddisgyblion ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol ffyrdd o gynilo a buddsoddi yn ogystal â phwysigrwydd yswiriant.<sup>27</sup>
68. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno ail TGAU mathemateg newydd mewn 'rhifedd' yng Nghymru o fis Medi 2015. Mae hyn yn rhan o waith, yn dilyn Adolygiad Huw Evans o Gymwysterau i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru<sup>28</sup>, i ddiwygio'r TGAU mathemateg presennol yn un sy'n cwmpasu 'technegau mathemategol'. Mae newidiadau tebyg yn cael eu gwneud i'r TGAU Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf i gyflwyno mwy o bwyslais ar lythrennedd. Bydd y TGAU rhifedd wedi'i gynllunio i adeiladu ar y lefelau rhifedd a ddisgwylir o dan y Fframwaith ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud y bydd yn cynnwys llythrennedd ariannol.
69. Mae'r Fframwaith ABCh anstatudol i blant saith i 19 oed yn nodi cyfleoedd penodol y dylid eu cynnig i ddisgyblion ym mhob Cyfnod Allweddol ac mewn darpariaeth ôl-16. Yn gyffredinol, mae'n nodi, wrth baratoi ar gyfer dysgu gydol oes:
- Bod angen i ddysgwyr hefyd ddatblygu dealltwriaeth o rôl a phwysigrwydd arian. Mae angen cymorth arnynt i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau fel defnyddwyr, a chymorth i feithrin gallu ariannol a fydd yn eu galluogi i ffurfio barn effeithiol a gwneud penderfyniadau effeithiol mewn perthynas â materion economaidd.<sup>29</sup>
70. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu mewn dau gam. Mae'r cynigion yng nghanam 1, yr ymgynghorwyd arnynt ddiwedd 2013, yn ymwneud â sut y dylai trefniadau'r cwricwlwm ac asesu gael eu diweddarau i gyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd, gan gynnwys adolygu'r rhaglenni astudio ar gyfer mathemateg ym mhob un o'r Cyfnodau Allweddol. Rhagwelir y bydd y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno ar sail anstatudol o fis Medi 2014, ac wedyn yn dod yn statudol o flwyddyn academaidd 2015/16. Bydd Cam 2 yn canolbwyntio mwy ar gynllun y cwricwlwm a datblygu cwricwlwm sy'n benodol i Gymru. Cynigir hefyd y dylid sefydlu fframwaith 'sgiliau ehangach' statudol, a fydd yn disodli'r fframwaith sgiliau anstatudol, er nad yw'n eglur sut, os o gwbl, y gallai llythrennedd ariannol gael ei gynnwys yn hyn.
71. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud mewn gohebiaeth at Bethan Jenkins y bydd lle llythrennedd ariannol o fewn y cwricwlwm yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu sy'n parhau, ond nid oes manylion wedi

ymddangos eto ynglŷn â sut y gallai hyn gael ei gynnwys. Mae Bethan Jenkins wedi cyflwyno rhagor o sylwadau i'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, yn gofyn am gyfarfod i drafod ei chynigion, a'r gobaith yw y bydd hyn yn bosibl yn y dyfodol agos.

72. Y bwriad yw y dylai cyflwyno'r gofyniad statudol ar gyfer addysg ariannol lywio'r gwaith a chanlyniad yr adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu, fel bod newidiadau cyffredinol yn cael eu gwneud mewn modd cyfannol. Disgwylir i'r Athro Graham Donaldson, sydd wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal cam 2, adrodd erbyn diwedd 2014. Mae Bethan Jenkins wedi ymateb i'r alwad am dystiolaeth<sup>30</sup> gan adolygiad yr Athro Donaldson, gan bwysleisio pwysigrwydd cynnwys llythrennedd ariannol yn y gwaith hwn ac unrhyw drefniadau cwricwlaidd newydd o ganlyniad yng Nghymru. Mae hefyd wedi cwrdd â'r Athro Donaldson fel rhan o'i gwaith ymgynghori ac ymgysylltu i lywio paratodau'r Bil.
73. Mae gwybodaeth am gyfleoedd i gyflwyno addysg ariannol yn y cwricwlwm yn cael eu dwyn at ei gilydd yn nogfen canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a cholegau, *Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*. Cyhoeddwyd y canllawiau yn 2011, ac maent wedi'u hanelu at gyrff llywodraethu, uwch dimau rheoli ac ymarferwyr / athrawon i'w helpu i gynllunio a chyflwyno addysg ariannol.
74. Tan yn gymharol ddiweddar, mae cymorth penodol wedi bod ar gyfer darparu addysg ariannol gan Uned Addysg Ariannol Cymru, a sefydlwyd yn 2008 o fewn Llywodraeth Cymru. Gweithiodd yr Uned gydag ymarferwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol ac mewn partneriaeth ag addysg bellach a'r sector gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector.
75. Daethpwyd â'r Uned i ben ym mis Awst 2013, wrth i Lywodraeth Cymru ddweud mai ei bwriad o'r cychwyn oedd mai rhaglen gyfyngedig o ran amser fyddai hon. Fodd bynnag, mae'r adnoddau a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd gan staff yr uned ar gael i ysgolion yng Nghymru a, thrwy gynnwys addysg ariannol yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod mecanwaith 'hynod o gryf' i ymgorffori sgiliau o'r fath yn y cwricwlwm craidd.<sup>31</sup>
76. Roedd gan yr Uned swyddogaeth bwysig o ran darparu'r cymorth angenrheidiol i ysgolion ac athrawon i ddarparu addysg ariannol. Mae cofnodion 9 Mawrth 2012 Grŵp Cyflawni Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru yn dyfynnu cynrychiolydd o'r Uned yn hysbysu'r Grŵp fod pwyslais yr Uned Addysg Ariannol i raddau helaeth ar ysgolion a hyfforddwyd dysgu.<sup>32</sup>
77. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ar wefan Dysgu Cymru<sup>33</sup> ddeunyddiau hyfforddi ar gyfer athrawon ac ymarferwyr addysg ar sut y gall addysg ariannol gael ei darparu o fewn y ddarpariaeth bresennol. Rhagwelir y gallai'r rhain fod yn sail ar gyfer unrhyw hyfforddiant ychwanegol sy'n ofynnol o dan y Bil hwn.

78. Mae angen y darpariaethau yn y Bil hwn i atgyfnerthu'r datblygiadau a'r mentrau diweddar hyn. Mae hefyd yn amlwg nad yw'r trefniadau hyn ar eu pen eu hunain yn ddigon i sicrhau y darperir addysg ariannol yn gyffredinol i bob disgybl ym mhob ysgol ledled Cymru. Mae gwybodaeth a gafwyd o dan *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* yn dangos i ba raddau y mae'r ddarpariaeth addysg ariannol bresennol yn amrywio yng Nghymru.
79. Ymatebodd cyfanswm o 81 o ysgolion uwchradd i gais Rhyddid Gwybodaeth ynghylch nifer yr oriau o addysg ariannol a ddarparwyd o fewn y cwricwlwm mathemateg a'r cwricwlwm ABCh mewn ysgolion ym mlwyddyn academaidd 2012/13.<sup>34</sup> Er bod rhai ysgolion yn treulio cryn dipyn o amser yn cyflwyno addysg ariannol, nid oedd eraill yn gwneud hynny, ac mewn un achos roedd yn golygu nad oedd unrhyw ddarpariaeth o gwbl.
80. Y nifer uchaf o oriau o addysg ariannol a ddarparwyd mewn mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 oedd 180 awr ac, mewn ysgol arall, 130 yng Nghyfnod Allweddol 4. Ar gyfer ABCh, roedd yn 30 awr yng Nghyfnod Allweddol 3, ac 20 yng Nghyfnod Allweddol 4; y ddau yn yr un ysgol. Yr isaf ar gyfer mathemateg oedd dim o oriau o gwbl mewn un ysgol (Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4), a'r isaf ar gyfer ABCh oedd un awr mewn dwy ysgol (yn y ddau gyfnod allweddol).
81. Darparodd yr ysgol yn y safle uchaf yn gyffredinol 180 o oriau mewn mathemateg a 15 awr mewn ABCh yng Nghyfnod Allweddol 3, a 60 awr mewn mathemateg a 15 awr mewn ABCh yn CA4. Mae hyn yn golygu y byddai ei disgyblion wedi derbyn cyfanswm o 270 awr o addysg ariannol rhwng 11 ac 16 oed. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ysgol yn y safle isaf yn gyffredinol ddarparu dim addysg ariannol mewn mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, a dim ond tair awr mewn ABCh yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. Mae hyn yn rhoi cyfanswm darpariaeth o chwe awr rhwng 11 ac 16 oed.
82. Mae'r ffaith bod diffyg cysondeb a chyfleoedd ar hap i gael addysg ariannol yng Nghymru yn dibynnu ar ba ysgol y mae plentyn yn ei mynychu yn cyd-fynd â chanfyddiadau Estyn. Cyhoeddodd yr arolygiaeth adroddiad thematig yn 2011 ar ddarparu addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yng Nghymru, *Materion Ariannol*. Mae canlyniad y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn dangos 'loteri cod post', yn fwyaf amlwg mewn achos lle roedd dwy ysgol a llai na deng milltir rhyngddynt â chymaint â 18 awr o wahaniaeth rhyngddynt mewn un Cyfnod Allweddol.
83. Efallai fod darpariaeth addysg ariannol wedi cynyddu a dod yn fwy cyson drwy gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd o fis Medi 2013. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hon o amrywiadau amlwg yn lefel yr addysg ariannol i blant a phobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru'n cefnogi'r angen am ddeddfwriaeth i sicrhau bod addysg ariannol yn rhan orfodol o'r cwricwlwm sylfaenol yng

Nghymru.

84. Yn ei adroddiad yn 2010 ar Gynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol, argymhellodd Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol:

bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y ddarpariaeth addysg ariannol yn elfen orfodol o'r fframwaith ABCh, ac yn adolygu'r pwyslais a roddir ar addysg ariannol yn rheolaidd.<sup>35</sup>

85. Gan dderbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y cyfrifoldeb statudol presennol i gyflwyno ABCh a rhoi sylw i addysg ariannol o fewn y fframwaith ABCh, er nad yw'r arweiniad hwn yn ofyniad cyfreithiol i ysgolion ei ddilyn ac felly y mae'n dibynnu ar eu disgrisiwn. Ychwanegodd Llywodraeth Cymru fod ABCh, fel pob agwedd ar gwricwlwm ysgol, yn destun adolygu rheolaidd.

86. Mae'r Bil yn bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn mewn ffordd nad yw'n amharu ar yr hyblygrwydd cynhenid wrth gyflwyno ABCh trwy ddarparu rhwymedigaeth statudol ar gyfer addysg ariannol mewn ffordd gymesur a hyblyg, gan ei hintegreiddio i'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

*Yr achos dros ffurfioli lle addysg ariannol yn y cwricwlwm statudol*

87. Er gwaethaf y momentwm tuag at wella swyddogaeth addysg ariannol yn y cwricwlwm, sydd wedi cynyddu'n ddi-os yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r trefniadau presennol yn annigonol ac mae angen eu cryfhau.

88. Tynnwyd sylw at y mater hwn gan Estyn yn *Materion Ariannol* a ganfu fod y:

rhan fwyaf o ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, yn cyflwyno addysg ariannol trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol yn bennaf... [ac] nid yw'r gwersi hyn yn ddigon da ar eu pen eu hunain i wneud yn siŵr bod gan ddysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o faterion ariannol neu'r medrau i wneud penderfyniadau ariannol cadarn pan fyddant yn hŷn.<sup>36</sup>

89. Yn ei hymateb i *Materion Ariannol* ym mis Mehefin 2011<sup>37</sup>, derbyniodd Llywodraeth Cymru fod mwy i'w wneud o hyd i ymgorffori addysg ariannol ar draws y cwricwlwm. Cafwyd tystiolaeth o'r farn bod angen mwy o weithredu yng nghofnodion 31 Hydref, 2011 Grŵp Cyflawni Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru.<sup>38</sup>

90. Tynnodd Estyn sylw hefyd at broblem amrywiadau yn y ddarpariaeth bresennol yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar gynigion y Bil hwn (gweler yr adran nesaf am ymgynghori). Bydd gosod gofyniad statudol clir yn rhoi llawer mwy o bwys a sicrwydd i le addysg ariannol yn y cwricwlwm.

91. Mae'r angen i wella sgiliau ariannol hefyd yn deillio o ganlyniadau siomedig Cymru yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) ar gyfer 2012. Mae PISA yn profi disgyblion 15 oed mewn llawer o wledydd ar eu gallu i gymhwyso eu

gwybodaeth a'u sgiliau i fynd i'r afael â heriau bywyd go iawn, fel y nodir yn y profion. Mae llythrennedd ariannol yn enghraifft amlwg o sgiliau sydd eu hangen i ymdrin â'r her go iawn o wneud dewisiadau ariannol anodd. O gofio y bydd yr arolwg PISA nesaf (2015) yn cynnwys prawf addysg ariannol, bydd y Bil hefyd yn ategu agenda Llywodraeth Cymru i wella sgoriau a safle Cymru yn asesiadau PISA.

92. Er bod y trefniadau presennol ar gyfer addysg ariannol wedi eu cyflwyno trwy bwerau Gweinidogol presennol ac isdeddfwriaeth, mae angen rhoi sylfaen gadarn iddynt yng Nghymru o fewn deddfwriaeth sylfaenol. Bydd y Bil yn rhoi statws diamod i addysg ariannol yn y cwricwlwm ac yn sicrhau ei bod yn cael ei darparu i bobl ifanc yng Nghymru. Roedd egwyddorion lefel uchel y Sefydliad ar Gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar strategaethau cenedlaethol ar gyfer addysg ariannol, a gyhoeddwyd yn 2012, yn nodi deddfwriaeth fel un o'r dulliau posibl o gydnabod pwysigrwydd addysg ariannol.<sup>39</sup> Yn dilyn hynny, ym mis Medi 2013, un o'r meysydd blaenoriaeth a awgrymwyd mewn cyhoeddiad ar y cyd gan lywyddiaeth Rwsia o'r G20 a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd oedd sicrhau ansawdd addysg ariannol drwy ddatblygu cymwyseddau craidd a safonau o ansawdd uchel ar gyfer darparu addysg.<sup>40</sup>

93. Cydnabyddir hefyd fod targedu ymdrechion i wella llythrennedd ariannol poblogaethau cyfan drwy addysg mewn ysgolion yn arbennig o effeithiol. Mae'r Sefydliad ar Gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi nodi mai un o brif elfennau bron pob strategaeth genedlaethol yw cyflwyno addysg ariannol mewn ysgolion, gan ddweud:

This is attributable to the advantages of this type of provision: outreach to an entire generation before adulthood in a context conducive to learning and changing habits, the potential spill-over effects on parents as well as the community, and cost-effectiveness.<sup>41</sup>

94. Ar ben hynny, yn ei gyhoeddiad yn ddiweddar, *Financial Education for Youth: the role of schools*, mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd hefyd wedi ehangu ei ddadl ar sut y mae cynnwys addysg ariannol yn y cwricwlwm ysgol yn rhoi hwb i gynhwysiant ariannol:

...effective practices and results of existing programmes' evaluation show that including financial education in the formal school curriculum is one of the most efficient and fair ways to reach a whole generation on a broad scale. In addition, since the curriculum spans several years and can start as early as kindergarten, it is a unique means to inculcate and nurture a sound financial culture and behaviours amongst future adults. This is especially important since parents are unequally equipped to transmit to their children sound financial habits. Besides, as demonstrated in other related education fields (such as health), young people are potentially good disseminators of new habits in the rest of the population.<sup>42</sup>

95. Heb ofyniad statudol ar gyfer addysg ariannol, mae'r risg y bydd yn cael ei hesgeuluso'n parhau, ac na roddir blaenoriaeth iddi dros flaenoriaethau eraill sy'n cystadlu.

*Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham*

96. Mae Adran 4 o'r Bil yn ychwanegu addysg ariannol (addysg am wasanaethau ariannol a rheolaeth ariannol) at restr gofynion statudol y cwricwlwm sylfaenol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae gofynion presennol sydd â statws tebyg yn cynnwys addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), addysg gysylltiedig â gwaith, ac addysg rhyw. Bydd y rhwymedigaeth i ddarparu addysg ariannol yn cwmpasu Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.
97. Mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i ddisgyblion o ddechrau Blwyddyn 3 (7 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol) tan ddiwedd Blwyddyn 11 (16 oed ar ddiwedd y flwyddyn ysgol) mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, drwy statud, gael eu dysgu am faterion fel rheoli arian a gwneud penderfyniadau ariannol.
98. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r diffygion presennol lle y gall agweddau ar addysg ariannol gael eu darparu mewn ysgolion, ond mae hyn yn dibynnu ar ei chynnwys mewn gwahanol ffrydiau o'r cwricwlwm. Byddai rhoi statws statudol yn ei rhinwedd ei hun i addysg ariannol yn helpu i oresgyn problemau darpariaeth anghyson a'r ffaith nad yw'n cael ei gwarantu i ddisgyblion, fel y canfu Estyn yn ei adroddiad thematig *Materion Ariannol* yn 2011.
99. Mae angen rhoi ystyriaeth lawn i'r adolygiad parhaus o'r cwricwlwm ac asesu, cam 2, y mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Athro Graham Donaldson i'w gynnal a chyflwyno adroddiad erbyn diwedd 2014. Dylai gweithredu'r Bil a datblygu unrhyw ganllawiau neu fframwaith i gefnogi'r gofyniad statudol ar gyfer addysg ariannol fod â chysylltiad agos â chanlyniadau adolygiad yr Athro Donaldson.
100. Fodd bynnag, nid oedd y rhestr o adolygiadau ac argymhellion blaenorol y gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Donaldson eu hystyried yn ei adolygiad<sup>43</sup> yn cynnwys argymhelliad blaenorol y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant nac unrhyw gyfeiriad arall at addysg ariannol. Er ei bod yn bwysig bod y Bil hwn yn cyd-fynd â'r adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu, mae'n bell o fod yn glir y gellid dibynnu ar yr adolygiad ar ei ben ei hun i gyflawni amcanion y Bil hwn o ran addysg ariannol.
101. Byddai ychwanegu addysg ariannol at y rhestr o ofynion yn adran 101 o *Ddeddf Addysg 2002* yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru'n cael y cyfleoedd gwirioneddol sydd eu hangen arnynt i ddysgu sut i fod yn llythrennog yn ariannol yn y byd y tu allan. Nid yw hyn yn golygu y byddai'n rhaid ei chyflwyno ar ei phen ei hun neu hyd yn oed fel pwnc ar wahân. Yn wir, mae'r Bil hwn yn rhagweld y byddai'n cael ei chyflwyno drwy feysydd sydd eisoes yn rhan o'r cwricwlwm ysgol megis mathemateg a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, a newidiadau sydd ar y gweill megis y TGAU rhifedd mathemateg. Efallai y gallai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried i ba raddau y mae addysg ariannol yn cael ei

chyflwyno fwyaf effeithiol ar draws y cwricwlwm.

102. Nid oes angen 'ailddyfeisio'r olwyn' o ran yr hyn a olygir wrth addysg ariannol. Mae dogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru, *Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed*, a gyhoeddwyd yn 2011, sy'n nodi'r cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli o fewn y cwricwlwm, yn nodi mai nod addysg ariannol yw sicrhau bod dysgwyr yn alluog yn ariannol, ac y gellir ei rhannu yn dair thema sy'n gorgyffwrdd ac yn gysylltiedig â'i gilydd:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth ariannol – Mae hyn yn golygu bod â gwybodaeth a dealltwriaeth am natur arian a deall ei swyddogaethau a'i ddefnyddiau.
- Sgiliau a chymhwysedd ariannol – Mae hyn yn golygu gallu defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am faterion ariannol mewn amrywiaeth o gyd-destunau er mwyn ymdrin â materion rheoli arian o ddydd i ddydd a dechrau meddwl am gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Cyfrifoldeb ariannol – Mae hyn yn golygu bod yn ymwybodol fod cysylltiad agos rhwng arian a phenderfyniadau ariannol a barn am werth ac y gallant effeithio nid yn unig ar y sawl sy'n penderfynu ond hefyd ar y teulu a'r gymuned.

103. Mae'r Bil hwn yn rhagweld y dylid diweddarau'r canllawiau presennol ar addysg ariannol i gynnwys datblygiadau diweddar megis y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'u gwella er mwyn cynorthwyo ysgolion i gydymffurfio â'r gofyniad statudol ffurfiol newydd. Gallai'r canllawiau hyn, a allai fod ar ffurf fframwaith anstatudol tebyg i'r rhai hynny sydd wedi eu sefydlu ar gyfer ABCh a Gyrfaedd a byd gwaith, nodi rhai cymwyseddau neu sgiliau craidd sy'n ganolog i lythrennedd ariannol, sef y rhannau mwyaf allweddol o'r hyn y dylai ysgolion ei ddysgu i'w disgyblion.

104. Gallai'r cymwyseddau neu'r sgiliau craidd hyn gynnwys pynciau megis cyfraddau llog, benthyca a dyled, cyllidebu, gwariant aelwydydd, er nad yw'r Bil yn ceisio rhagnodi mewn deddfwriaeth sylfaenol beth ddylai'r rhain fod. Er y byddai ysgolion yn cadw hyblygrwydd yn y pen draw o ran dulliau a'r modd o gyflwyno hyn, gallai'r canllawiau anstatudol wahaniaethu rhwng cymwyseddau a sgiliau craidd o'r fath, a chyfleoedd eraill y gallai ysgolion eu cynnig i ddisgyblion.

105. Fel gydag unrhyw gwricwlwm, bydd yn bwysig i sicrhau bod y ffordd y mae cysyniadau ariannol yn cael eu haddysgu yn briodol i oedran y dysgwr. Felly, mae angen dealltwriaeth eang a hyblyg o addysg ariannol. Ni fyddai cyflwyno'r pynciau mwy datblygedig megis llog cyfansawdd, TAW a threthi, neu yswiriant diogelu taliadau yn briodol i blant sy'n rhy ifanc, ond gallai defnyddio enghreifftiau syml o arbed arian mewn 'cadw-mi-gei', defnydd sylfaenol o

ddarnau arian, neu ddefnyddio arian cinio wythnos dros bum diwrnod efallai fod yn addas.

106. Byddai angen digon o hyfforddiant a threfniadau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ymarferwyr addysg ac athrawon i gyflawni'r gofyniad statudol. Roedd Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn cyd-fynd â chyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i gynorthwyo ysgolion i'w weithredu, a dylai fod wedi cynnwys elfen o faterion ariannol oherwydd eu bod wedi eu cynnwys yn y cydrannau rhifedd. Mae'r Bil yn rhagweld y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i gyd-fynd â'r canllawiau i ysgolion ar ddarparu addysg ariannol. Gallai hyfforddiant yn y maes hwn adeiladu ar y deunyddiau hyfforddi sydd eisoes wedi eu darparu gan Lywodraeth Cymru ar ei gwefan Dysgu Cymru.
107. Rhagwelir y gallai materion ariannol gael eu cynnwys mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon fel bod gan athrawon ddigon o sgiliau a hyfforddiant erbyn iddynt fod yn gyfrifol am ei chyflwyno. Byddai angen sefydlu trefniadau datblygiad proffesiynol parhaus eraill ar gyfer athrawon sydd eisoes yn ymarfer ac ar gyfer ysgolion yn fwy cyffredinol. Gallai diwrnodau HMS gael eu defnyddio ar gyfer dibenion o'r fath, er y rhagwelir y byddai diwygiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfleoedd i gymorth o'r fath gael ei ddarparu i ysgolion wrth ddarparu addysg ariannol fel rhan o symudiad tuag at drefniadau datblygiad proffesiynol parhaus llai tameidiog a mwy strategol ar gyfer athrawon.
108. Ar 10 Mehefin 2014, gwnaeth y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ddatganiad Cabinet ar fodel cenedlaethol o ddysgu proffesiynol ar gyfer gweithlu'r ysgolion yng Nghymru.<sup>44</sup> Dywedodd y Gweinidog fod hon yn 'Fargen Newydd' ar gyfer gweithlu'r ysgol:
- Mae'r fargen newydd yr wyf yn ei chynnig, a'r model cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol a fydd yn ei hategu, wedi'i chynllunio i wella ansawdd ymarfer proffesiynol ac i feithrin parch tuag at y gweithlu. Bydd yn cael ei llunio gan weithwyr proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol, a'i nod yn benodol fydd cyflawni ein blaenoriaethau cenedlaethol o wella llythrennedd a rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol.
109. O dan y trefniadau newydd a gyhoeddwyd gan y Gweinidog, bydd athrawon yn cael Proffil Dysgu Proffesiynol ar-lein newydd, y gallant ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad eu gyrfa a chofnodi taith eu datblygiad proffesiynol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r proffil newydd hwn ar gael yn rhwydd ac y byddai'r ymarferwr yn ei 'berchnogi' er mwyn bod yn basbort y gallant ei ddefnyddio fel tystiolaeth a chofnod o'u dysgu proffesiynol.
110. Disgrifiodd y Gweinidog hefyd yn ei ddatganiad y cynnig 'clir' i athrawon fel a ganlyn:



Bydd yn ymrwymiad i ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel a ddylai fod yn rhan o brofiad proffesiynol pob ymarferydd ac a fydd yn cefnogi dilyniant gydol eu gyrfa beth bynnag fo'u dyheadau. Bydd yn cynnig cymorth wedi'i seilio ar yr egwyddorion sylfaenol sydd bellach yn llywio pob proffesiwn uchel ei statws ledled Cymru—dysgu ar y cyd, rhannu arfer da ac ymgysylltu â data ac ymchwil—a chaiff ei hyrwyddo o fewn ysgolion, a'i hwyluso gan gonsortia rhanbarthol, gyda chymorth effeithiol gan ein prifysgolion.

111. Wrth ymateb i gwestiynau am yr adnoddau a fydd ar gael i gefnogi'r model newydd ar gyfer dysgu proffesiynol, nododd y Gweinidog sut y bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio'n fwy strategol:

Mae gennym y grant effeithiolrwydd ysgolion—£28 miliwn; mae gennym y grant amddifadedd disgyblion—oddeutu £70 miliwn; a bellach mae gennym Her Ysgolion Cymru, oddeutu £20 miliwn arall. Fodd bynnag, yr hyn yr ydym yn ei wybod yw, os byddwn yn onest â ni ein hunain ac yn derbyn y gwersi a ddysgwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, yn rhy aml, fod y cyllid ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus sydd wedi ei glymu yn y grantiau hynny a'r ffrydiau ariannu hynny yn cael ei ddosbarthu mewn modd gwasgaredig. Nid oes pwyslais penodol iddo, ni chynllunnir ar ei gyfer, nid yw'n strategol ac nid yw'n cael ei adeiladu i mewn i raglen ddatblygu ar gyfer yr athro nac ar gyfer yr ysgol, a dyna pam y mae gennym y system newydd.<sup>45</sup>

112. Byddai cynnwys addysg ariannol yn y cwricwlwm statudol a fframwaith anstatudol ar gyfer ei gweithredu yn rhoi mecanwaith mwy cydlynol a chyson er mwyn ei darparu. Byddai hyn yn arwain at lefel gryfach a dyfnach o sylw i sgiliau ariannol yn yr addysg y mae plant a phobl ifanc yn ei derbyn yn yr ysgol.
113. Mae adran 5 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol wrth ddatblygu cynnwys y cwricwlwm ar addysg ariannol. Byddai hyn yn sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm, ar y ffurf a ragwelir, sef fframwaith anstatudol, mor berthnasol â phosibl i brofiadau ariannol go iawn ac yn diweddarar'r cynnwys er mwyn ystyried datblygiadau newydd yn y diwydiant ariannol. Byddai enghreifftiau diweddar yn cynnwys camwerthu yswiriant diogelu taliadau a benthyciadau diwrnod cyflog. Byddai'n hanfodol bod y fframwaith neu'r canllawiau sydd ar gael i ysgolion yn ymgorffori newidiadau o'r fath mewn sector sy'n newid yn gyflym.
114. Roedd pwysigrwydd ymgynghori yn thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r ymarfer ymgynghori, ac roedd yr ymatebion yn gyffredinol yn datgan y byddai cyfranogiad rhanddeiliaid yn hanfodol o ran sicrhau ehangder a phwyslais priodol yng nghynnwys y cwricwlwm. Byddai defnyddio adnoddau allanol yn ychwanegu at yr arbenigedd a'r addysg ariannol sydd ar gael.
115. Rhagwelir y bydd y mathau o sefydliadau ac unigolion yr ymgynghorir â hwy'n cynnwys y bobl ifanc eu hunain, ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, y diwydiant gwasanaethau ariannol, sefydliadau tai a'r trydydd sector. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn pennu â phwy y dylid ymgynghori a Llywodraeth Cymru fyddai'n penderfynu pwy i ymgynghori â hwy yn seiliedig ar arbenigedd y bobl hynny.

116. Mae Adran 6 o'r Bil yn gosod gofynion i adolygu cynnydd addysg ariannol. Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad ym mhob blwyddyn ariannol a fydd yn adrodd ar gynnydd addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol flaenorol.
117. Bydd yn bwysig monitro'r effaith y mae addysg ariannol yn ei chael yn dilyn y newid deddfwriaethol hwn, ynghyd â'r datblygiadau o ran ei chynnwys o fewn rhifedd, ac mae'r gofyniad i adolygu'r cynnydd yn ffordd bwysig o wneud hyn.
118. Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu sut y mae'n bodloni'r gofyniad i lunio adroddiad blynyddol, ond gallai hyn gael ei wneud gan Estyn, yn ei swyddogaeth fel arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru. Cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig, *Materion Ariannol* yn 2011, ar ôl i Lywodraeth Cymru ofyn iddo wneud hynny a gallai hyn fod yn gysail i'w dilyn.
119. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Estyn fod y ffordd y mae'n cynnal arolygiadau wedi newid o dan y cylch arolygu presennol ac nad yw bellach yn edrych ar bynciau unigol a'i fod yn rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau. Mae'n debyg mai llunio adroddiad thematig ar wahân, yn hytrach na'i ymgorffori ym mhob arolygiad, fydd y ffordd orau ymlaen er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i lunio adroddiad yn y Bil.
120. Mae Adran 7 y Bil yn gosod rhwymedigaethau penodol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn derbyn addysg ariannol. Mae hyn yn adlewyrchu swyddogaeth awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol i'r plant y maent yn gofalu amdanynt a statws plant sy'n derbyn gofal, fel grŵp sy'n arbennig o agored i niwed, y gellid dadlau bod hyd yn oed mwy o angen addysg ariannol gref arnynt na phlant a phobl ifanc eraill.
121. Er y dylai'r gofyniad cwricwlwm statudol sicrhau bod pob plentyn yn yr ysgol yn derbyn addysg ariannol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, mae adran 7 o'r Bil yn darparu mecanwaith diogelu ychwanegol i'r grŵp hwn sy'n agored i niwed. Mae'n cydnabod hefyd fod plant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol na'u cymheiriaid o gael eu haddysg y tu allan i'r ysgol a'u bod felly mewn mwy o berygl o fod ar eu colled o ran darpariaeth y cwricwlwm yn yr ysgol.

**Cynigion y Bil mewn perthynas â strategaethau cynhwysiant ariannol (adrannau 8 i 10 o'r Bil)**

122. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofyniad statudol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol. Rhaid i'r strategaeth hon amlinellu sut y mae'r awdurdod yn bwriadu hybu cynhwysiant ariannol unigolion sy'n byw yn ei ardal; sut y bydd yn annog unigolion sy'n byw yn ei ardal i ennill sgiliau mewn llythrennedd ariannol a rheolaeth ariannol; sut y bydd yr awdurdod yn hwyluso mynediad am ddim i wasanaethau addysg a rheolaeth ariannol ar-lein; a sut y mae'n bwriadu gweithio gyda sefydliadau eraill a all hyrwyddo cynhwysiant

ariannol yn ei ardal. Rhaid i bob awdurdod lleol ymgynghori cyn llunio ei strategaeth; rhaid ei ddiwygio bob pum mlynedd; a rhaid cyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu sut y mae wedi gweithredu'r strategaeth honno.

123. Mae'r Bil yn ceisio cadw cydbwysedd rhwng sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru gynllun strategol i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol, gan ganiatáu hyblygrwydd fel y gall pob strategaeth ymateb i amgylchiadau lleol. Bydd y gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar roi hyn ar waith yn sicrhau y gall y camau y mae pob awdurdod wedi eu cymryd yn y cyswllt hwn gael eu monitro a'u meincnodi ac y gellir craffu arnynt gan unrhyw barti sydd â diddordeb.
124. Mae rhywfaint o hyblygrwydd hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol sydd wedi sefydlu cynlluniau neu weithgarwch er mwyn mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol seilio eu strategaethau ar y gwaith y maent eisoes yn ei wneud yn y maes hwn. Ar y llaw arall, bydd y gofyniad i gynhyrchu strategaeth yn sicrhau y bydd angen i'r awdurdodau hynny nad oes ganddynt ar hyn o bryd unrhyw gynlluniau o'r fath edrych eto ar faterion yn ymwneud â chynhwysiant ariannol a phwyslais strategol newydd.
125. Byddai gallu Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar lunio, cynnwys ac adolygu strategaethau cynhwysiant ariannol yn golygu bod modd ymdrin â'r materion hyn fel rhan o waith cynllunio strategol ehangach awdurdodau lleol (e.e. trwy gynllun integredig sengl ardal) os bernir bod hynny'n briodol. Bydd hefyd yn sicrhau bod camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol yn y maes hwn yn cyd-fynd ag unrhyw gamau yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol yn fwy eang.
126. Cydnabyddir yn glir na all awdurdodau lleol gyflawni'r agenda cynhwysiant ariannol ar eu pen eu hunain, ac ni fwriedir i'r gofyniad yn y Bil iddynt fabwysiadu strategaeth fod yn ateb i bob problem a fydd yn mynd i'r afael â'r holl faterion sy'n ymwneud ag allgáu ariannol mewn ardal benodol. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud, fodd bynnag, yw cydnabod swyddogaeth ganolog awdurdodau lleol o ran cydlynu a chyflwyno gwahanol wasanaethau lleol amrywiol yn eu hardal. Mae'r Bil felly yn ei gwneud yn angenrheidiol rhoi iddynt swyddogaeth arweiniol a strategol o ran sicrhau bod rhai materion sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol a llythrennedd yn cael sylw wrth i awdurdodau lleol wneud y gwaith hwnnw.

*Y sefyllfa ar hyn o bryd*

127. O dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2000*, mae gan awdurdodau lleol rym cyffredinol i wneud unrhyw beth a allai hybu neu wella lles economaidd a chymdeithasol eu hardal. O dan eu dyletswyddau ym *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009*, mae'n ofynnol iddynt hefyd nodi, ar y cyd â phartneriaid, amcanion hirdymor ar gyfer gwella lles economaidd a lles cymdeithasol eu

hardal. Mae'r amcanion hyn yn eu tro yn ffurfio strategaeth gymunedol ardal awdurdod lleol. Ers mis Ebrill 2013, o ganlyniad i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>46</sup>, gall y strategaethau cymunedol hyn gael eu hymgorffori'n rhan o gynllun integredig sengl ardal awdurdod lleol. Fel y'i cyflwynwyd, mae'r *Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* yn gwneud darpariaeth bellach a fydd yn rhoi sail statudol i'r broses o ffurfio cynlluniau llesiant lleol gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.

128. Er gwaethaf yr uchod, y tu hwnt i ddarpariaeth bresennol y cwricwlwm mewn ysgolion, nid oes dyletswydd statudol ar awdurdod lleol i wneud dim â'r bwriad penodol o hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol ymysg ei drigolion.

129. Mae'n amlwg fod Llywodraeth Cymru'n ystyried awdurdodau lleol yn bartneriaid allweddol ar gyfer cyflawni ei hagenda cynhwysiant ariannol. Roedd ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol (gweler paragraff 38 uchod) yn nodi yn 2009:

Gall awdurdodau lleol wneud cyfraniad pwysig at yr agenda cynhwysiant ariannol drwy eu cyswllt dyddiol ag unigolion sydd wedi eu hallgáu ac fel arianwyr a darparwyr gwasanaethau. Gallant hefyd ddarparu ffocws sy'n dwyn ynghyd yr holl fentrau cynhwysiant ariannol sydd eisoes yn bodoli yn eu rhanbarth a rhannu enghreifftiau o arfer gorau gydag awdurdodau lleol eraill a sefydliadau partneriaeth. Maent yn darparu'r momentwm i fwrw ymlaen â'r agenda cynhwysiant ariannol yn eu rhanbarth drwy annog datblygiad mentrau cynhwysiant ariannol newydd a phresennol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol eraill drwy fforymau lleol.<sup>47</sup>

130. Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru yn mynd ymlaen i dynnu sylw at rai o'r camau ymarferol y gall awdurdodau lleol eu cymryd i hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn well ymysg eu dinasyddion. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu eu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol eu hunain sy'n adlewyrchu anghenion eu hardaloedd a'u poblogaeth leol.

131. Fodd bynnag, mae strategaeth Llywodraeth Cymru'n dyfynnu arolwg yr Adran Gwaith a Phensiynau a oedd yn dangos nad oedd 52 y cant o'r awdurdodau lleol yn y DU a ymatebodd yn cynnal dim gweithgareddau cynhwysiant ariannol ar gyfer eu tenantiaid yn y sector cymdeithasol, boed yn uniongyrchol neu drwy sefydliad arall. O'r awdurdodau lleol yng Nghymru a ymatebodd, dim ond hanner a ddywedodd eu bod yn darparu unrhyw fath o gymorth cynhwysiant ariannol i denantiaid – a'r rhan fwyaf yn aml yn gyngor ynglŷn â chymhwystra i dderbyn budd-daliadau.

132. Er mwyn cefnogi Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru, sefydlwyd prosiect Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol. Mae hyn yn cael ei ddarparu gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'i nod yw dylanwadu ar y ffordd y mae sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Roedd yn dibynnu'n wreiddiol ar gyllid o'r tu allan i Gymru, ond cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2012 y byddai'n parhau i ariannu'r

prosiect Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol tan fis Mawrth 2015.<sup>48</sup>

133. Rhaid cydnabod bod rhai awdurdodau lleol eisoes yn cymryd camau sylweddol i fynd i'r afael â materion cynhwysiant ariannol yn eu hardaloedd. Er enghraifft, o'r ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd wrth baratoi ar gyfer y Bil hwn, roedd yn amlwg fod gan nifer o awdurdodau lleol gynlluniau, partneriaethau neu brosiectau ar waith sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr agenda hon.
134. Mae enghreifftiau nodedig yn hyn o beth yn cynnwys Dinas a Sir Abertawe, a sefydlodd Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol yn 2009. Rhwydwaith yw hwn o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector sy'n cyflawni cynllun gweithredu yn seiliedig ar Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru. Nod prosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd Sir Ddinbych a Chonwy, yn yr un modd, yw datblygu, cydlynu a hyrwyddo gwasanaethau cynhwysiant ariannol o fewn sefydliadau byrddau gwasanaethau lleol yn yr ardal, eto o dan bum thema Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru.
135. Yn ei Chynllun Gweithredu Cynhwysiant Ariannol ym mis Gorffennaf 2010<sup>49</sup>, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu gweithio drwy ei Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol i gynorthwyo datblygiad strategaethau cynhwysiant ariannol lleol. Dywedodd fod 12 o strategaethau o'r fath wedi eu paratoi hyd at fis Mawrth 2010 ond ni ddarparwyd manylion ynghylch pa sefydliadau a oedd wedi datblygu'r rhain, nac o ba sectorau yr oeddent yn dod.
136. Roedd tystiolaeth a ddarparwyd i Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol yn 2010 yn tynnu sylw at rywfaint o waith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol i hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Fodd bynnag, fel y gwelir isod, ceir hefyd achos cryf dros ddadlau bod yr angen i gynllunio'n strategol i fynd i'r afael â'r agenda hon fod yn ofyniad o dan y gyfraith.

*Yr achos dros ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaeth cynhwysiant ariannol*

137. Pan luniodd ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, mae'n amlwg fod gan Lywodraeth Cymru bryderon am y gwahanol ffyrdd yr oedd gwahanol awdurdodau lleol yn bwrw ymlaen â'r gwaith yn y maes hwn. Roedd y strategaeth yn nodi:

Mae gan awdurdodau lleol botensial i chwarae rhan fawr wrth hyrwyddo cynhwysiant ariannol yng Nghymru. Bydd gan y rhan fwyaf rai polisïau eisoes sy'n mynd i'r afael â'r gwahanol agweddau ar allgáu ariannol, fel cynorthwyo i ddatblygu undebau credyd lleol, gweithgarwch yn erbyn benthydwyr arian didrwydded a darparu cyngor ar ddyled a budd-daliadau lles. Fodd bynnag, mae darpariaeth y gwasanaethau hyn yn amrywio ledled Cymru ac mae'n anghyson, sy'n golygu bod rhai ardaloedd yn elwa mwy nag eraill.

138. Yn Adroddiad Blynyddol 2010 ar ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, dywedodd Llywodraeth Cymru eto fod awdurdodau lleol yn allweddol i gyflawni

ei hagenda cynhwysiant ariannol. Fodd bynnag, cyfaddefodd fod yr Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol wedi canfod ei bod yn cymryd llawer mwy o amser i ymgysylltu ag awdurdodau lleol na sefydliadau eraill, oherwydd eu cylch gwaith aml-ddimensiwn ac anhawster wrth gysylltu manteision ag amcanion adrannol.<sup>50</sup> Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

139. Roedd atodiad i Adroddiad Blynyddol 2010 yn cyfeirio at y gwaith a wnaed gan yr Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol, gyda thystiolaeth o grwpiau llywio cynhwysiant ariannol, cynlluniau gweithredu, rhwydweithiau, fforymau, grwpiau gorchwyl a gorffen a phartneriaethau yn cael eu sefydlu mewn llawer o awdurdodau. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod graddfa'r ymyrraeth gan yr awdurdod lleol yn amrywio o ardal i ardal, ac mae llawer o ardaloedd awdurdodau lleol nad oes cyfeiriad atynt o gwbl yn yr Adroddiad Blynyddol.

140. Fel y nodwyd eisoes ym mharagraff 45 uchod, cafodd Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru ei hun ei beirniadu, a dywedodd Prif Swyddog Gweithredol Grŵp Tai Cymunedol Cymru wrth Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad ym mis Hydref 2012:

Rwy'n credu ei bod wedi methu a bod diffyg uchelgais ynnddi, ac rwy'n credu bod yn rhaid i'r pwyllgor hwn, os yw am ddal y Llywodraeth i gyfrif, fod yn glir am y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n ddigonol a'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer newid gwirioneddol. Rydych yn debygol o wynebu tswnami o dlodi dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, gyda mwy o ddiwygiadau lles. Roedd pethau'n ddigon gwael yng Nghymru cyn y wasgfa gredyd. Rydym yn gwybod bod llawer iawn o allgáu ariannol yn bodoli yng Nghymru, gyda dros 200,000 o bobl yn benthyca gan fenthycwyr anghyfreithlon neu fenthycwyr carreg drws cyn y wasgfa gredyd. Mae llawer o siarad o lawer man, ond dim digon o weithredu.<sup>51</sup>

141. Gan fod Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru yn rhoi cymaint o bwyslais ar bwysigrwydd awdurdodau lleol yn yr agenda hon, rhaid holi a oes digon o gyfarwyddyd i bob awdurdod lleol gymryd camau strategol ar y mater hwn.

142. Yn 2010, tynnodd adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol ar Gynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol<sup>52</sup> sylw at y ffaith bod tystion i'w ymchwiliad wedi awgrymu mai awdurdodau lleol ddylai fod yn bennaf gyfrifol am gydlynu darpariaeth addysg ariannol yn eu hardaloedd. Nododd tystion fod yr angen i ddarparu ar gyfer anghenion gwahanol gymunedau'n golygu ei bod yn gwneud synnwyr i lywodraeth leol yn hytrach na llywodraeth ganolog gydlynu gweithgarwch cynhwysiant ariannol.

143. Mae'r hyn a gyflwynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor yn pwysleisio yn yr un modd fuddion clir cefnogi gwaith cynhwysiant ariannol i awdurdod lleol,<sup>53</sup> gan fod unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ariannol yn fwy tebygol o fod yn ddi-gartref neu o fod ag angen gwasanaethau cefnogi neu ofal.

144. Er gwaethaf hyn, cyfeiriodd tystion i'r ymchwiliad at ddiffyg cydlynu gwasanaethau cynhwysiant ariannol lleol; at y ffaith bod y camau y dylai awdurdodau lleol eu cymryd ar yr agenda hon yn aneglur o dan Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru; at yr angen dilynol am arweiniad a chyfeiriad mwy strategol; at ddibyniaeth ar ewylllys da a dwyn perswâd ar awdurdodau lleol i ddatblygu'r gwaith hwn; ac at y duedd i atodi cynhwysiant ariannol at feysydd eraill o weithgarwch.
145. Er ei fod yn croesawu'r ymdrechion a wnaed gan nifer sylweddol o awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol, roedd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn dweud yn y pen draw ei fod yn bryderus ynghylch tystiolaeth arall sy'n awgrymu nad yw awdurdodau lleol eraill wedi ymgysylltu â'r gwaith hwn.<sup>54</sup>
146. Er nad oedd yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol drwy statud gynhyrchu strategaethau cynhwysiant ariannol, roedd yr adroddiad yn datgan y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i ymgysylltu ag awdurdodau lleol i dynnu sylw at werth trawsbynciol mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol fel rhan o'u gwaith. Yn ei hymateb i'r adroddiad, dywedodd Llywodraeth Cymru:
- Er hyn, byddem yn hoffi gweld mwy o ymrwymiad strategol gan awdurdodau lleol a byddwn yn gweithio gyda'r Hyrwyddwyr i fynd ar drywydd hyn.<sup>55</sup>
147. Mae'n ansicr a yw'r ymrwymiad strategol hwnnw wedi ei wireddu ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Er enghraifft, dim ond naw o'r 22 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd wrth baratoi ar gyfer y Bil hwn, ac ni chafwyd dim ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae hyn yn awgrymu nad yw mynd i'r afael â materion cynhwysiant ariannol yn uniongyrchol yn uchel ar restr pob awdurdod lleol o flaenoriaethau strategol.
148. Ar ben hynny, wrth baratoi ar gyfer y Bil, cysylltwyd â phob un o'r 22 awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth ynghylch a oedd ganddynt strategaeth cynhwysiant ariannol a beth oedd ei chostau. Dim ond 11 o awdurdodau lleol a ymatebodd, a dim ond un o'r rhain a ddywedodd ei fod yn datblygu strategaeth cynhwysiant ariannol. Dywedodd pedwar o'r awdurdodau eu bod yn cynnal gweithgarwch cynhwysiant ariannol drwy strategaethau eraill, ac ni ddarparodd chwech ohonynt ddim gwybodaeth am hyn.
149. Dylid nodi hefyd fod yr amgylchiadau wedi newid yn sylweddol ers i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant lunio ei adroddiad yn 2010. Mae diwygio lles, y cynigion ar gyfer Credyd Cynhwysol a thwf benthycwyr diwrnod cyflog i gyd wedi cyfrannu at newidiadau yn y tirlun ariannol y mae pobl yn byw ynddo. Mae hyn wedi dwysáu'r angen i bobl fod yn fwy llythrennog yn ariannol. Dywedodd Shelter Cymru wrth Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad ym mis Hydref 2012:

Mae materion yn ymwneud â chynhwysiant ariannol ac addysg ariannol bob amser wedi bod yn bwysig, ond ... mae'r amgylchedd economaidd presennol a newidiadau i fudd-daliadau lles wedi gwneud y materion hynny hyd yn oed yn fwy pwysig ... Maent wedi creu haenau newydd o gymhlethdod a newid a fydd yn herio llawer o bobl o ran deall goblygiadau'r newidiadau hynny a cheisio rywsut ymdrin â'r gostyngiadau mewn incwm o ganlyniad i hynny y byddant yn eu hwynebu. Felly, y mae bellach hyd yn oed yn fwy pwysig fod pobl yn deall beth sydd ar gael a sut y gallant lywio drwy'r cyfnod anodd iawn hwn.<sup>56</sup>

150. Yn y cyd-destun uchod, siaradodd Shelter Cymru am yr angen i ymgorffori nid yn unig addysg a gwybodaeth ariannol, ond amrywiaeth o bethau eraill, yn y diwylliant cyflenwi gwasanaethau yng Nghymru.<sup>57</sup>

151. Yn ei thystiolaeth ei hun i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn 2012, cyfeiriodd Canolfan Cydweithredol Cymru at newidiadau yn y gorffennol ac yn y dyfodol yn y tirlun ariannol sy'n golygu nad yw sefydliadau'n gallu cymryd ymagwedd ysgafn tuag at yr agenda cynhwysiant ariannol.<sup>58</sup>

152. Gellid dadlau bod swyddogaeth awdurdodau lleol o ran helpu dinasyddion â materion cynhwysiant ariannol – swyddogaeth a amlygwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol eu hun – bellach yn fwy allweddol nag erioed. Am y rheswm hwnnw y mae'r Bil hwn yn ceisio ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i bob awdurdod lleol i gynhyrchu strategaeth sy'n amlinellu sut y bydd yn cynorthwyo ei ddinasyddion yn hyn o beth.

*Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham*

153. Mae Adran 8(1) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol. Pwrpas cyffredinol hyn yw sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru gynllun strategol sy'n amlinellu pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i hyrwyddo cynhwysiant ariannol a llythrennedd ei drigolion.

154. Yn yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd wrth baratoi ar gyfer y Bil hwn, roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig hwn. Er enghraifft, dywedodd Canolfan Cydweithredol Cymru fod angen cymorth ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol mewn ffordd strategol ac i integreiddio cynhwysiant ariannol wrth ddarparu gwasanaethau. Nododd Grŵp Tai Cymunedol Cymru hefyd fod cymdeithasau tai yn y gorffennol yn cyflawni eu hagenda cynhwysiant ariannol, ond yn datblygu strategaethau ffurfiol i adolygu dulliau mewnol a ffurfioli'r trefniadau gyda'r sector gwirfoddol a phartneriaid eraill. Awgrymwyd bod hyn yn helpu i ddarparu mwy o eglurder wrth gyflwyno rhaglen cynhwysiant ariannol effeithiol – rhywbeth a allai hefyd fod yn wir am waith awdurdodau lleol yn y maes hwn, os yw'r gwaith hwnnw'n seiliedig ar strategaeth ffurfiol.

155. Mae Adran 8(3) o'r Bil yn datgan ei bod yn ofynnol adolygu strategaeth awdurdod lleol bob pum mlynedd. Diben y gofyniad hwn yw sicrhau y gall pob



strategaeth o'r fath ystyried amgylchiadau a datblygiadau sydd wedi newid yn y tirlun ariannol y mae pobl yn byw ynddo.

156. Ac ystyried yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori a oedd yn amlygu pwysigrwydd y cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â gwaith cynhwysiant ariannol, mae adran 8(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phersonau priodol, gan gynnwys y trydydd sector, cyn cynhyrchu eu strategaethau. Bydd hyn yn sicrhau y bydd cyrff lleol sy'n gweithio yn y maes hwn yn gallu cyfrannu i'r hyn y dylai'r strategaeth ei gynnwys.
157. Mae Adran 9 y Bil yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i strategaeth cynhwysiant ariannol pob awdurdod lleol ei gynnwys. Mae'r ymagwedd yn adran 9 yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng gwneud yn siŵr bod gan bob awdurdod lleol gynllun strategol ar waith er mwyn mynd i'r afael â materion penodol sy'n ymwneud â chynhwysiant a llythrennedd ariannol, gan ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd fel y gall pob strategaeth ymateb yn ddigonol i amgylchiadau lleol.
158. Mae'r dull hwn wedi ei seilio ar rai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd wrth baratoi ar gyfer y Bil hwn. Er enghraifft, dywedodd Canolfan Cydweithredol Cymru yn ei hymateb, wrth weithio gydag awdurdodau lleol drwy ei phrosiect Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol, nad oedd wedi pennu un dull gan ei bod yn well gweithio gyda'r ddeinameg leol i sicrhau cynaliadwyedd. Dywedodd yr elusen Money Charity yn yr un modd y dylai fod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i deilwra eu strategaethau i amgylchiadau penodol.
159. Daeth sylwadau i law yn ystod yr ymarfer ymgynghori a oedd yn argymhell sefydlu Safonau Cynhwysiant Ariannol Corfforaethol i Gymru. Er bod rhinweddau amlwg i'r opsiwn hwn, ailadroddodd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod angen hyblygrwydd ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag allgáu ariannol yn eu hardaloedd yn ôl yr angen lleol.
160. Felly, prif bwrpas y darpariaethau yn adran 9(1) y Bil yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn nodi sut y byddant yn hyrwyddo cynhwysiant ariannol y trigolion ac yn annog unigolion i ennill sgiliau mewn llythrennedd ariannol. Bydd yr union ffordd y byddant yn gwneud hyn yn benderfyniad i'r awdurdodau eu hunain, ond y bwriad yw y bydd y gofyniad i gynhyrchu strategaeth yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud â phwyslais a phwrpas, ochr yn ochr â chamau gweithredu sydd wedi eu nodi'n glir.
161. Mae adran 9(1)(b) yn datgan y dylai hyn gynnwys helpu dinasyddion i ddeall goblygiadau ac effeithiau masnachu ar y stryd a galwadau diwahoddiad, er mwyn sicrhau er enghraifft fod awdurdodau yn cymryd camau i atal dinasyddion rhag cael eu targedu gan sgamiau, cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog a

benthycwyr anghyfreithlon.

162. Yn wir, y bwriad gwreiddiol oedd i'r Bil ddeddfu â'r nod o wahardd yr arfer o alw'n ddiwahoddiad mewn rhai rhannau o Gymru. Gallai hyn fod y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, ac felly nid yw hyn wedi ei gynnwys ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, gall awdurdodau lleol gymryd camau i atal galw diwahoddiad yn eu hardaloedd, fel y dangoswyd yn arweiniad y Swyddfa Masnachu Teg ar gyfreithlondeb sefydlu Parthau Dim Galw Diwahoddiad<sup>59</sup> a thrwy arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru tuag at hyn.<sup>60</sup> Yn hynny o beth, gallai strategaeth cynhwysiant ariannol pob awdurdod lleol amlinellu pa gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd o ran atal galw diwahoddiad (yn arbennig drwy sefydlu Parthau Dim Galw Diwahoddiad) a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y mater yn ei ardal.
163. Yn yr un modd, rhagwelwyd i ddechrau y byddai'r Bil yn galluogi awdurdodau lleol i gymryd camau i fynd i'r afael â materion megis y cynnydd yn nifer y siopau betio ar rai strydoedd mawr. O ystyried y materion sy'n ymwneud â chymhwysedd, mae gofyniad yn hytrach yn adran 9(1)(b) i awdurdodau lleol nodi yn eu strategaethau cynhwysiant ariannol sut y byddant yn annog pobl i ddeall yr effaith andwylol y gall gamblo ei chael ar eu hamgylchiadau ariannol.
164. Mae'r ddarpariaeth yn adran 9(1)(c) yn ymwneud â nodi yn strategaethau cynhwysiant ariannol awdurdodau lleol sut y maent yn bwriadu annog unigolion i ennill sgiliau priodol mewn rheoli ariannol, gan gynnwys dealltwriaeth o wasanaethau undebau credyd. Gallai'r camau gweithredu y gallai awdurdod lleol eu cymryd ynglŷn a hyn gynnwys camau i hyrwyddo undebau credyd i ddinasyddion ac ymgysylltu ag undebau credyd.
165. Mae adran 9(1)(d) yn nodi y dylai strategaeth cynhwysiant ariannol amlinellu hefyd sut y mae awdurdod lleol yn bwriadu hwyluso mynediad am ddim i addysg ariannol a gwasanaethau rheoli ariannol ar-lein (p'un ai drwy lyfrgelloedd neu fel arall). Diben y ddarpariaeth hon yw sicrhau bod mynediad am ddim i'r rhyngwrwyd ar gael i'r holl drigolion mewn ardal awdurdod lleol pe bai angen, yn enwedig gan y bydd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn ei gwneud yn ofynnol i hawlwrwyr gael mynediad ar-lein.
166. Nodwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori fod hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn gofyn am gydweithio rhwng sefydliadau, oherwydd y themâu trawsbynciol y mae'n eu cynnwys. Awgrymodd Grŵp Tai Cymunedol Cymru y byddai mabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol gydlynol yn helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r diffyg cysylltiad ar hyn o bryd rhwng mentrau gwrth-dlodi ehangach a'r agenda cynhwysiant ariannol. Dywedodd y byddai hyn yn arwain at fwy o wasanaethau cydgysylltiedig ac at waith partneriaeth gwell rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

167. Roedd hyn yn adlewyrchu'r sylwadau a oedd yn pwysleisio bod gwaith awdurdodau lleol yn yr agenda cynhwysiant ariannol yn dibynnu ar eu hymgysylltiad â gwasanaethau cyngor a chymorth allanol a phartneriaid strategol. Dywedwyd felly fod y cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau allanol o'r fath yn allweddol er mwyn i unrhyw strategaeth cynhwysiant ariannol fod yn effeithiol.
168. Ac ystyried y sylwadau hyn, mae adran 9(1)(e) o'r Bil yn datgan bod yn rhaid i bob strategaeth cynhwysiant ariannol nodi sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cydweithio â sefydliadau eraill yn ei ardal sy'n hyrwyddo cynhwysiant ariannol.
169. Yn olaf, o ran adran 9 o'r Bil, mae darpariaethau yn adrannau 9(2) a 9(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio drwy orchymyn yr hyn y dylai strategaeth cynhwysiant ariannol pob awdurdod lleol ei gynnwys. Diben y darpariaethau hyn yw rhoi hyblygrwydd pe bai newid yn y tirlun ariannol yn y blynyddoedd i ddod, a phe bai angen adlewyrchu hyn yn y gwaith y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud yn y maes hwn.
170. Yn y cyd-destun hwn, wrth gynhyrchu eu strategaethau cynhwysiant ariannol, dylid annog awdurdodau lleol hefyd i rannu arfer da a chymryd cyfarwyddyd o ffynonellau megis Strategaeth Cynhwysiant Ariannol cyfredol Llywodraeth Cymru. Mae'n amlinellu nifer o gamau ymarferol y gall awdurdodau lleol eu cymryd i wella eu gwaith cynhwysiant ariannol<sup>61</sup>, a gellir ei defnyddio fel canllaw pan fydd y strategaethau cyntaf yn cael eu llunio.
171. Yn ôl yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad, os yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi strategaeth cynhwysiant ariannol, dylai fod rhyw fath o ddull o adrodd a goruchwyllo er mwyn gallu olrhain cynnydd ystyrllon ac er mwyn gallu sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno'r strategaeth yn atebol amdani. Roedd rhai ymatebwyr yn rhybuddio rhag cynyddu'r baich biwrocraidd ar awdurdodau lleol yn hyn o beth. Er nad bwriad y Bil yw gosod dyletswyddau diangen ar awdurdodau lleol, heb ryw fath o ddull o adrodd byddai perygl y gallai strategaeth cynhwysiant ariannol awdurdod barhau i fod heb ei gweithredu, a'r canlyniadau heb eu holrhain.
172. Felly, wrth ddatblygu'r Bil, rhoddwyd ystyriaeth i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Pan fydd awdurdod lleol wedi mabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol, mae adran 8(4) yn cynnwys gofyniad i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad ym mhob blwyddyn ariannol yn nodi sut y gweithredodd ei strategaeth cynhwysiant ariannol yn y flwyddyn flaenorol.
173. Dylai'r adroddiad hwn amlinellu, yn erbyn pob un o'r meincnodau a nodir yn adran 9(1), yr hyn y mae'r awdurdod lleol wedi ei wneud yn y flwyddyn flaenorol i gyflawni'r camau hynny a beth fu'r canlyniadau. Gall yr adroddiad gynnwys cyfeiriadau at unrhyw waith ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r agenda hon y mae

awdurdod wedi ei wneud hefyd.

174. Nod yr ymagwedd hon yw ei gwneud yn glir mai diben pob strategaeth cynhwysiant ariannol yw esgor ar ganlyniadau, yn hytrach na dim ond rhestru'r problemau y mae'r strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â hwy. Dylai'r canlyniadau hyn gael eu nodi ym mhob adroddiad blynyddol, ac mae'r Bil felly yn ddull o graffu'n statudol ar ôl deddfu ar waith cynhwysiant ariannol yr awdurdod bob blwyddyn.
175. Mae'r darpariaethau sy'n weddill sy'n ymwneud â strategaethau cynhwysiant ariannol wedi'u nodi yn adran 10 o'r Bil, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch strategaeth cynhwysiant ariannol pob awdurdod lleol. Gallai hyn o bosib gynnwys canllawiau ar eu cynnwys a'r ffordd y maent yn cael eu cynhyrchu a'u hadolygu a'r ffordd yr adroddir arnynt.
176. Bwriad y darpariaethau sy'n ymwneud â chanllawiau yn adran 10 oedd ystyried cyflwyniadau i'r ymarfer ymgynghori gan ymatebwyr sy'n gefnogol i'r egwyddor o'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol, ond a oedd yn credu nad cael dogfen annibynnol benodol oedd y ffordd orau o wneud hyn. Yn hytrach, awgrymwyd bod angen i waith yn y maes hwn gael ei ymgorffori fel rhan o flaenoriaethau strategol ehangach awdurdod lleol, o bosibl o dan gynllun integredig sengl pob ardal awdurdod lleol.
177. O ganlyniad, mae'r grym wedi ei gynnwys yn adran 10 o'r Bil sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau ar y ffordd y gall awdurdodau lleol fodloni'r ddyletswydd i lunio eu strategaethau cynhwysiant ariannol. Er enghraifft, gallai hyn mewn egwyddor alluogi awdurdodau lleol i fodloni'r ddyletswydd yn y Bil yn yr un modd ag y gellid bodloni'r ddyletswydd i gynhyrchu strategaethau neu gynlluniau tebyg mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth ar hyn o bryd o dan y canllawiau *Cydamcanu-Cydymdrechu*.<sup>62</sup> Os bernir mai dyna sydd fwyaf priodol, bydd y ddarpariaeth hon hefyd yn galluogi i ganllawiau gael eu cyhoeddi ynglŷn â natur y trefniadau adrodd yn ogystal.
178. Bydd y ddarpariaeth hon yn adran 10 yn galluogi cysylltiadau i gael eu gwneud, os yw'n briodol, ag unrhyw gamau yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru ei hun i hyrwyddo cynhwysiant ariannol.
179. Fel y dywedodd y Brifysgol Agored yn ei hymateb i'r ymarfer ymgynghori, ni ddylai'r adnoddau ar gyfer y gwaith o ddarparu strategaethau cynhwysiant ariannol gan awdurdodau lleol fod yn rhy feichus gan fod asiantaethau a sefydliadau eraill a fyddai'n gallu ei gynorthwyo yn hyn o beth. Prif ddiben y strategaeth fyddai sicrhau bod y gwaith yn y maes hwn yn cael ei gydlynu ar lefel strategol o ran y gwaith y mae awdurdod lleol yn ei wneud.

180. Ar ben hynny, mae rhai awdurdodau eisoes yn cymryd camau sylweddol i hybu cynhwysiant ariannol. Dylai'r ymagwedd a gymerir yn y Bil hwn sicrhau bod yr awdurdodau hynny sydd eisoes yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â materion cynhwysiant ariannol (boed hynny drwy strategaeth ffurfiol neu beidio) yn gallu bodloni'r ddyletswydd statudol heb iddi fod yn faich rhy fiwrocraidd. Ar y llaw arall, bydd y Bil yn sicrhau y bydd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol hynny nad ydynt yn rhoi digon o bwyslais strategol ar y maes gwaith hwn ymdrin â hyn.

### **Cynigion y Bil mewn perthynas â chyngor am reolaeth ariannol (adrannau 11 i 13 o'r Bil)**

181. Yn debyg i adran 7, mae adran 11 o'r Bil yn adlewyrchu swyddogaeth awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol ar blant sy'n derbyn gofal. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod pobl ifanc a arferai dderbyn gofal yn derbyn cyngor priodol am wasanaethau ariannol a rheolaeth ariannol.

182. O dan adran 103 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, mae dyletswydd ar awdurdod lleol i gyfeillio, cynghori a chynorthwyo person a arferai dderbyn gofal, â'r bwriad o hyrwyddo eu lles. Mae Adran 11 o'r Bil hwn yn ymestyn hyn i bob pwrpas i gynnwys darparu cyngor am faterion ariannol, er mwyn gwella gallu ariannol y person. Ymhen amser, bydd hyn yn adeiladu ar yr addysg ariannol y maent eisoes wedi'i derbyn yn rhan o'u taith drwy'r ysgol, gyda'r diogelwch ychwanegol a ddarperir gan adran 7, ac yn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau ariannol a hwythau'n oedolion. Yn y tymor-byr, pan nad yw plant a arferai dderbyn gofal wedi derbyn addysg ariannol yn yr ysgol, gellid dadlau bod rhoi cyngor a chefnogaeth iddynt hyd yn oed yn fwy pwysig.

183. Mae targedu cymorth yn benodol at blant a arferai dderbyn gofal yn cydnabod eu bod yn gallu bod yn arbennig o agored i fynd i drafferthion ariannol.<sup>i</sup> Mae hefyd yn unol â swyddogaeth a dyletswyddau penodol awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol. Wrth gwrs, byddai'n dda o beth gallu cyrraedd grwpiau eraill sy'n agored i niwed, sydd hefyd mewn perygl o ddioddef problemau dyled ac arian, ond dylai'r Bil gadw ei bwyslais clir ar y meysydd mwyaf perthnasol i awdurdodau lleol.

184. Mae'r Bil yn diffinio'r rhai hynny y byddai gan awdurdodau lleol ddyletswyddau o'r fath tuag atynt fel pobl ifanc o categorïau 1, 2 neu 3, fel y'u diffinnir yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Esbonnir y rhain yn y tri pharagraff canlynol.

185. Mae person ifanc categori 1 yn blentyn neu'n berson ifanc 16 neu 17 oed, sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol (yng Nghymru neu yn Lloegr) am gyfnod a bennir yn y rheoliadau a

---

<sup>i</sup> Am fwy o drafodaeth ar y mater hwn, gweler Llais Defnyddwyr Cymru, *O Ofal i Ofid: sut mae pobl ifanc yn ymdopi'n ariannol ar ôl gofal*, Mawrth 2011

ddechreuodd ar ôl iddo ef neu hi gyrraedd oedran a bennir yn y rheoliadau ac a ddaeth i ben ar ôl i'r plentyn gyrraedd 16 oed.

186. Mae person ifanc categori 2 yn blentyn neu'n berson ifanc nad yw bellach yn derbyn gofal gan awdurdod lleol (yng Nghymru neu yn Lloegr), ond a arferai fod yn blentyn categori 1 ac sy'n 16 neu 17 oed.
187. Mae person ifanc categori 3 yn berson ifanc sy'n 18 oed neu'n hŷn a arferai fod yn berson categori 2 ac a fyddai'n dal i fod felly pe byddai o dan 18 oed; neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol pan gyrhaeddodd 18 oed, ac a oedd, yn union cyn gadael gofal, yn berson ifanc categori 1.
188. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu i gyngor 'priodol' gael ei ddarparu ac iddynt farnu lefel angenrheidiol yr ymyrraeth gyda phobl ifanc a arferai dderbyn gofal. Mewn llawer o achosion, gall hyn olygu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth untro ar adeg briodol. Fodd bynnag, mewn achosion eraill gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r swyddogaeth y mae'r adran hon o'r Bil yn ei rhoi iddynt i wneud ymyriadau dyfnach.
189. Mae Adran 12 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth ar eu gwefannau ynghylch ble y gall dinasyddion gael cyngor am reolaeth ariannol. Rhaid darparu'r wybodaeth honno hefyd ar gais, a gallant ei darparu os ydynt yn credu nad yw'r cyngor ar gael yn rhesymol fel arall.
190. Yn ymarferol, mae'r ddarpariaeth hon yn estyn y camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd o dan ei ddyletswyddau o dan adrannau 8 a 9 i gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol, ac i annog unigolion i ennill sgiliau mewn llythrennedd a rheolaeth ariannol. Wrth fodloni'r ddyletswydd hon, ac yn arbennig y dyletswyddau yn adrannau 8(2) a 9(1)(e) i ymgynghori ac i weithio gyda sefydliadau eraill, rhagwelir y bydd awdurdodau lleol eisoes wedi nodi sefydliadau cyngor a chymorth lleol sy'n gweithio ym maes cynhwysiant ariannol. Dylai cyfeirio unigolion at y sefydliadau hynny fod yn gam cymharol syml ond effeithiol y gallant ei gymryd.
191. Mae mwy o gyfiawnhad dros y ddarpariaeth yn adran 12 i'w gweld yn y sylwadau a wnaed gan Shelter Cymru wrth Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad ym mis Hydref 2012<sup>63</sup>. Fel y dywedodd Shelter Cymru ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau cyngor cynhwysiant ariannol:
- Mae toreth o wasanaethau, neu hyd yn oed dim ond pobl weithiau, sy'n darparu'r math hwnnw o wybodaeth a chynghor, ac, fel y gwyddom oll, mae cyngor gwael yn waeth na dim cyngor o gwbl mewn rhai amgylchiadau. Yn aml mae'n rhaid i'n gwasanaeth ni godi'r darnau a delio ag ôl-ffeithiau cyngor gwael pobl eraill pan fyddwn yn delio â phobl sydd wedi mynd i sefyllfaoedd o argyfwng.
192. Bydd darparu swyddogaeth cyfeirio penodol i awdurdodau lleol o ran cyngor o'r fath yn sicrhau y gall dinasyddion fod yn hyderus bod y cyngor y maent yn ei

gael o ansawdd da.

193. Mae Adran 13 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn eu hardal yn darparu gwybodaeth am reolaeth ariannol i fyfyrwyr. Mae hyn yn rhan bwysig o'r Bil gan mai dyma'r oedran yn aml pan fydd pobl ifanc yn dod yn gyfrifol am eu harian eu hunain am y tro cyntaf a bod angen iddynt ddefnyddio eu sgiliau 'byw'n annibynnol'.
194. Amlygwyd yr angen am y rhan hon o'r Bil gan ystadegau yn adroddiad y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ym mis Tachwedd 2013 ar ddyled<sup>64</sup>. Roedd yn dangos bod miliwn o fyfyrwyr â gorddyled yn y DU, ond er gwaethaf hyn, nid oeddent at ei gilydd yn cydnabod unrhyw angen i ymgysylltu â chyngor ar ddyledion. Roedd yr adroddiad yn dangos bod bron i dri chwarter y grŵp hwn ar ei hôl hi ag ymrwymadau credyd, ond nid oedd 78 y cant o'r myfyrwyr â gorddyled yn cael cyngor ar y pryd nac yn ystyried gwneud hynny yn y dyfodol agos.
195. I ddechrau, y dyhead oedd cyflwyno trefniadau mwy pellgyrhaeddol ar gyfer darparu cymorth a chyngor ar lythrennedd ariannol mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch. Fodd bynnag, mae'r Bil wedi ceisio aros yn gyson â chyfeiriad Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth ddiweddar yn y maes hwn. Mae *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014* yn llacio rheolaeth gan Weinidogion dros sefydliadau addysg bellach er mwyn sicrhau y gellir ailddosbarthu'r sector at ddibenion cyfrifyddu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol o fod yn sefydliadau llywodraeth i fod yn sefydliadau dielw sy'n gwasanaethu aelwydydd (NPISH). O ganlyniad, nid yw'r Bil yn ceisio ymyrryd yng ngweithrediadau uniongyrchol sefydliadau o'r fath ac nid yw'n rhoi gofynion newydd arnynt.
196. Fodd bynnag, mae gan brifysgolion a cholegau, wrth gwrs, rwymedigaethau gofal a lles i'w myfyrwyr ac, mewn llawer o achosion, maent eisoes yn darparu gwasanaethau â'r nod o wella llythrennedd ariannol myfyrwyr. Mae arian myfyrwyr yn aml yn brin ac maent yn wynebu dewisiadau anodd ynghylch cyllidebu a thrin arian. Gellid dadlau er enghraifft fod pobl ifanc sy'n byw oddi cartref am y tro cyntaf yn arbennig o agored ac y byddent yn elwa o gael cyngor a chymorth.
197. Wrth baratoi'r Bil hwn, felly, mae cymhelliant cryf i gynnwys rhywfaint o ddarpariaeth a dulliau diogelu a fydd yn cyrraedd myfyrwyr. Byddem yn colli cyfle pe bai'r Bil yn sicrhau darpariaeth addysg ariannol i blant a phobl ifanc o 7 oed ymlaen, ond yna'n methu â gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer oedolion ifanc sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol er mai dyma'r adeg pan fydd defnyddio llythrennedd a gallu ariannol mewn bywyd go iawn yn hollbwysig.

198. Mae rhoi cyfrifoldeb i awdurdodau lleol i weithio gyda'u partneriaid addysg bellach ac addysg uwch yn ategu eu swyddogaeth ehangach o ran hyrwyddo cynhwysiant ariannol, y darperir ar ei chyfer mewn adrannau eraill o'r Bil. Mae poblogaeth fwy llythrennog yn ariannol yn boblogaeth iachach ym mhob ystyr, a bydd y ffaith bod myfyrwyr yn gwneud penderfyniadau ariannol cyfrifol ac effeithiol yn eu hardaloedd, ac o ganlyniad lles y myfyrwyr hynny, yn cyfrannu at gyflawni hyn.
199. Er nad yw wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil, rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio cyfleoedd megis y rhai a ddaw wrth iddynt asesu a yw pobl sy'n gwneud cais am leoedd addysg uwch yn gymwys i dderbyn cymorth i fyfyrwyr, i gynnig gwybodaeth, arweiniad a chyfeirio at gyngor am faterion ariannol. Mae maint y ddyled, yn amodol ar y gallu i'w ad-dalu yn y dyfodol, y mae myfyrwyr yn ei hysgwyddo i ariannu ffioedd dysgu prifysgolion yn gwneud hyn hyd yn oed yn fwy perthnasol. Byddai cyngor ar wneud penderfyniadau ariannol yn amserol i bobl ifanc sy'n gwneud cais i brifysgol, yn ystyried sut y byddant yn ariannu eu hastudiaethau, ac yn edrych i'r dyfodol yn gyffredinol at gyfnod newydd yn eu bywydau, yn aml i ffwrdd o gartref eu rhieni ac yn profi llawer iawn mwy o annibyniaeth ariannol. Mae hyn yn rhywbeth y gallai awdurdodau lleol benderfynu ei fod yn briodol o dan eu strategaethau cynhwysiant ariannol.

#### **Darpariaethau cychwyn (adran 14 o'r Bil)**

200. Ni fyddai'n briodol i'r Bil ddod i rym yn union ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, oherwydd byddai cyfnod rhagarweiniol yn fuddiol er mwyn i awdurdodau lleol ac ysgolion baratoi ar gyfer y newidiadau y mae'r Bil yn eu cyflwyno. Yn ogystal, bydd angen i rai darpariaethau ddod i rym yn hwyrach nag eraill. Er enghraifft, ni fyddai'n gwneud synnwyr rhesymegol ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiadau ar gynnydd cyn i'r addysg ariannol gael rhywfaint o amser i ymsefydlu. Felly, bydd angen i'r gofyniad i gyflwyno adroddiadau blynyddol yn adran 6 ddod i rym beth amser ar ôl y darpariaethau yn adrannau 4 a 5.
201. Mae'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil yn fodlon gadael cychwyn y Bil i Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau hyblygrwydd a chysondeb â pholisïau a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.
202. Fodd bynnag, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth benodol (adran 14(3)) sy'n golygu y bydd unrhyw rannau o'r Bil sy'n parhau i fod heb eu cychwyn ar 1 Ionawr, 2018 yn dod i rym yn awtomatig ar y dyddiad hwnnw. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i Weinidogion Cymru i weithredu'r Bil, ond bydd yn ddull diogelu i sicrhau bod y Bil yn dod i rym maes o law.



## 4. Ymgynghori

203. Mae cryn dipyn o ymgynghori wedi ei wneud gan Bethan Jenkins cyn cyflwyno'r Bil hwn. Mae hyn yn cynnwys gwaith gan Dîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol a phapur ymgynghori ffurfiol. Mae sylfaen dystiolaeth gref o gefnogaeth ac angen am y Bil hwn felly. Mae'r adborth a gafwyd hefyd wedi llywio a dylanwadu ar ei gynnwys ac mae sawl agwedd benodol wedi eu derbyn.

### Arolygon haf 2013

204. Yn ystod haf 2013, cynhaliodd Tîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol ymchwil ar y cynigion gwybodaeth cyn pleidleisio. Roedd hyn ar ôl llwyddiant Bethan Jenkins yn y bleidlais ym mis Gorffennaf 2013 ac roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ei chynlluniau ar gyfer y ddeddfwriaeth, fel a nodwyd yn gyffredinol yn y cyfnod cyn y bleidlais. Cynhaliwyd dau arolwg, un ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ac un ymhlith disgyblion oedran ysgol uwchradd.

205. Roedd ymatebion y cyhoedd yn gyffredinol yn dangos cefnogaeth gref i'r ddeddfwriaeth newydd i wella addysg a chynhwysiant ariannol yng Nghymru:

- O'r 279 o ymatebwyr, roedd 97 y cant o'r farn bod y cynigion yn syniad da neu ardderchog;
- Pan ofynnwyd am syniadau ychwanegol, roedd y rhan fwyaf am i bob agwedd ar addysg ariannol gael ei hymgorffori yn y cwricwlwm;
- Pan ofynnwyd sut y dylid hyrwyddo arferion ariannol da, yr ateb mwyaf blaenllaw oedd 'hyrwyddo trwy ysgolion / prifysgolion / addysg oedolion', gyda 131 o ymatebwyr yn cytuno â hyn.

206. Roedd yr adborth gan y bobl ifanc eu hunain hefyd yn dangos yr angen am fwy o sylw i faterion ariannol mewn ysgolion:

- O'r 195 o ymatebwyr oedran ysgol uwchradd, teimlai 77 y cant nad oedd ganddynt ddigon o addysg i reoli eu harian yn effeithiol;
- Pan ofynnwyd a oedd ganddynt ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth o'r system ariannol i reoli eu harian yn synhwyrol ac yn effeithiol, dywedodd 67 y cant nad oedd ganddynt;
- Dywedodd 63 y cant eu bod yn deall y costau y byddant yn eu hwynebu yn y dyfodol ac y byddant yn rhoi pwysau ar gyllidebu misol;
- Pan ofynnwyd am y ffordd orau o ddysgu dulliau rheoli arian yn effeithiol a hyrwyddo arferion ariannol cyfrifol, yr ateb mwyaf blaenllaw oedd 'cael gwersi yn yr ysgol gyda siaradwyr gwadd o'r diwydiant ariannol'.

## Arolygon gwanwyn 2014

207. Gwnaethpwyd mwy o waith ymgysylltu â mwy o fanylion am y cynigion a ragwelir ar gyfer y Bil gan Dîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth a mis Ebrill 2014. Roedd hyn yn cyd-fynd â chyhoeddi dogfen ymgynghori ar gynnwys arfaethedig y Bil ac roedd cysylltiad agos rhwng cwestiynau'r arolwg a'r cynigion ar gyfer y ddeddfwriaeth. Mae canlyniadau'r ymarfer hwn hefyd yn dangos bod cefnogaeth gref i gynnwys addysg ariannol yn y cwricwlwm statudol a mwy o gyfranogiad i awdurdodau lleol o ran hyrwyddo cynhwysiant ariannol.

208. Fel yn ystod haf 2013, cynhaliwyd dau arolwg. Nod un o'r rhain oedd ymgysylltu â phobl ifanc o oedran ysgol uwchradd, a chasglwyd 226 o ymatebion, ac roedd yr ail ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol, a chafwyd 228 o ymatebion.

209. Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi o'r 226 o ymatebion gan bobl ifanc:

- Roedd 65 y cant yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei chyflwyno yn yr ysgol;
- Dywedodd 67 y cant eu bod yn awyddus i ddysgu mwy am bynciau fel treth, benthyciadau ac osgoi dyledion;
- Teimlai 71 y cant y byddai derbyn addysg ariannol yn yr ysgol yn eu paratoi yn well ar gyfer gwneud penderfyniadau ariannol da pan fyddant yn hŷn;
- Nid oedd 61 y cant o'r bobl ifanc yn cytuno y dylai addysg ariannol gael ei dysgu yn yr ysgol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen<sup>ii</sup>;
- Credai 84 y cant y dylai fod mynediad i'r rhyngrwyd yn rhad ac am ddim mewn llyfrgelloedd;
- Credai 78 y cant y dylai awdurdodau lleol fod â mwy o ran wrth helpu pobl i reoli eu harian yn gyfrifol a hyrwyddo cynhwysiant ariannol.

210. Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi o'r 228 ymateb a dderbyniwyd gan y cyhoedd yn gyffredinol:

- Roedd 93 y cant yn cytuno y dylai deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i addysg ariannol gael ei darparu o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen;

---

<sup>ii</sup> Trafodir ym mharagraff 225 y ffaith fod y canlyniad hwn o bosibl yn groes i'r gefnogaeth gyffredinol a oedd i addysg ariannol yn yr un sampl. Gallai adlewyrchu'r farn bod plant 7 oed yn rhy ifanc i gael addysg ariannol yn hytrach na'r gwrthwynebiad cyffredinol iddi fod yn rhan o gwricwlwm yr ysgol.

- Credai 96 y cant y byddai cynnwys addysg ariannol yn y cwricwlwm yn paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer yr heriau a'r penderfyniadau y byddant yn eu hwynebu fel oedolion;
- Roedd 96 y cant yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid ac arbenigwyr perthnasol wrth ddatblygu cynnwys y cwricwlwm ar addysg ariannol;
- Roedd 63 y cant yn meddwl y dylai fod gan ysgolion hyblygrwydd yn y ffordd y maent yn cyflawni'r gofyniad i gyflwyno addysg ariannol, roedd 23 y cant yn anghytuno ac nid oedd gan 14 y cant farn ynglŷn â hyn;
- Roedd 89 y cant yn cefnogi'r syniad y dylai fod gan awdurdodau lleol strategaeth cynhwysiant ariannol;
- Roedd 94 y cant yn credu y dylai fod yn ofynnol i brifysgolion a sefydliadau addysg bellach roi cymorth i'w myfyrwyr sy'n eu hannog i reoli arian yn effeithiol.

### **Ymgysylltu a chyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Aelod sy'n Gyfrifol**

211. A hithau'r Aelod Cyfrifol am y Bil, mae Bethan Jenkins hefyd wedi cwrdd â nifer o sefydliadau a rhanddeiliaid neu wedi siarad â hwy i drafod ei chynigion, ac mae hynny wedi llywio a dylanwadu ar y gwaith o baratoi'r Bil. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Awdurdodau lleol
- Dyfodol Defnyddwyr
- NUT Cymru
- Gwasanaeth Cynghori Ariannol
- Hyrwyddwr Cynhwysiant Ariannol Cenedlaethol Cymru
- Awdurdodau safonau masnach
- Moneyline Cymru
- Undebau credyd
- Tai Cymunedol Cymru
- Age Cymru
- Gweithredu dros Blant
- Shelter Cymru
- Go Compare
- MyBnk
- Grŵp Addysg Ariannol Personol
- Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon
- Sgiliau Arian Barclays
- Colegau Cymru
- Principality

- Canolfannau Cyngor ar Bopeth
- Estyn
- Awdurdod Cymwysterau'r Alban
- Yr Athro Graham Donaldson
- The Money Charity
- MoneySavingExpert
- Agored Cymru
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru
- Cymdeithasau tai
- Athrawon
- Aelodau o'r cyhoedd

## Ymgynghori ffurfiol

212. Cyhoeddodd Bethan Jenkins bapur ymgynghori<sup>65</sup> ar 17 Mawrth 2014 ac mae'n destun cyfnod ymgynghori o chwe wythnos tan ddydd Llun 28 Ebrill. Daeth ymatebion<sup>66</sup> i law oddi wrth 27 o sefydliadau, yn eu plith amrywiaeth o randdeiliaid addysg, llywodraeth leol a chymunedol, gan gynnwys y canlynol:

- SNAP Cymru
- NUT Cymru
- Grŵp Tai Cymunedol Cymru
- Draig Ffyni
- Llamau
- The Money Charity
- UCAC
- Age Cymru
- Gweithredu dros Blant
- MyBnk
- Canolfan Cydweithredol Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Canolfannau Cyngor ar Bopeth
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Y Brifysgol Agored
- Cyngor Sir Ceredigion
- Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Ieuencid Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol
- Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
- Shelter Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir y Fflint
- Estyn
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Dinbych
- NIACE Dysgu Cymru

213. Roedd yr ymatebion yn gyffredinol yn cefnogi dyheadau ac amcanion y Bil arfaethedig, fel y nodir yn y cynnig yr ymgynghorwyd arno, ac roedd yn amlwg eu bod yn cytuno bod gallu ariannol yn fater hynod bwysig.
214. Dywedwyd bod y cynigion yn rhai a allai wneud gwahaniaeth sylweddol i allu ariannol pobl yng Nghymru. Nodwyd bod allgáu ariannol yn ganlyniad i anallu i ddefnyddio cynhyrchion ariannol priodol a gwneud dewisiadau doeth. Nodwyd yr effaith gronol bosibl y gallai ymyriadau gallu ariannol ei chael, ynghyd â'r ddatl y dylai caffael a datblygu gallu ariannol gael eu hystyried yn broses barhaus. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw sicrhau buddion i bobl drwy addysg ariannol yn yr ysgol a hefyd yn gyffredinol drwy ddyletswyddau cynhwysiant ariannol awdurdodau lleol.
215. Mae llawer o'r sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi eu cynnwys yn yr adran uchod sy'n nodi pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth. Mae rhai o'r sylwadau nodedig eraill a gyflwynwyd wedi eu crynhoi isod.

#### *Addysg ariannol*

216. Roedd y dadleuon o blaid cynnwys addysg ariannol yn y cwricwlwm statudol yn cynnwys pwysigrwydd dysgu sgiliau a chyfrifoldebau sydd eu hangen wrth fynd yn hŷn; buddion cyffredinol o ran llesiant a ddaw o ganlyniad i reoli arian yn effeithiol; ei swyddogaeth o ran torri cylch allgáu ariannol a helpu i osgoi neu leihau materion negyddol dyled ac ymddygiad cynilo annigonol; ac er mwyn gwneud y ddarpariaeth bresennol yn fwy cyson ac ymdrin â llawer o'r rhwystrau a nodwyd gan Estyn yn ei adroddiad *Materion Ariannol* yn 2011.
217. Roedd sawl un o'r ymatebwyr yn ystyried bod gallu ariannol a rheolaeth ariannol effeithiol yn sgîl bywyd hanfodol, y gellid ei drosglwyddo ymlaen a'i amlhau hefyd. Er enghraifft, cafodd hyn ei roi gan un ymatebydd yng nghydestun 'sgiliau byw annibynnol'.
218. Roedd cytundeb cyffredinol fod rheolaeth ariannol a materion ariannol yn berthnasol iawn i'r hyn y dylai pobl ifanc fod yn ei ddysgu yn yr ysgol, er bod nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod hyn eisoes yn cael ei ddarparu. Nodi hyn yn unig y gwnaeth y rhan fwyaf o'r rhain ac nid oeddynt o reidrwydd yn cwestiynu'r angen am ofyniad statudol ychwanegol.
219. Ymhlith y rhai a nododd elfennau o'r cwricwlwm sy'n bodoli ar hyn o bryd, dywedwyd bod rhifedd, mathemateg ac ABC yn feysydd lle darperir hyn ar hyn o bryd. Soniodd sawl un am gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gymharol ddiweddar.
220. Mae'r graddau y mae addysg ariannol eisoes yn cael ei hymgorffori mewn elfennau o'r cwricwlwm presennol yn ystyriaeth bwysig ac yn un sydd wedi cael ei hystyried yn ofalus wrth ddatblygu'r Bil hwn. Mae cynnwys addysg ariannol yn

ffurfiol yn y cwricwlwm statudol, o ganlyniad i ddiwygiad y Bil i adran 101 o *Ddeddf Addysg 2002*, yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar ddatblygiadau fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r TGAU rhifedd newydd sydd ar y gweill. Yn bwysig iawn, mae'n darparu amddiffyniad at y dyfodol o ran lle addysg ariannol yn y cwricwlwm. Dylai hefyd ymdrin ag anghysondeb, amrywiadau a natur anfoddhaol y sefyllfa bresennol lle nad yw llawer o bobl ifanc yn cael addysg ariannol ddigonol mewn ysgolion ar hyn o bryd.

221. I raddau helaeth, roedd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad o'r farn y dylid ystyried y cynnig hwn fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r cwricwlwm ac asesu y mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Athro Graham Donaldson i'w gynnal, neu o leiaf y dylai fod cysylltiad agos iawn ag ef. Yn ôl rhesymeg o'r fath, mae angen ystyried y penderfyniad yng nghyd-destun ehangach ymagweddau newydd at y cwricwlwm yng Nghymru a'r hyn a ddylai fod yn statudol. Mae hwn yn bwynt pwysig sydd wedi cael ei ystyried yn llawn ac mae Bethan Jenkins wedi cwrdd â'r Athro Donaldson i drafod sut y gellid ystyried addysg ariannol fel rhan o'i adolygiad.
222. Fodd bynnag, er gwaethaf adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn 2010, mae'n arwyddocaol bod addysg ariannol wedi'i hepgor o'r rhestr o argymhellion ac adolygiadau blaenorol y gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Donaldson eu hystyried. Ar hyn o bryd, felly, nid yw'n glir sut y gall addysg ariannol gael ei hyrwyddo trwy'r llwybr hwn.
223. Mae dod o hyd i le mewn cwricwlwm sydd eisoes yn orlawn a gosod beichiau ychwanegol ar ysgolion ac athrawon yn bryder i rai ymatebwyr ac mae'r farn hon wedi ei hystyried wrth baratoi'r Bil. Bydd angen darparu digon o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus i ysgolion i'w galluogi i ddarparu addysg ariannol. Fodd bynnag, i ryw raddau, dylai hyn fod ar waith eisoes o ystyried bod agweddau ar addysg ariannol eisoes yn orfodol. Ar ben hynny, bydd y gofyniad statudol a sefydlir gan y Bil yn atgyfnerthu ac yn cryfhau'r ddarpariaeth bresennol ac nid yn cyflwyno pwnc cwbl newydd, ar wahân.
224. Cododd nifer o'r ymatebwyr hefyd yr oedran pan fwriedir i'r gofyniad statudol i ddarparu addysg ariannol ddechrau – dechrau Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 3/7 oed). Teimlai sawl un yr ymgynghorwyd â hwy fod agweddau tuag at arian a rheolaeth ariannol eisoes wedi eu ffurfio cyn yr oedran hwn ac y byddent yn cefnogi dechrau addysg ariannol yn gynharach. Ystyriwyd hyn ac er y byddai'n fuddiol i blant ddysgu am gysyniadau sylfaenol arian a rheolaeth ariannol cyn gynted ag y bo modd, gellid dadlau bod gwneud hynny'n ofynnol mewn deddfwriaeth yn ddiangen i blant o dan 7. O dan elfen 'Rheoli Arian' y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, mae plant yn cael cyfle i ddysgu am ddefnyddio darnau arian o'r dosbarth Derbyn, ac yn ymarferol, disgwylir y byddai cyfleoedd o'r fath yn parhau i gael eu defnyddio.

225. Yn ogystal, mae'r farn o blaid dechrau addysg ariannol statudol o dan 7 oed wedi ei chydbwyso gan dystiolaeth gan bobl ifanc fod 7 oed yn ddigon cynnar. Roedd yn syndod nad oedd 61 y cant o bobl ifanc yn cytuno y dylai addysg ariannol gael ei chyflwyno yn yr ysgol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen, a 65 y cant o'r un sampl yn dweud eu bod yn cefnogi'r syniad y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei chyflwyno yn yr ysgol. Mae hyn o bosibl yn adlewyrchu'r farn bod 7 oed yn rhy ifanc ac mae wedi cael ei phwyso a'i mesur yn erbyn y dadleuon eraill bod ymyriadau cynnar sy'n briodol i'r lefel oedran yn arbennig o bwysig. Y casgliad y daethpwyd iddo yw mai dechrau Cyfnod Allweddol 2 yw'r amser gorau i ddechrau'r gofyniad statudol.
226. Dangosodd yr ymgynghoriad gefnogaeth gref i'r ddyletswydd a osodir gan y Bil ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â rhanddeiliaid ac arbenigwyr perthnasol wrth ddatblygu cynnwys y cwricwlwm ar addysg ariannol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r penderfyniad i wneud y gofyniad hwn yn eglur yn y ddeddfwriaeth.
227. Roedd yr ymatebion yn hynod ddefnyddiol o ran awgrymu'r mathau o sefydliadau y dylid ymgynghori â hwy ac mae hyn wedi llywio datblygiad y Bil a'r Memorandwm Esboniadol hwn, hyd yn oed os nad deddfwriaeth sylfaenol yw'r man gorau i ragnodi hyn. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru adolygu'r awgrymiadau hyn wrth gynnal ymgynghoriad.
228. Cafwyd safbwyntiau cymysg ynghylch yr angen am ofyniad i adrodd yn adran 6 y Bil. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno gerbron y Cynulliad, ym mhob blwyddyn ariannol, adroddiad ar gynnydd addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Er bod cefnogaeth yn yr ymgynghoriad i bwysigrwydd sicrhau bod addysg ariannol yn parhau i fod yn flaenoriaeth wleidyddol a strategol a bod angen ei goruchwyllo a'i monitro, roedd safbwyntiau eraill yn nodi y byddai hyn yn fiwrocraataidd ac yn drefniant hollol wahanol i rannau eraill o'r cwricwlwm.
229. Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hystyried yn ofalus wrth baratoi'r Bil, er bod y pwys mwyaf wedi ei roi i ddadleuon a oedd yn nodi y byddai'n dda o beth monitro'n ofalus y broses o gyflwyno addysg ariannol, o leiaf yn y blynyddoedd cynnar tra bydd yn ymsefydlu. Mae'r Bil, felly, yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno adroddiad blynyddol, oherwydd bydd hynny'n arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ac er mwyn rhoi sicrwydd o ran pryd y disgwylir adroddiadau o'r fath.
230. Rhoddwyd cryn dipyn o ystyriaeth i ymateb Estyn i'r ymgynghoriad, a oedd yn nodi bod y Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer 2010-2016 wedi symud i ffwrdd oddi wrth arolygu pynciau'n unigol a bod pwyslais newydd ar sgiliau. Mae Estyn wedi cynyddu ei ddefnydd o adroddiadau thematig i gyflawni ei gylch gorchwyl blynyddol gan Lywodraeth Cymru, ac yn 2011 cyhoeddwyd adroddiad thematig ar addysg ariannol, *Materion Ariannol*, sydd wedi dylanwadu ar

ddatblygiad y Bil hwn. Rhagwelir y gallai Llywodraeth Cymru ddewis archwilio'r opsiwn hwn ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd i gyflwyno adroddiadau yn adran 6. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn rhagnodi sut yn union y dylid gwneud hyn a Llywodraeth Cymru, o bosibl ar y cyd ag Estyn, fydd yn penderfynu ar y modd gorau o gyflawni hyn.

### *Strategaethau cynhwysiant ariannol*

231. Gellir rhannu'r ymatebion i'r cynigion yn y Bil sy'n ymwneud â'r ffaith y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaethau cynhwysiant ariannol yn rhai a oedd yn cefnogi hynny'n uniongyrchol, a rhai a oedd yn gefnogol i'r egwyddor ond yn credu bod ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni'r amcanion. Roedd yr olaf yn cynnwys y rhai sy'n credu y gallai strategaeth o'r fath gael ei darparu'n well fel rhan o gynllunio strategol ehangach yr awdurdod lleol (h.y. trwy gynllun integredig sengl ardal awdurdod lleol), yn hytrach nag fel dogfen annibynnol. Mae'r sylwadau hyn wedi eu hystyried drwy gynnwys yn y Bil y grym i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ynghylch strategaethau cynhwysiant ariannol, a allai gynnwys y ffordd y maent yn cael eu llunio a'u diwygio.
232. Roedd eraill yn argymhell sefydlu Safonau Cynhwysiant Ariannol Corfforaethol i Gymru, yn hytrach na gosod y baich ar awdurdodau lleol i ddatblygu mwy o ddogfennau strategol. Fodd bynnag, daeth sylwadau i law hefyd ynglŷn â'r angen i awdurdodau lleol gadw hyblygrwydd wrth gynhyrchu eu strategaethau, er mwyn gallu ystyried anghenion ac amgylchiadau lleol. Gellid dadlau y byddai gofyniad i gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol yn sicrhau mwy o hyblygrwydd lleol yn hytrach na gosod safonau corfforaethol mwy rhagnodol y mae'n rhaid eu bodloni. Mae'r ffordd y mae'r gofynion o ran cynnwys pob strategaeth cynhwysiant ariannol wedi eu fframio hefyd yn rhoi i'r awdurdodau lleol y gallu i fabwysiadu camau eraill i weithredu yn y maes hwn os bernir bod hynny'n briodol, heb eu cyfyngu i'r hyn sydd wedi'i nodi ar y wyneb y Bil.
233. Un thema gyffredin y cyfeiriodd nifer o ymatebwyr ati oedd yr angen i gyfeirio at bwysigrwydd gwaith partneriaeth a gwaith ar y cyd mewn unrhyw strategaeth cynhwysiant ariannol. Teimlai rhai ymatebwyr fod diffyg cydnabyddiaeth yn y ddogfen ymgynghori ynglŷn â dibyniaeth awdurdodau lleol ar ymgysylltu â chyngor allanol, asiantaethau cefnogi a phartneriaid strategol yn hyn o beth. Pwysleisiwyd y byddai llawer o waith awdurdod lleol i gefnogi cynhwysiant ariannol a llythrennedd yn cael ei ddarparu gan bartneriaid allanol, ac felly ystyriwyd bod cyfeirio at gysylltiadau â'r sector cynghori yn hanfodol. Mae hyn wedi ei ystyried yn adrannau 8(2) a 9(1)(e) o'r Bil.
234. Pwynt a bwysleisiwyd gan lawer oedd y ffaith mai'r rhai sy'n defnyddio cyfleusterau ar-lein mewn llyfrgelloedd sy'n debygol o fod fwyaf agored i niwed ac wedi eu hallgáu'n ariannol ac yn ddigidol. Nododd llawer y byddai cyflwyno Credyd Cynhwysol yn cynyddu dibyniaeth pobl ar wasanaethau ar y we, sydd yn arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn gan fod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hyrwyddo llyfrgelloedd fel y dewis cyntaf ar gyfer hawlwy'r Credyd



Cynhwysol nad oes cyfleusterau TGCh ar gael iddynt. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod gwasanaethau digidol rhad ac am ddim yn bwynt mynediad pwysig i alluogi pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i gael gwybodaeth am arian a chynhyrchion ariannol. Mae hyn wedi ei ystyried yn adran 9(1)(d) o'r Bil.

235. Os bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaeth cynhwysiant ariannol, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen am gynllun gweithredu atodol. Roedd llawer hefyd yn credu y dylai fod rhyw fath o broses o gyflwyno adroddiadau a goruchwyllo er mwyn gallu olrhain cynnydd ystyrllon. Roedd eraill yn rhybuddio am yr anawsterau o ran mesur a gwerthuso ymyriadau cynhwysiant ariannol, oherwydd nad oes diffiniad absoliwt o gynhwysiant ariannol y gellid ei ddefnyddio i fesur yn ei erbyn, a'r ffaith y byddai awdurdodau lleol yn ddibynnol iawn ar sefydliadau sy'n bartneriaid i gyflawni unrhyw strategaeth. Fodd bynnag, ar ôl ystyried, roeddem o'r farn bod yr angen am fecanwaith adrodd yn hanfodol er mwyn gallu olrhain y gwaith gweithredu a'r canlyniadau, a dyna pam y mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gyhoeddi adroddiad ar y camau y mae wedi'u cymryd o ran ei strategaeth cynhwysiant ariannol ym mhob blwyddyn ariannol.
236. O ran gallu Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynglŷn ag unrhyw strategaeth cynhwysiant ariannol, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn credu y byddai canllawiau naill ai'n ddefnyddiol neu'n hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r Bil.

#### *Cyngor am reolaeth ariannol*

237. Roedd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig y tu ôl i adran 11, sy'n rhoi dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol i drefnu bod plant a arferai dderbyn gofal yn cael cyngor priodol am wasanaeth ariannol a rheolaeth ariannol. Gan gydnabod bod plant sy'n derbyn gofal yn grŵp arbennig o agored i niwed, nododd yr ymatebwyr eu bod yn fwy tebygol o fod heb sgiliau rhifedd a llythrennedd sylfaenol a bod y diffyg cymorth teuluol yn golygu nad oes ganddynt yr un gefnogaeth ariannol, emosiynol ac ymarferol ag eraill.
238. Cyfeiriwyd at argymhellion gan Lais Defnyddwyr Cymru<sup>67</sup> o 2011 a oedd yn nodi y dylai awdurdodau lleol gefnogi plant sy'n derbyn gofal ar eu taith tuag at fod yn oedolion sy'n alluog yn ariannol.
239. Holwyd pam mai dyletswydd tuag at blant sy'n derbyn gofal yn unig, dan adran 11, a fyddai gan awdurdodau lleol a pham nad yw grwpiau eraill sy'n agored i niwed wedi eu cynnwys. Mae hon yn ddadl ddigon teg ond y rheswm dros gyfeirio'n benodol yn y Bil at blant a arferai dderbyn gofal yw oherwydd swyddogaeth unigryw awdurdodau lleol fel rhiant corfforaethol i blant o'r fath. Hefyd, bydd y rhwymedigaethau mewn manau eraill yn y Bil ar awdurdodau lleol i fod â strategaeth ar gyfer cynhwysiant ariannol yn cyrraedd eu poblogaethau yn gyffredinol, ynghyd ag adran 12 o ran darparu gwybodaeth a

chyngor yn fwy cyffredinol.

240. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori iddi fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cyngor am reolaeth ariannol. Dywedodd Grŵp Tai Cymunedol Cymru fod llawer o awdurdodau lleol yn darparu cyngor am ddyled, ond y gallent sylwi ar arwyddion o gamreoli ariannol cyn i sefyllfaoedd gyrraedd pwynt argyfwng (megis yn ystod ymholiadau am y dreth gyngor, gofal cymdeithasol ac ymholiadau tai). Oherwydd hynny, dylai swyddogion gael eu hyfforddi i adnabod a chyfeirio'r bobl hynny at y cymorth perthnasol. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi'r cynnig hwn yn yr un modd, gan ddweud bod materion megis digartrefedd a dyled yn aml yn eu hanfod yn gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â llythrennedd a chynhwysiant ariannol. Gan mai awdurdodau lleol yw'r pwynt cyswllt cychwynnol yn y cyd-destun hwn, dywedodd fod cyfle pwysig i awdurdodau lleol i sicrhau bod dinasyddion yn gallu derbyn unrhyw gymorth ychwanegol angenrheidiol ar yr adeg honno.
241. Fodd bynnag, neges gyson gan ymatebwyr yn y cyd-destun hwn oedd yr angen am gydweithredu rhwng awdurdodau lleol a'r rhai sy'n darparu cyngor ar hyn o bryd. Dywedodd Grŵp Tai Cymunedol Cymru y dylai awdurdodau lleol lunio partneriaethau â sefydliadau eraill sy'n gallu darparu'r cyngor hwn, yn hytrach na datblygu eu gwasanaethau cynghori eu hunain. Dywedodd The Money Charity y byddai gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfeirio a chefnogi mynediad i gyngor yn ddigonol, ac na fyddai angen i awdurdodau lleol ddarparu'r cyngor hwn eu hunain. Nododd Canolfan Cydweithredol Cymru fod ganddi wefan ar gyfer pobl y mae arnynt angen canllawiau sylfaenol ar faterion ariannol a'i bod yn dwyn ynghyd offer a ffynonellau defnyddiol, felly gall awdurdodau lleol dynnu sylw cwsmeriaid a staff at y safle hwn er gwybodaeth. Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin yr hoffai weld gwaith i wella cydgysylltu a chysylltiadau â darparwyr cyngor a chymorth allanol yn mynd law yn llaw â'r cynnig hwn. Ystyriwyd y sylwadau hyn ac fe'u defnyddiwyd i lywio'r ddarpariaeth bresennol yn adran 12 o'r Bil.
242. Y farn gyffredinol oedd ei bod yn addas ac yn angenrheidiol iawn fod gan sefydliadau addysg bellach ac uwch swyddogaeth o ran gwella gallu ariannol ymhlith eu myfyrwyr. Am y rhesymau a roddwyd ym mharagraff 195 mae cyfyngiadau ar y ffyrdd y gall y Bil hwn gyfarwyddo sefydliadau addysg bellach ac uwch ynghylch eu gweithrediadau heb beryglu dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r sector a heb fynd yn groes i gyfeiriad *Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014*. Mae'r graddau yr oedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy o'r farn ei bod yn bwysig darparu cyngor a gwybodaeth am reolaeth ariannol i fyfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch wedi llywio ac wedi sicrhau'r gwaith o baratoi'r Bil hwn.
243. Roedd dadleuon yn ymwneud â'r sylw fod pobl ifanc mewn addysg bellach, ac yn enwedig addysg uwch, yn aml am y tro cyntaf yn cymryd cyfrifoldeb am eu

materion ariannol eu hunain. Gellid dadlau hefyd felly ei fod yn un o'r cyfnodau pwysicaf yn eu bywydau o ran gwneud penderfyniadau ariannol.

244. Mae'r potensial i awdurdodau lleol i ddefnyddio eu swyddogaeth weinyddol o ran prosesu asesiadau cymhwysra a cheisiadau am gymorth i fyfyrwyr i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyfeirio ar reolaeth ariannol effeithiol wedi deillio'n uniongyrchol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae enghraifft o'r fath yn dangos gwerth ymgynghori'n gynnar a'i swyddogaeth werthfawr wrth lunio'r Bil penodol hwn.

#### *Goblygiadau ariannol*

245. Ni chafwyd unrhyw amcangyfrifon penodol o beth fyddai effaith ariannol y Bil yn ystod yr ymgynghoriad. Byddai adborth gan awdurdodau lleol o ran effaith cyflwyno addysg ariannol mewn ysgolion yn dibynnu ar sut y byddai'r newidiadau i'r cwricwlwm a'r canllawiau'n wahanol i'r newidiadau sydd yn yr arfaeth yn sgil gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru. Nid oedd unrhyw dystiolaeth gan y trydydd sector na sefydliadau eraill y gallai'r Bil effeithio arnynt i nodi y byddai costau ychwanegol i'w sefydliadau.

## 5. Grym i greu is-ddeddfwriaeth

246. Mae dwy ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer is-ddeddfwriaeth.
247. Mae adran 9(2) yn rhoi grym i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o ffactorau i'w hystyried gan awdurdod lleol wrth bennu ei strategaeth cynhwysiant ariannol. Mae'r ddarpariaeth hon wedi ei chynnwys i sicrhau y gall gofynion y strategaeth gael eu diweddarau, o bryd i'w gilydd, i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau sy'n newid heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd unrhyw orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael ei wneud drwy "weithdrefn gadarnhaol". Ystyrir bod hyn yn briodol gan y bydd yn diwygio Deddf y Cynulliad.
248. Adran 14 yw'r ddarpariaeth gychwyn. Nid yw Gorchmynion Cychwyn yn destun craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer oherwydd nad ydynt yn newid cyflwr y gyfraith; maent yn dod â chyfraith i rym y mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi ei llunio. Dyna yw'r sefyllfa yma. Fodd bynnag, ceir darpariaeth hefyd i orchmynion cychwyn hefyd yn wneud darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, neu drosiannol. Mewn achos o'r fath, ystyrir ei bod yn briodol i'r Cynulliad Cenedlaethol gael cyfle i graffu ar y darpariaethau hynny. Felly, bydd unrhyw Orchymyn Cychwyn sy'n cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, neu drosiannol yn destun craffu drwy gyfrwng y "weithdrefn negyddol". Bydd Pwyllgor Cyfansoddiadol a materion Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar bob offeryn o'r fath a gallai gael ei ddirymu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## 6. Cymhwysiad Tiriogaethol

249. Mae'r Bil yn gymwys i Gymru yn unig.

## 7. Materion trawsffiniol

250. Nid oes materion trawsffiniol.

## Rhan 2: Aseiad Effaith Rheoleiddiol

251. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â'r prif ddarpariaethau yn y Bil ac yn dadansoddi i ba raddau y byddai pob un o'r rhain yn bodloni amcanion polisi Bethan Jenkins. Wrth wneud hynny, mae'n ystyried risgiau, costau a manteision cysylltiedig pob opsiwn.
252. Mae'r Aseiad hefyd yn edrych ar rai canlyniadau anfwriadol ac yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb, gan gynnwys Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

### 8. Opsiynau

#### Opsiwn 1: Gwneud dim

253. Un opsiwn yw gwneud dim a pharhau â'r trefniadau presennol, o ran addysg ariannol a gweithgareddau ehangach awdurdodau lleol.
254. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai elfennau o addysg ariannol yn parhau i gael eu darparu o dan fathemateg, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (hyd at Flwyddyn 9), ABCCh ac o bosibl drwy'r TGAU rhifedd newydd o fis Medi 2015. Manteision yr opsiwn hwn yw na fyddai dim tarfu ar drefniadau'r cwricwlwm presennol ac na fyddai dim costau ychwanegol.
255. Y brif anfantais yw bod y trefniadau presennol yn anfoddhaol gan nad oes digon o eglurder ynghylch statws addysg ariannol o fewn y cwricwlwm a bod amrywiadau ac anghysondeb o ran a yw disgyblion yn ei derbyn. Mae'r dystiolaeth a ddyfynnir a'r dadleuon a nodwyd trwy gydol y Memorandwm Esboniadol yn dangos bod angen gwella sgiliau ariannol pobl ifanc, a'r boblogaeth ehangach yng Nghymru, ar fyrder oherwydd adfyd ariannol parhaus unigolion.
256. Mae hyn hefyd yn wir yng nghyd-destun gweithgareddau awdurdodau lleol yn y maes hwn. Nid yw'n glir ar hyn o bryd faint o awdurdodau lleol mewn gwirionedd sydd â chynlluniau strategol er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol. Fel y gellir gweld yn y Memorandwm Esboniadol, mae dadl hefyd nad yw'r sbardun y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i'r agenda hon yn cael effaith bendant oherwydd nad yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gymryd unrhyw gamau yn y maes hwn.
257. Canlyniad gwneud dim yw na fyddai angen i awdurdodau lleol gymryd dim camau ychwanegol y tu hwnt i'r hyn y maent yn ei wneud eisoes i helpu dinasyddion â chynhwysiant ariannol a materion llythrennedd ariannol. Mae rhai o'r ystadegau a ddarperir ar ddechrau'r Memorandwm Esboniadol yn amlwg yn dangos bod angen y cymorth hwn ar lawer o bobl, ac awdurdodau lleol sydd yn y

sefyllfa orau i gydlynu'r gwaith hwnnw ar lefel leol.

258. Mae lefelau presennol o allu ariannol yng Nghymru a thuedd llawer o bobl i wneud dewisiadau anwybodus ac annoeth yn golygu nad yw cynnal y status quo yn opsiwn rhesymol. Ni fyddai ychwaith yn cyflawni amcanion polisi'r Bil.

## **Opsiwn 2: Camau heb ddeddfu**

259. Dewis arall fyddai i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach, ond heb ddeddfu, i hyrwyddo ac annog addysg ariannol a hyrwyddo cynhwysiant ariannol drwy ddatganiadau polisi ac arweiniad clir.

260. Yng nghyd-destun addysg, gellid disgwyl i hyn sicrhau rhywfaint o gynnydd o ran gwella'r addysg ariannol sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru a byddai'n dangos neges glir o fwriad gan Lywodraeth Cymru.

261. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn mynd yn ddigon pell a byddai'n annigonol o ran sicrhau a gwarantu'r addysg ariannol sydd ei hangen yng Nghymru. Mae angen sylfaen gyfreithiol gadarn ar addysg ariannol i sicrhau ei bod yn cael ei hymgorffori'n ddiogel yng nghwricwlwm yr ysgol ymhell i'r dyfodol. Ni ddylid caniatáu iddi fynd ar goll yng nghanol blaenoriaethau sy'n cystadlu neu fod yn rhywbeth achlysurol, yn dibynnu ar y llywodraeth ar y pryd ac a oes ei hangen oherwydd yr amodau economaidd.

262. Mae profiad arbrofion anstatudol eraill fel y Fframwaith Sgiliau a gyflwynwyd yn 2008 wedi dangos, os nad yw meysydd darpariaeth ysgolion yn cael eu cefnogi gan ofyniad cyfreithiol, eu bod yn cael eu hesgeuluso o blaid rhannau statudol eraill o'r cwricwlwm. Amlygwyd hyn gan Estyn yn 2011.<sup>68</sup> Er nad yw'r Bil hwn yn cynnig y byddai cynnwys fframwaith addysg ariannol yn statudol, byddai'r gofyniad i ddarparu addysg ariannol ynddo'i hun yn statudol. Ni fyddai Opsiwn 2 yn gwarantu hyn ac felly nid yw'n ddigonol i gyflawni amcanion polisi'r Bil hwn.

263. O ran gweithgareddau ehangach awdurdodau lleol, gellid dadlau bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd cam tebyg i'r un a nodwyd o dan yr opsiwn hwn wrth gynhyrchu ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn 2009. Mae'r Strategaeth hon yn tanlinellu swyddogaeth allweddol awdurdodau lleol wrth hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn eu hardaloedd, yn ogystal â rhestr o gamau gweithredu ymarferol penodol y gallant eu cymryd, ond mae'n amlwg nad yw pob awdurdod lleol yn cymryd y camau hyn.

264. Byddai datganiad polisi ac arweiniad pellach i awdurdodau lleol ar hyrwyddo cynhwysiant ariannol – heb ddim dyletswydd statudol i gydymffurfio – yn ôl pob tebyg yn arwain at yr un canlyniad ac ni fyddai'n cyflawni amcanion polisi'r Bil o wneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae pobl yn cael cymorth i wneud dewisiadau ariannol.

### **Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth ar gynhwysiant ac addysg ariannol (yr opsiwn a ffefrir)**

265. Yr opsiwn hwn yw'r unig un a fyddai'n cyflawni amcanion polisi'r Bil.
266. O ran addysg, byddai'n sicrhau bod pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn derbyn addysg ariannol ac felly yn gwella eu rhagolygon ar gyfer bod yn llythrennog yn ariannol a gallu gwneud y penderfyniadau ariannol gorau ar gyfer eu hamgylchiadau eu hunain.
267. Byddai'r sylfaen gref a'r sicrwydd ynghylch ei lle yn y cwricwlwm ysgol yn golygu bod addysg ariannol yn cael ei darparu mewn gwirionedd i blant a phobl ifanc yng Nghymru ac yn ategu symudiadau polisi presennol i'r cyfeiriad hwn. Byddai hefyd yn gwbl gydnaws â dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru sy'n fwy ariannol gynhwysol a'r cyfeiriad mewn llawer o wledydd eraill, yn enwedig yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.
268. Mae'n bosibl y byddai ymyrraeth drwy'r cwricwlwm yn ffordd arbennig o adeiladol o hybu cynhwysiant ariannol yng Nghymru, fel y dywedodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ddiweddar:

...effective practices and results of existing programmes' evaluation show that including financial education in the formal school curriculum is one of the most efficient and fair ways to reach a whole generation on a broad scale. In addition, since the curriculum spans several years and can start as early as kindergarten, it is a unique means to inculcate and nurture a sound financial culture and behaviours amongst future adults. This is especially important since parents are unequally equipped to transmit to their children sound financial habits. Besides, as demonstrated in other related education fields (such as health), young people are potentially good disseminators of new habits in the rest of the population.<sup>69</sup>

269. O ran awdurdodau lleol yn hyrwyddo cynhwysiant ariannol a darparu gwybodaeth a chynghor i ddinasyddion gan awdurdodau lleol, cyflwyno deddfwriaeth yw'r unig opsiwn a all sicrhau y bydd hyn yn digwydd. Bydd y Bil yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol gynllun strategol i hybu cynhwysiant ariannol a rhaid i'r awdurdod adrodd yn flynyddol ar y modd y mae wedi gwneud hyn, gan sicrhau felly bod gweithrediad yn cael ei fonitro. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau bod awdurdodau lleol wedi gwneud trefniadau i ddarparu cynghor angenrheidiol i'r rhai sydd ei angen. Bydd deddfu yn sicrhau ei bod yn ddyletswydd ar bob awdurdod lleol ledled Cymru i gymryd camau yn y maes hwn, a ddylai yn ei dro helpu i gyflawni amcan cyffredinol y Bil o alluogi mwy o bobl i fod yn fwy galluog yn ariannol.
270. Felly, Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir a'r ffordd ymlaen a nodir yn y Bil.

## 9. Amcangyfrif o gostau a buddion – Opsiwn 3 (yr opsiwn a ffefrir)

271. Rhoddir crynodeb o'r costau fesul sefydliad / sector yn Nhabl 1 ar dudalen 70.

272. Cysylltwyd â Llywodraeth Cymru er mwyn cael amcangyfrifon o'r costau yn y meysydd hyn, er nad ydynt wedi cael eu darparu ar adeg paratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Y gobaith yw y bydd amcangyfrif Llywodraeth Cymru o effaith ariannol y Bil hwn, wrth i'r Bil symud yn ei flaen, ddiweddarau'r ffigurau a roddir yn yr adran hon.

### Cynigion y Bil mewn perthynas ag addysg ariannol (adrannau 4 i 7 o'r Bil)

273. Mae'r costau sy'n ymwneud â gweithredu'r Bil hwn yn fach o ystyried y darlun ehangach o ran nifer y plant mewn ysgolion a chostau darpariaeth addysg ar hyn o bryd:

- Mae tua 300,000 o blant 7 i 15 oed mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd;
- Mae cyfanswm y gwariant a ddirprwyir i ysgolion yng Nghymru dros £2 filiwn y flwyddyn;
- Roedd Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2014-15 yn cynnwys dyraniad o dros £120 miliwn o dan Gweithredu'r Cwricwlwm.

### *Arweiniad y cwricwlwm ac ymgynghori*

274. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofyniad statudol i addysg ariannol gael ei chyflwyno fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Ni fyddai'r canllawiau ar sut y dylai ysgolion ddarparu addysg ariannol yr un fath ag ar gyfer pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ond byddent yn debyg i elfennau statudol eraill y cwricwlwm ysgol megis addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Rhagwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fframwaith anstatudol, fel gydag ABCh, yn rhoi arweiniad clir ynglŷn â'r hyn y disgwylir iddi ei chynnwys. Gallai hyn gynnwys gwahaniaeth rhwng y cymwyseddau craidd sydd eu hangen i fod yn llythrennog yn ariannol a chyfleoedd eraill mwy hyblyg y gellid eu cynnig i ddisgyblion.

275. Ni fyddai'r gofyniad statudol i ysgolion a gynhelir ddarparu addysg ariannol yn gwbl newydd nac yn groes i ddatblygiadau sydd eisoes wedi digwydd a'r symudiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn. Felly bwriedir yn fawr iawn y bydd sefydlu addysg ariannol yn y cwricwlwm statudol yn ffurfioli llawer o'r hyn sy'n digwydd yn barod ac yn adeiladu ar hyn fel bod y ddarpariaeth i bobl ifanc yn cael ei gwella a'i bod yn fwy cyson.



276. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno ail arholiad TGAU mathemateg newydd mewn 'rhifedd' yng Nghymru o fis Medi 2015. Bydd y TGAU rhifedd wedi'i gynllunio i adeiladu ar y lefelau rhifedd a ddisgwylir o dan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud y bydd yn cynnwys llythrennedd ariannol.
277. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu mewn dau gam. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mewn gohebiaeth i Bethan Jenkins y bydd lle llythrennedd ariannol yn y cwricwlwm yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad hwn, ond nid oes manylion ynglŷn â sut y gellid ei chynnwys hyd yma. Y bwriad yw y dylai cyflwyno gofyniad statudol ar gyfer addysg ariannol lywio gwaith a chanlyniad yr adolygiad, fel bod newidiadau cyffredinol yn cael eu gwneud mewn modd cyfannol.
278. Mae gwybodaeth am gyfleoedd ar gyfer cyflwyno addysg ariannol yn y cwricwlwm eisoes wedi eu casglu ynghyd yn nogfen canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a cholegau, *Addysg Ariannol i Bobl Ifanc rhwng 7 a 19 oed yng Nghymru*<sup>70</sup>. Cyhoeddwyd y canllawiau yn 2011, ac maent wedi'u hanelu at gyrff llywodraethu, uwch dimau rheoli ac ymarferwyr / athrawon i'w helpu i gynllunio a chyflwyno addysg ariannol.
279. Mae'r Bil hwn yn rhagweld y bydd y canllawiau presennol ar addysg ariannol yn cael eu diweddarau i gynnwys datblygiadau diweddar megis y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'u gwella i gynorthwyo ysgolion i gydymffurfio â'r gofyniad statudol ffurfiol newydd. Gallai'r canllawiau hyn, a allai fod ar ffurf fframwaith anstatudol tebyg i'r rhai ar gyfer ABCh a Gyrfaedd a byd gwaith, nodi rhai cymwyseddau neu sgiliau sy'n ganolog i lythrennedd ariannol craidd, sef y rhannau mwyaf allweddol o'r hyn y dylai ysgolion ei ddysgu i'w disgyblion.
280. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar ddatblygu'r cwricwlwm. Nid yw'r Bil yn pennu â phwy y dylid ymgynghori, er y rhagwelir y byddai angen i ymgynghoriad o'r fath gynnwys arbenigwyr perthnasol a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys pobl ifanc.
281. Mae'n anodd amcangyfrif pa gostau ychwanegol a fyddai o'i gymharu â sefyllfa'r status quo. Mae'r sefyllfa status quo yn newid ac felly bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dibynnu ar ganlyniad adolygiad presennol Llywodraeth Cymru ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu a sut y byddai'r rhain yn wahanol i fwriad polisi'r cynigion yn y Bil hwn.
282. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol am amcangyfrifon o effaith ariannol y cynigion yn y Bil hwn ac rydym yn aros am ragor o fanylion. Gan na chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru, mae paragraffau 284 i 288 yn rhoi'r amcangyfrifon gorau o'r costau ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Gellir diweddarau'r amcangyfrifon canlynol yn nes ymlaen.

283. Byddai disgwyl i'r newidiadau i'r cwricwlwm gael eu hintegreiddio i waith parhaus Llywodraeth Cymru ac y byddai unrhyw ganllawiau newydd yn gallu cyfuno ac ategu'r adnoddau sydd eisoes ar gael. Byddai hyn yn lleihau costau gweithredu'r Bil.
284. Yn absenoldeb ymateb gan Lywodraeth Cymru mae'n bwysig nodi'r pedwar paragraff canlynol.
285. Roedd Memorandwm Esboniadol *Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013*, a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn amcangyfrif mai tua £400,000 fyddai cost datblygu a chyhoeddi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.<sup>71</sup> Roedd cwmpas y gwaith hwn yn llawer mwy na'r hyn a ragwelwyd gan y Bil gan ei fod yn ychwanegu rhaglenni addysgol ychwanegol ar gyfer sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn y cyfnod sylfaen. Mae hefyd yn ychwanegu rhaglenni astudio ychwanegol ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn yr ail gyfnod allweddol a'r trydydd.
286. Cynhaliodd Prifysgol Glasgow brosiect i ddatblygu cwricwlwm arloesol, cydlynol a difyr ar gyfer addysg pobl ifanc rhwng 5 a 15 oed yn yr Alban, mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg. Cafodd £78,000 ar gyfer hyn.
287. Yn Lloegr, derbyniodd Innovators in Mathematics Education gyllid o £178,000 dros ddwy flynedd, tuag at gwricwlwm mathemateg newydd ar gyfer TGAU, sy'n fwy perthnasol i brofiadau go iawn y disgyblion.
288. Felly, gan fod cwmpas y newidiadau a ragwelir yn y Bil hwn yn llai eang na'r enghreifftiau uchod, hyd nes y gellir cael mwy o fanylion gan Lywodraeth Cymru, yr amcangyfrif gorau yn y cyd-destun hwn yw na ddylai'r costau i Lywodraeth Cymru fod yn uwch na **£175,000**.

#### *Gweithredu gofynion y cwricwlwm*

289. Ar hyn o bryd, mae addysg ariannol a defnyddio arian wedi eu cynnwys yng nghwricwlwm cenedlaethol mathemateg, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd statudol, a'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol anstatudol. Mae fframwaith anstatudol Gyrfaoedd a byd gwaith i bobl ifanc rhwng 11 a 19 oed yn cynnwys darpariaeth ar gyfer entrepreneuriaeth ond nid gallu ariannol.
290. Mae'r cwricwlwm mathemateg hefyd yn datgan bod dysgwyr, yng Nghyfnod Allweddol 4, yn atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ... gan eu galluogi i ddatrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau ... yn enwedig rheoli cyllid personol.<sup>72</sup> Fodd bynnag, ni nodir yn benodol sut y mae hyn yn cael ei ddarparu.

291. Mae cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ofyniad statudol ar ysgolion yng Nghymru ac fe'i cyflwynwyd ym mis Medi 2013. Mae nifer o ddisgwyliadau o ran galluoedd dysgwyr yn cael eu gosod ym mhob blwyddyn o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 9. O fis Medi 2014, bydd yn ofynnol i athrawon asesu disgyblion yn erbyn y disgwyliadau hyn yn flynyddol.
292. Un o linyddau'r cydrannau rhifedd yn y Fframwaith yw 'Defnyddio sgiliau rhif' ac o fewn y maes hwn, mae elfen o'r enw 'Rheoli arian'. Erbyn diwedd Blwyddyn 9, disgwylir i ddisgyblion ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol ffyrdd o gynilo a buddsoddi yn ogystal â phwysigrwydd yswiriant.
293. Rydym wedi cysylltu'n uniongyrchol â phob awdurdod lleol i ofyn iddynt lunio amcangyfrifon o gost gweithredu'r gofyniad i lythrennedd ariannol fod yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid oedd yr awdurdodau lleol yn gallu amcangyfrif effaith y gofyniad hwn yn y Bil, gan ddweud y byddai'r goblygiadau yn dibynnu ar yr hyn a oedd wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm a chanllawiau ynghylch ei weithredu.
294. Mae rhai trefniadau eisoes wedi eu sefydlu i gynorthwyo ysgolion ac athrawon i ddarparu addysg ariannol. Mae enghreifftiau o rai o'r adnoddau sydd ar gael wedi'u nodi isod.
295. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi deunyddiau hyfforddi i athrawon ac ymarferwyr addysg ar wefan Dysgu Cymru ynghylch sut y gall addysg ariannol gael ei darparu o fewn y ddarpariaeth bresennol. Rhagwelir y gallai'r rhain fod yn sail ar gyfer unrhyw hyfforddiant ychwanegol sy'n ofynnol o dan y Bil hwn.
296. Tynnodd nifer o awdurdodau sylw at yr adnoddau sydd ar gael eisoes ac sydd eisoes yn cael eu defnyddio. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Penfro fod llawer iawn o adnoddau sydd ar gael eisoes y gellir eu datblygu megis y Gwasanaeth Cyngori Ariannol a Dynamo y mae ysgolion wedi bod yn eu defnyddio eisoes.
297. Byddai angen digon o hyfforddiant a threfniadau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ymarferwyr addysg ac athrawon i gyflawni'r gofyniad statudol. Roedd Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn cyd-fynd â chyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i gynorthwyo ysgolion i'w weithredu, a dylai fod wedi cynnwys elfen o faterion ariannol oherwydd eu bod wedi eu cynnwys yn y cydrannau rhifedd. Mae'r Bil yn rhagweld y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i gyd-fynd â'r canllawiau i ysgolion ar ddarparu addysg ariannol. Gallai hyfforddiant yn y maes hwn adeiladu ar y deunyddiau hyfforddi sydd eisoes wedi eu darparu gan Lywodraeth Cymru ar ei gwefan Dysgu Cymru.
298. Rhagwelir y gallai materion ariannol gael eu cynnwys mewn Hyfforddiant Cychwynol Athrawon fel bod gan athrawon ddigon o sgiliau a hyfforddiant

erbyn iddynt fod yn gyfrifol am ei chyflwyno. Byddai angen sefydlu trefniadau datblygiad proffesiynol parhaus eraill ar gyfer athrawon sydd eisoes yn ymarfer ac ar gyfer ysgolion yn fwy cyffredinol. Gallai diwrnodau HMS gael eu defnyddio ar gyfer dibenion o'r fath, er y rhagwelir y byddai diwygiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfleoedd i gymorth o'r fath gael ei ddarparu i ysgolion wrth ddarparu addysg ariannol fel rhan o symudiad tuag at drefniadau datblygiad proffesiynol parhaus llai tameidiog a mwy strategol ar gyfer athrawon.

299. Ar 10 Mehefin 2014, gwnaeth y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ddatganiad Cabinet ar fodel cenedlaethol o ddysgu proffesiynol ar gyfer gweithlu'r ysgolion yng Nghymru.<sup>73</sup> Dywedodd y Gweinidog ei bod yn 'Fargen Newydd' ar gyfer gweithlu'r ysgolion. O dan y trefniadau newydd a gyhoeddwyd gan y Gweinidog, bydd athrawon yn cael Proffil Dysgu Proffesiynol ar-lein newydd, y gallant ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad eu gyrfa a chofnodi taith eu datblygiad proffesiynol. Wrth ymateb i gwestiynau am yr adnoddau a fydd ar gael i gefnogi'r model newydd ar gyfer dysgu proffesiynol, dywedodd y Gweinidog y byddai cyllid yn cael ei ddefnyddio'n fwy strategol.<sup>74</sup>
300. Mae'r ffaith y bydd yr adnoddau a nodir uchod ar gael a'r ffaith fod ysgolion eisoes yn darparu addysg ariannol, er nad yw hynny'n gyson ledled Cymru, a bod Llywodraeth Cymru eisoes yn ailweithio'r canllawiau a'r cwricwlwm yn golygu y bydd effaith ariannol gweithredu'r Bil hwn yn llai. Bydd y prif gostau i awdurdodau lleol yn ymwneud â hyfforddiant, cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm.
301. I gael syniad bras o rai o'r costau a allai fod yn berthnasol o ran gweithredu'r cwricwlwm, cysylltwyd yn uniongyrchol ag un awdurdod lleol, a oedd wedi darparu costau, sydd â chyfran gymharol uchel o ardaloedd ag amddifadedd. Darparodd yr awdurdod hwn amcangyfrifon bras o gostau darparu pum awr o hyfforddiant fel rhan o'r cwricwlwm yn ystod un flwyddyn o addysg plentyn, sy'n cynnwys y gost addysgu flynyddol a chost deunyddiau a hyfforddiant a hefyd y mathau o gostau sy'n cwmpo yn ystod y flwyddyn gyntaf yn dilyn gweithredu.
302. I ddarparu amcangyfrif bras o sut y gallai costau o'r fath gael eu cymhwyso i gyd-destun Cymru gyfan, rydym wedi tybio bod y costau fesul disgybl yn gyffredin ar gyfer pob un o'r 300,000 o ddisgyblion yng Nghymru sydd rhwng 7 a 15 oed.
303. Gan ddefnyddio'r canfyddiadau a gafwyd gan yr un awdurdod lleol hwnnw, amcangyfrifwyd mai cyfanswm cost ymarfer o'r fath ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru fyddai **£3.4 miliwn bob flwyddyn ac £1.1 miliwn o gostau untro.**
304. Dylai canlyniad adolygiad parhaus Llywodraeth Cymru o'r cwricwlwm ac asesu roi darlun cliriach o gostau a llywio'r canllawiau dilynol a fyddai'n dilyn

gweithredu'r Bil hwn.

305. Dylid gwneud gwaith mwy manwl cyn gweithredu'r Bil, ac ystyried y canlyniadau sy'n deillio o waith Llywodraeth Cymru ynglŷn â newid y cwricwlwm presennol a beth fyddai effaith y newidiadau i'r cwricwlwm a chanllawiau sy'n benodol i'r Bil hwn. Mae'r Bil yn rhagweld y byddai Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i gyd-fynd â'r canllawiau i ysgolion ar ddarparu addysg ariannol.

*Monitro'r gofyniad cwricwlaidd gan yr awdurdodau lleol*

306. Amcangyfrifwyd hefyd y byddai angen swyddog monitro a gwerthuso ar yr awdurdod lleol a fyddai'n gyfrifol am gynghori ar gynnwys y cwrs, rhoi cyngor a chefnogaeth, ynghyd â monitro, gwerthuso cydymffurfiaeth, sicrhau ansawdd a dyletswyddau eraill mewn swyddogaeth o'r fath. Amcangyfrifwyd y byddai cost swyddogaeth o'r fath, gan gynnwys unrhyw gostau teithio a chostau eraill, tua £40,000 fesul awdurdod lleol, ac ni fyddai hyn yn cynnwys cost darparu cyngor a chefnogaeth uniongyrchol a darparu cynnwys y cwrs. Byddai swyddog ym mhob un o'r awdurdodau lleol yn costio **£880,000** bob blwyddyn (22 \* £40,000). Fodd bynnag, mae hwn yn amcangyfrif uchaf ac mewn gwirionedd, disgwylir i'r costau fod yn sylweddol is na hyn. Gallai fod cyfle i swydd o'r fath gael ei rhannu rhwng awdurdodau lleol ar sail gydweithredol o'r cychwyn cyntaf, yn unol â'r trefniadau presennol ar gyfer gweithio ar y cyd drwy'r pedwar consortiwm rhanbarthol yng Nghymru a swyddogaeth arweinwyr systemau sy'n cynnwys ymyrraeth gwricwlaidd a chefnogaeth.

*Monitro ac adrodd ar addysg ariannol*

307. Bydd yn bwysig monitro effaith addysg ariannol ar ôl y newid deddfwriaethol hwn, ynghyd â'r datblygiadau o ran ei chynnwys mewn rhifedd, ac mae'r gofyniad i adolygu cynnydd yn ffordd bwysig o gyflawni hyn.
308. Mae Adran 6 o'r Bil yn gosod gofynion ar gyfer adolygu cynnydd addysg ariannol. Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad yn ystod pob blwyddyn ariannol a fydd yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.
309. Mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu sut y bydd yn bodloni'r gofyniad i gyflwyno adroddiad blynyddol, ond gallai hyn gael ei wneud gan Estyn. Cysylltwyd ag Estyn i holi ei farn am beth fyddai effaith gweithredu hyn. Edrychwyd ar ddau opsiwn. Byddai un opsiwn yn cynnwys arolygu blynyddol a'r llall yn cynnwys adroddiad thematig blynyddol.

*Adroddiad blynyddol a chynnwys yn arolygiadau Estyn:*

310. Mae'n anodd nodi union gost arolygu addysg llythrennedd ariannol. Fodd bynnag, er mwyn paratoi ar gyfer hyn, mae Estyn yn amcangyfrif y byddai angen iddo ddatblygu canllawiau atodol ar gyfer arolygwyr a diweddarau llawlyfrau a pheccynnau cymorth y sector. Byddai hyn yn cymryd tua 20 diwrnod neu £8,000 (amcangyfrif a ddarparwyd gan Estyn).
311. Pe byddai'n ofynnol i arolygwyr arolygu addysg llythrennedd ariannol, byddai angen hyfforddiant ar AEM ac arolygwyr ychwanegol a chymheiriaid. Byddai hyn yn cynnwys un awr o raglen hyfforddi flynyddol bum awr ar gyfer arolygwyr ysgolion allanol ac awr ar gyfer hyfforddiant mewnol i AEM (amcangyfrif a ddarparwyd gan Estyn). Mae tua 900 o gontractwyr allanol yng Nghymru a byddai angen awr o hyfforddiant ychwanegol ar bob un ynglŷn â llythrennedd ariannol. Mae Estyn yn tybio y byddai'r gost tua £30,000. Yn ogystal, amcangyfrifir y byddai hyfforddiant mewnol i 60 o arolygwyr / pobl wedi'u secondio yn costio £12,300.
312. Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau untro yn y cyd-destun hwn fyddai **£50,300**.
313. Yn ystod arolygiad, pe bai'n ofynnol i arolygwyr adrodd ar addysg ariannol, byddai angen iddynt dreulio o leiaf ddwy awr yn ystod yr arolygiad yn craffu ar ddogfennau perthnasol a gwaith y disgyblion ac awr yn cwrdd â staff perthnasol. Yn ymarferol byddai angen ychwanegu hanner diwrnod ychwanegol i ôl troed yr arolygiad. Byddai angen i Estyn newid ei ganllawiau i arolygwyr er mwyn iddynt ofyn cwestiynau perthnasol i ddisgyblion yn ystod gweithgareddau eraill megis gwrando ar ddysgwyr.
314. Byddai'r gwaith ychwanegol hwn yn cwmpasu tua 140 o ddyddiau arolygu y flwyddyn. Fodd bynnag, pe byddai angen i'r arolygwyr deithio i ysgol, byddai hyn yn ychwanegu un diwrnod arall o amser teithio ar gyfer pob arolygydd, gan ddod â'r cyfanswm i 350 o ddyddiau arolygydd. Ar y cyfan, byddai hyn yn cyfateb i ryw ddau AEM neu **£160,000** gan gynnwys costau ychwanegol yn flynyddol (amcangyfrif a ddarparwyd gan Estyn).
315. Dyma'r dewis a ffefrir, er bod trafodaethau'n parhau ag Estyn ar rinweddau bodloni'r ddarpariaeth trwy adroddiad thematig.

*Adroddiad thematig Blynyddol:*

316. Opsiwn arall a ystyriwyd o ran monitro cynnydd wrth weithredu'r cwricwlwm oedd y gofyniad i gynhyrchu adroddiad thematig bob blwyddyn.
317. Roedd tystiolaeth gan Estyn yn dweud mai tua £40,000 oedd cost cynhyrchu'r adroddiad *Materion Ariannol*. Mae hyn yn cynnwys amser yr AEM a ysgrifennodd yr adroddiad, amser rhaglen waith i aelodau ychwanegol o'r tîm

ymweld ag ysgolion ac amser i'r golygydd cyntaf a'r ail olygydd adolygu'r adroddiad. Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer AEM wrth ymweld â'r ysgolion.

318. Felly, amcangyfrifir y byddai'n costio **£40,000** bob blwyddyn i Estyn ddarparu adroddiad thematig blynyddol.

#### *Plant sy'n derbyn gofal*

319. Mae Adran 7 o'r Bil yn gosod rhwymedigaethau penodol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn derbyn addysg ariannol.
320. Mae gwybodaeth gan awdurdodau lleol yn awgrymu y bydd darpariaeth gwasanaethau presennol yn bodloni'r gofynion i ddarparu addysg ariannol i blant o oedran ysgol sy'n derbyn gofal. Bydd costau darparu addysg ariannol i blant sy'n derbyn gofal, ac eithrio fel rhan o gostau cwricwlwm mewn ysgolion, yn fach iawn felly.

#### **Cynigion y Bil mewn perthynas â strategaethau cynhwysiant ariannol (adrannau 8 i 10 o'r Bil)**

##### *Cost cynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol i awdurdodau lleol*

321. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofyniad statudol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth cynhwysiant ariannol. Ceir gofyniad hefyd i ymgynghori ar y strategaeth hon a chynhyrchu adroddiad blynyddol.
322. Gall llawer o awdurdodau lleol gyfrannu'n sylweddol at yr agenda cynhwysiant ariannol ac mae llawer ohonynt yn gwneud hynny. Fodd bynnag, gallai eu swyddogaeth yn hyn o beth gael ei chryfhau a'i hatgyfnerthu. Roedd tystiolaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn dangos bod gan lawer ohonynt ryw fath o strategaeth cynhwysiant ariannol. Fodd bynnag, ni fydd gan nifer o'r awdurdodau hyn, o anghenraid, strategaeth aml-wasanaeth sydd wedi ei hintegreiddio'n llawn a'i phrif ffrydio.
323. Byddai angen cyfraniadau gan staff o nifer o adrannau'r awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau allanol er mwyn ffurfio strategaeth amlasiantaeth. Byddai cost ynghlwm a hyn gan ddibynnu ar ba un a oes strategaeth wedi ei sefydlu ar hyn o bryd a faint o addasu y byddai angen ei wneud i'r strategaeth honno i fodloni'r ddeddfwriaeth.
324. Byddai ffurfio strategaeth yn nodi gwaith presennol, a sicrhau bod cyfathrebu da rhwng pobl sy'n darparu gwasanaethau. Felly, yn ôl y sylwadau a gafwyd gan awdurdodau, byddai effaith y Bil yn niwtral o ran cost, heblaw am y costau gweinyddol.

325. Byddai faint o fewnbwn sydd ei angen i sefydlu strategaeth yn dibynnu ar amgylchiadau o fewn awdurdodau lleol. Mae'r amcangyfrifon dangosol canlynol yn seiliedig ar drafodaethau a gafwyd gyda Cyngor Dinas a Sir Abertawe, sydd â strategaeth gwbl weithredol.
326. Byddai'n rhaid cynnal cyfres o gyfarfodydd rhwng staff a darparwyr awdurdodau lleol er mwyn sefydlu strategaeth cynhwysiant ariannol. Tybiwyd bod hyn yn cynnwys oddeutu pump o aelodau staff awdurdod lleol ar gyfartaledd (er mwyn cynnwys meysydd megis cynhwysiant cymdeithasol, Cymunedau yn Gyntaf, tai, yr amgylchedd a safonau masnach) ac oddeutu deg darparwr, y sector gwirfoddol neu sefydliadau eraill (byddai niferoedd yn uwch mewn rhai awdurdodau ac yn is mewn rhai eraill). Byddai angen i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal unwaith bob mis neu chwe wythnos dros gyfnod o chwe mis a byddai hyn yn cymryd hyd at hanner diwrnod gan gynnwys y gwaith paratoi.
327. Tybir y bydd angen i 14 o awdurdodau lleol (oddeutu dau o bob tri) sefydlu strategaeth o'r fath o ganlyniad i'r Bil.
328. Byddai cyfarfodydd parhaus yn debygol o fod yn chwarterol ac yn cymryd tua chwarter diwrnod. Dangosir y costau ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod.
329. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi nodi mewn ymateb i gais am gostau mai £31,630 yw cost swyddog datblygu cymunedol gan gynnwys argostau.
330. Costau yn y flwyddyn gyntaf: sefydlu dros 6 mis: 5 cyfarfod  $\frac{1}{2}$  diwrnod ar gyfer 5 aelod o staff =  $12.5 \text{ diwrnod} * 14 \text{ ALI} * £31,630 / 220 \text{ diwrnod gwaith} = £25,160$ . Un wythnos i ysgrifennu a chytuno 5 diwrnod \*  $14 * 31,630 / 220 \text{ diwrnod gwaith} = £10,064$ . Mae hyn yn dod i gyfanswm cost a amcangyfrifir i awdurdodau lleol o **£35,224** yn y flwyddyn gyntaf.
331. Costau yn y blynyddoedd dilynol: 4 cyfarfod  $\frac{1}{4}$  diwrnod ar gyfer 5 aelod o staff =  $5 \text{ diwrnod} * 22 \text{ ALI} * £31,630 / 220 \text{ diwrnod gwaith} = \mathbf{£15,815}$ .
332. Nid yw'r Bil yn nodi unrhyw ofynion penodol o ran gweithredu neu orfodi'r strategaeth, felly nid oes unrhyw gostau o'r fath wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (gweler paragraffau 338 i 340) ar gyfer costau gofyniad adrodd blynyddol awdurdodau lleol).
333. Mae adran 9(1)(d) yn nodi y dylai strategaeth cynhwysiant ariannol amlinellu ymhellach sut mae awdurdod lleol yn bwriadu hwyluso mynediad am ddim at wasanaethau addysg a rheoli ariannol ar-lein (naill ai drwy lyfrgelloedd neu fel arall). Nid oes unrhyw gostau wedi eu cynnwys yn y Bil o ran y gofyniad am fynediad am ddim yn ymwneud â llyfrgelloedd, gan nad oes unrhyw awdurdodau lleol yng Nghymru yn codi tâl am ddefnyddio'r rhyngwyd mewn llyfrgelloedd ar hyn o bryd.



*Effaith strategaeth cynhwysiant ariannol ar sefydliadau eraill a'r trydydd sector:*

334. O ran y gost o sefydlu strategaeth cynhwysiant ariannol, tybir y byddai awdurdodau lleol, ar gyfartaledd, yn cynnwys deg sefydliad allanol i gyfrannu at ffurfio ac yna y byddai cyfarfodydd parhaus yn cael eu cynnal yn ymwneud â'u strategaethau cynhwysiant ariannol. Os tybir y bydd gan awdurdodau lleol gostau cyflog tebyg, yna byddai'r costau cyfunol ar gyfer y sefydliadau hyn ddwywaith cymaint â'r costau i awdurdodau lleol, pan dybir bod pum aelod o staff yn cymryd rhan.
335. Ni fydd yr holl sefydliadau hyn yn y trydydd sector o reidrwydd; byddai darparwyr fel yr heddlu wedi eu cynnwys ymhlith y sefydliadau a nodir yma.
336. Costau yn y flwyddyn gyntaf: sefydlu dros 6 mis: 5 cyfarfod  $\frac{1}{2}$  diwrnod ar gyfer 10 aelod o staff =  $25 \text{ diwrnod} * 14 \text{ ALI} * \text{£}31,630 / 220 \text{ diwrnod gwaith} = \text{£}50,320$ .
337. Costau yn y blynyddoedd dilynol: 4 cyfarfod  $\frac{1}{4}$  diwrnod ar gyfer 10 aelod o staff =  $10 \text{ diwrnod} * 22 \text{ ALI} * \text{£}31,630 / 220 \text{ diwrnod gwaith} = \text{£}31,630$ .

*Y gost i awdurdod lleol o gynhyrchu adroddiad blynyddol ar strategaeth cynhwysiant ariannol*

338. O ran y gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol, dywedodd awdurdodau lleol eu bod yn amcangyfrif y byddai adroddiad o'r fath yn cymryd amser swyddog cyfwerth ag wythnos i'w ddrafftio a'i brosesu trwy eu system. O gymryd yr amcangyfrif gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mai £31,630, gan gynnwys argostau, yw cost swyddog datblygu cymunedol, dyma amcangyfrif cyffredinol o'r gost i bob awdurdod ar y sail hon:
339.  $5 \text{ diwrnod} * 22 \text{ awdurdod lleol} * \text{£}31,630 / 220 \text{ diwrnod gwaith} = \text{£}15,815$ .
340. Nid oes unrhyw beth yn cael ei gynnwys o ran y costau o gynhyrchu canllawiau neu orfodi yn gysylltiedig â'r gofyniad hwn gan nad yw hyn yn un o ofynion y Bil.

**Cynigion y Bil o ran cyngor ar reoli ariannol (adrannau 11 i 13 y Bil)**

*Plant a fu'n derbyn gofal gynt (adran 11)*

341. O dan Adran 103 Deddf *Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014*, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i 'gyfeillio, cynghori a chynorthwyo' unigolyn a oedd yn derbyn gofal ganddynt yn y gorffennol, gyda'r bwriad o hybu ei les. Mae Adran 11 y Bil hwn yn ymestyn hyn yn ymarferol i gynnwys darparu cyngor ar faterion ariannol, er mwyn gwella gallu ariannol yr unigolyn. Ymhen amser, bydd hyn yn adeiladu ar yr addysg ariannol y mae eisoes wedi ei derbyn

yn rhan o'i daith drwy'r ysgol, gyda'r diogelwch ychwanegol a ddarperir gan adran 7, ac yn cynorthwyo eu prosesau gwneud penderfyniadau ariannol fel oedolion.

342. Mae awdurdodau lleol eisoes yn cefnogi a monitro lle mae'r rhai sy'n gadael gofal yn mynd tan eu bod yn 21 oed ac mae pa un a eir i unrhyw gostau ychwanegol yn dibynnu ar ba wybodaeth oedd yn ofynnol yn rhan o'r monitro. Byddai unrhyw newidiadau i'r gofynion adrodd yn effeithio ar systemau TG a byddai angen cysylltu unrhyw newidiadau â'r fframwaith canlyniadau a amlinellir yn y *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014* newydd. Ni ragwelir y bydd y Bil yn achosi gofynion adrodd ychwanegol neu na fyddai'n cydfynd â'r fframwaith canlyniadau yn Neddf 2014.
343. Darperir cymorth i blant sy'n derbyn gofal yn gyffredinol trwy weithwyr gadael gofal cymdeithasol tan y byddant yn 21 oed, a fyddai'n cynnwys cyngor ar gynhwysiant ariannol. O ran sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar wefannau'r awdurdodau lleol neu ddarparu gwasanaethau cyfeirio, trafodir effaith hyn yn yr adran yn ymwneud â chyngor cyfeirio (paragraffau 347 i 350). Ni welwyd unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd hyn yn achosi costau ychwanegol i awdurdodau lleol.
344. Roedd dystiolaeth gan awdurdodau lleol yn ymateb i gais uniongyrchol am wybodaeth yn ymwneud ag effaith y Bil yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn debygol o gadw mewn cysylltiad â phobl sy'n gadael gofal dros 21 mlwydd oed os ydynt yn agored i niwed neu fod ganddynt anghenion parhaus, felly ni ragwelir y bydd y Bil yn ychwanegu costau ychwanegol i'r grŵp hwn.
345. Nodwyd gan un awdurdod y gallai costau posibl godi pe byddai, er enghraifft, y trydydd sector yn cael ei gomisiynu i ddarparu cyrsiau neu weithdai. Byddai rhedeg cyrsiau o'r fath mewn ardaloedd gwledig yn ychwanegu costau ychwanegol hefyd, oherwydd costau cludiant. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai angen cyrsiau ychwanegol na hyfforddiant un i un oherwydd y Bil hwn.
346. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu i gyngor 'priodol' gael ei ddarparu, a'u cyfrifoldeb nhw fydd dyfarnu'r lefel angenrheidiol o ymyrraeth gyda phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal ganddynt gynt. Mewn llawer o achosion, gall hyn olygu darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar un achlysur ar adeg briodol. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r swyddogaeth y mae'r adran hon o'r Bil yn ei rhoi iddynt i wneud ymyrraethau dyfnach.
347. Er na ddarparodd awdurdodau lleol unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai goblygiadau cost yn ymwneud â rhoi rhannau o'r Bil sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal ar waith, mae'r Bil yn darparu diogelwch ychwanegol pwysig i ddeddfwriaeth bresennol i sicrhau y byddai gwasanaeth cyson yn cael ei

ddarparu i bob plentyn sy'n derbyn gofal.

*Gwybodaeth ynglŷn â ffynonellau cyngor (adran 12)*

348. Mae Adran 12 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth ar eu gwefannau am lle y gall dinasyddion gael cyngor am reoli ariannol. Gellir cydgysylltu datblygiad gwasanaeth cyfeirio ar y we a chyhoeddi gwybodaeth a chyngor.

349. Darparodd Cyngor Sir Penfro enghraifft o'i wasanaeth cyfeirio presennol ar y we. Tybiwyd y byddai'r gost o ddarparu taflen a gwasanaeth cyfeirio syml ar y we, i'r awdurdodau hynny nad yw'r adnoddau hyn ganddynt eisoes, yn cymryd diwrnod y flwyddyn i'w cynllunio a'u cynnal. Byddai gan rai o'r awdurdodau adnoddau o'r fath ar waith eisoes a byddai cyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhwng awdurdodau neu dempled canolog i'w ddarparu i gadw costau mor isel â phosibl. Tybiwyd y byddai dull cyffredin a rhannu adnoddau yn golygu y byddai angen i awdurdodau lleol gynhyrchu adnoddau o'r fath o'r cychwyn a byddai hyn yn un diwrnod o fewnbwn y flwyddyn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd y darparwyd amcangyfrifon ar eu cyfer.

350.  $1 \text{ diwrnod} * 22 \text{ awdurdod lleol} * \text{£}31,630 / 220 \text{ diwrnod gwaith} = \text{£}3,163 \text{ y flwyddyn.}$

*Cyngor a gwybodaeth i fyfyrwyr (adran 13)*

351. Bydd effaith y Bil hwn ar sefydliadau addysg pellach ac uwch o ganlyniad i'r Bil yn fach iawn. Mae'n debygol y byddai'r sefydliadau hynny nad oes ganddynt wasanaeth cyfeirio yn cael eu hannog i gael adnodd o'r fath ar eu gwefan. Mae paragraff 349 yn rhoi amcangyfrif o'r diwrnodau y byddai'n eu cymryd i ddarparu taflen a gwasanaeth cyfeirio syml ar y we. Rydym wedi tybio y byddai angen 14 diwrnod y flwyddyn i ddarparu gwasanaeth cyfeirio syml ar y we, wedi'u dosbarthu ar draws y 28 sefydliad addysg pellach ac uwch yng Nghymru.

352.  $1/2 \text{ ddiwrnod} * 28 \text{ sefydliad addysg bellach ac uwch} * \text{£}31,630 / 220 \text{ diwrnod gwaith} = * \text{£}2,013 \text{ y flwyddyn.}$

353. Mae Adran 13 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn eu hardal yn darparu gwybodaeth am reoli ariannol i fyfyrwyr.

354. Er nad ydynt wedi eu cynnwys ar wyneb y Bil, rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio cyfleoedd fel y rhai a ddarperir gan eu swyddogaeth o asesu cymhwysedd ar gyfer cymorth myfyrwyr i ymgeiswyr addysg uwch i gynnig gwybodaeth, arweiniad a chyfeirio ar gyngor ar faterion ariannol.

355. Mae costau taflen y gellir ei hanfon at bob ymgeisydd am fenthyciad i fyfyrwyr, fel rhan o ohebiaeth sy'n bodoli'n barod, wedi cael eu hamcangyfrif ar sail taflen A3 dwy ochr wedi ei phlygu o ansawdd 170gsm. Cyfrifwyd nifer y taflenni y byddai eu hangen trwy gymryd y nifer diweddaraf o fyfyrwyr israddedig addysg uwch sy'n hangu o Gymru a gofrestrodd yn 2012/13, ychwanegu 10 y cant a thalgrynnu'r nifer ym mhob awdurdod i fyny i 1,000, 2,000, 5,000 neu 10,000 yn dibynnu ar y nifer ym mhob awdurdod lleol yn y flwyddyn honno.
356. Yn 2012-13, roedd 39,575 o gofrestriadau blwyddyn gyntaf, yn ystod y flwyddyn, o fyfyrwyr sy'n hangu o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU.
357. Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn ar gyfer pob awdurdod lleol, mae costau wedi eu priodoli gan chwilio am gostau argraffu ar y we. Er enghraifft, yn 2012/13 roedd 1,845 o gofrestriadau myfyrwyr blwyddyn gyntaf israddedig sy'n hangu o Gymru yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gan ychwanegu cyfran o'r 121 o fyfyrwyr nad yw eu hawdurdod lleol yn hysbys a 10 y cant ychwanegol i roi hyblygrwydd ar gyfer twf, mae hyn yn gwneud cyfanswm o 2,036 o fyfyrwyr. Caiff nifer y taflenni yr amcangyfrifir y bydd eu hangen ei dalgrynnu i fyny i 5,000 i gyd-fynd â'r bandiau cost ym mharagraff 355, felly mae costau wedi eu hamcangyfrif fel bod yn £319 + TAW ar gyfer ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. **£6,598** y flwyddyn fyddai cyfanswm y gost ar gyfer pob awdurdod yn ôl y tybiaethau hyn. Dylid nodi bod costau dylunio wedi eu cynnwys yn yr adran cyfeirio at gyngor.

### **Galw am wasanaethau – yr effaith ar sefydliadau eraill gan gynnwys y trydydd sector**

358. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau cynghori rheng flaen yng Nghymru, gan gynnwys cyngor a chymorth ynglŷn â rheoli arian. Yn ogystal â'i gynllun *Cyngor Da: Bywyd Da* mewn partneriaeth â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2014 gynllun grantiau £1 filiwn y flwyddyn ar gyfer sefydliadau dielw annibynnol sy'n darparu cyngor i bobl ledled Cymru.<sup>75</sup> Fodd bynnag, nododd Adolygiad o Wasanaethau Cynghori Llywodraeth Cymru<sup>76</sup> ym mis Mawrth 2013 gynnydd tebygol i'r rhai sydd angen budd-dal lles arbenigol, cyngor ar ddyled a thai, yn ogystal â chynghori ar arian, o ganlyniad i ddiwygio lles. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Bil yn ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol yn datblygu'r cysylltiadau angenrheidiol gyda'r gwasanaethau cynghori hynny ac yn gallu cyfeirio dinasyddion i'r cyfeiriad mwyaf priodol.
359. Mae'r trydydd sector yn gweld cynnydd yn y galw i ymdopi ag effaith diwygio lles ac amodau economaidd yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r Bil hwn yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth yn fwy cydgysylltiedig. Felly prin fydd effaith y Bil o ran costau ychwanegol i sefydliadau o'r fath. Mae pobl â gwell addysg ariannol yn llai tebygol o fod angen gwasanaethau'r trydydd sector. Os daw pobl i gael cyngor yn gynharach maent yn debygol o fod angen llawer llai o ran cyngor a

chymorth na rhywun sy'n dod i gael cymorth pan ei fod mewn trafferthion ariannol difrifol.

360. Nid amlygodd y dystiolaeth a ddarparwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan gyrff y trydydd sector gostau ychwanegol i'r trydydd sector.

**Tabl 1 Costau'n gysylltiedig â gofynion y Bil**

| <i><b>COSTAU BLYNYDDOL £</b></i> | Canllawiau<br>cwrwclwm ac<br>ymgyngori | Gweithredu<br>gofyniad y<br>cwrwclwm | Monitro<br>cwrwclwm yr<br>awdurdod<br>Lleol | Adroddiad<br>blynyddol<br>Estyn a rhan<br>o'r<br>arolygiadau | Estyn -<br>adroddiad<br>thematig<br>blynyddol | Stratagaeth<br>yr awdurdod<br>lleol | Adroddiad<br>blynyddol yr<br>awdurdod<br>lleol | Cyfeirio at<br>gyngor yr<br>awdurdod<br>lleol | Cyngor a<br>gwybodaeth i<br>fyfyrwyr | CYFANSWM -<br>Rhan o<br>arolygiadau<br>Estyn | CYFANSWM -<br>Adroddiad<br>thematig<br>Estyn yn unig |
|----------------------------------|--|--------------------------------------|---|--|---|-------------------------------------|--|---|--------------------------------------|--|--|
| Awdurdodau Lleol                 |  | 3,418,932                            | 880,000                                     |  |   | 15,815                              | 15,815   | 3,163   | 6,598                                | 4,340,323                                    | 4,340,323  |
| Estyn                            |  |                                      |   | 160,000  | 40,000  |                                     |  |   |                                      | 160,000                                      | 40,000   |
| Addysg Bellach ac Uwch           |  |                                      |   |  |   |                                     |  |   | 2,013                                | 2,013  | 2,013  |
| Arall                            |  |                                      |   |  |   | 31,630                              |  |   |                                      | 31,630                                       | 31,630   |
| Llywodraeth Cymru                |  |                                      |   |  |   |                                     |  |   |                                      | 0  | 0  |
|                                  |  |                                      |   |  |   |                                     |  |   |                                      | <b>4,533,966</b>                             | <b>4,413,966</b>                                     |
| <b><i>ANGHYLCHOL</i></b>         |  |                                      |   |  |   |                                     |  |   |                                      |  |  |
| Awdurdodau Lleol                 |  | 1,139,644                            |   |  |   | 35,224                              |  |   |                                      | 1,174,868                                    | 1,174,868  |
| Estyn                            |  |                                      |   | 50,300   |   |                                     |  |   |                                      | 50,300                                       | 0  |
| Addysg Bellach ac Uwch           |  |                                      |   |  |   |                                     |  |   |                                      | 0  | 0  |
| Arall                            |  |                                      |   |  |   | 50,320                              |  |   |                                      | 50,320                                       | 50,320   |
| Llywodraeth Cymru                | 175,000                                |                                      |   |  |   |                                     |  |   |                                      | 175,000                                      | 175,000  |
|                                  |  |                                      |   |  |   |                                     |  |   |                                      | <b>1,450,488</b>                             | <b>1,400,188</b>                                     |

Sylwer - Cysylltwyd â Llywodraeth Cymru ar gyfer costau o ran sut y byddai'r Bil yn effeithio arni. Bydd angen disodli costau bras sydd wedi eu cynnwys yng nghyswllt Llywodraeth Cymru pan fydd yr amcangyfrifon hyn ar gael.

## Tabl 2 Costau cyffredinol dros bum mlynedd ar ôl gweithredu

Mae'r tabl hwn yn dangos sut y gellid disgwyl i gostau ostwng dros y pum mlynedd ar ôl gweithredu'r Bil. Mae'r tabl hwn yn tybio, pan gaiff ei weithredu, y bydd cwricwlwm gosod un flwyddyn ac arweiniad cysylltiedig ac yna bydd hyn yn cael ei weithredu ar ddechrau'r flwyddyn ganlynol. Felly, er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r flwyddyn ysgol yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol, ceir dwy ran o dair o'r costau pontio ym mlwyddyn 2 a thraean ym mlwyddyn 3. Mae'r un fath yn wir ar gyfer costau Estyn.

|                                     | Blwyddyn 1     | Blwyddyn 2       | Blwyddyn 3       | Blwyddyn 4       | Blwyddyn 5       | Cyfanswm £        |
|-------------------------------------|----------------|------------------|------------------|------------------|------------------|-------------------|
| Awdurdodau lleol                    | 76,615         | 3,960,442        | 4,720,204        | 4,340,323        | 4,340,323        | <b>17,437,907</b> |
| Estyn                               | 0              | 140,200          | 176,767          | 160,000          | 160,000          | <b>636,967</b>    |
| Addysg Bellach ac Uwch              | 2,013          | 2,013            | 2,013            | 2,013            | 2,013            | <b>10,064</b>     |
| Arall                               | 81,950         | 31,630           | 31,630           | 31,630           | 31,630           | <b>208,470</b>    |
| Llywodraeth Cymru                   | 175,000        | 0                | 0                | 0                | 0                | <b>175,000</b>    |
| <b>Cyfanswm</b>                     | <b>335,578</b> | <b>4,134,285</b> | <b>4,930,614</b> | <b>4,533,966</b> | <b>4,533,966</b> | <b>18,468,409</b> |
| Adroddiad Estyn yn unig             | 0              | 26,667           | 40,000           | 40,000           | 40,000           | <b>40,000</b>     |
| <b>Cyfanswm - adroddiad yn unig</b> | <b>335,578</b> | <b>4,020,752</b> | <b>4,793,847</b> | <b>4,413,966</b> | <b>4,413,966</b> | <b>17,871,442</b> |

## Manteision addysg ariannol

361. Mae manteision rhoi'r Bil hwn ar waith yn debygol o fod yn llawer mwy na'r costau yn y tymor hir. Ceir cyfoeth o dystiolaeth sy'n nodi bod gwell addysg ariannol yn arwain at fwy o fanteision ariannol a lles.
362. Cynhyrchodd y Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes (CEBR) adroddiad ar gyfer Money Saving Expert yn awgrymu y gallai cyfanswm y manteision o roi addysg ariannol ar waith gynhyrchu £3.4 biliwn y flwyddyn i'r DU.<sup>77</sup> Trwy drosi'r manteision hyn i Gymru ar sail cyfran y boblogaeth (4.82%), **byddai hyn yn darparu cyfanswm budd yn ymwneud â Chymru o tua £162 miliwn y flwyddyn**. Byddai'r buddion hyn yn cynnwys arbed £28.9 miliwn mewn costau diweithdra, yn arbed £86.8 miliwn o ran gwell cynilion ar gyfer ymddeol, £34.5 miliwn mewn refeniw treth ychwanegol yn seiliedig ar lefelau ansolfedd is ac arbed £11.8 miliwn trwy leihau achosion o gam-werthu i ddefnyddwyr.
363. O ran y manteision addysg ariannol **gwell** i unigolion, mae Llywodraeth yr Alban yn adrodd y gall derbyn addysg ariannol fel plentyn olygu y bydd pobl hyd at £32,000 yn well eu byd rhwng 35 a 49 oed.<sup>78</sup> Bydd tua 35,000 o blant yng Nghymru yn 7 oed pan ddaw'r Bil i rym.
364. Mae gwefan The Money Saving Expert yn cynnig enghraifft syml o sut y gellir gweld manteision addysg ariannol yn syth, gan nodi:

That can pay real dividends – a couple of years ago, in an experiment filmed for ITV1's Tonight programme, I was parachuted into a school to see what I could teach a dozen 15-year-olds in a 'Teen Cash Class'.

The results were astonishing. After just one day, the kids went home and saved their parents a combined £6,000. That leads to two obvious conclusions: first, there's a need for financial education in schools; and second, there's a need for financial education of adults too. After all, if their children can save them so much, not everything's right. The class worked so well, I was asked to convert the lesson plans into a free guide which I'm pleased to say has now been downloaded by teens, parents and teachers nearly half a million times.<sup>79</sup>

365. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid o £1 filiwn y flwyddyn ariannol ar gyfer gwasanaethau cynghori rheng flaen yn 2014-15, gyda dyraniadau dangosol ar gyfer 2015-16 a 2016-17.<sup>80</sup> Mae hefyd yn darparu cyllid blynyddol o £2.2 filiwn i Gyngor ar Bopeth Cymru ddarparu'r rhaglen *Cyngor Da, Bywyd Da*.
366. Mae Adroddiad Adolygiad o Wasanaethau Cynghori Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013, yn datgan:

Using Citizens Advice statistics as a representation of advice supply and trends in demand for specialist advice services is estimated that demand will increase without enhanced financial education per year until 2017 as follows:

- Debt advice demand will increase between 8-10%



- The Money Advice Services forecast for demand for money advice in Wales estimates an increase of 23% in 2011 – 2013, continuing the current trend in increase for demand of around 9% per annum.<sup>81</sup>

367. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y gallai'r wladwriaeth arbed £2.98 ar gyfer pob £1 sy'n cael ei gwario ar gyngor dyled.<sup>82</sup>

368. Edrychodd gwaith ymchwil gan y Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd ym Mhrifysgol Essex ar gyfer y Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr ar oedolion â gallu ariannol uchel ac isel rhwng 1991 a 2006. Canfuwyd ganddo bod meddu ar allu ariannol uchel yn hytrach nag isel ym 1991 yn gysylltiedig ag incymau cartref uwch yn y blynyddoedd diweddarach, o tua £120 y mis i ddyinion a £60 i fenywod.<sup>83</sup>

369. Bydd cynyddu llythrennedd ariannol y boblogaeth yng Nghymru yn sicrhau manteision sylweddol o ran lleihau'r beichiau ar awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector. Dylai effaith y ffaith fod pobl yn fwy addysgedig o ran rheoli eu cyllid a chael eu grymuso i wneud dewisiadau mwy gwybodus olygu y bydd awdurdodau lleol yn gwario llai ar geisio cael gafael ar dreth gyngor heb ei thalu, ôl-ddyledion mewn tai cymdeithasol, dod o hyd i dŷ arall i bobl sy'n ddigartref oherwydd dyledion heb eu talu, a hefyd llai o alw ar sefydliadau trydydd sector i gynorthwyo pobl sydd mewn trafferthion ariannol difrifol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi pwysleisio'r 'manteision busnes eglur i gefnogi gwaith cynhwysiant ariannol ar gyfer awdurdod lleol', gan fod unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ariannol yn fwy tebygol o fod yn ddigartref neu o fod angen gwasanaethau cefnogaeth neu ofal (gweler paragraff 143 y Memorandwm Esboniadol hwn).

## 10. Canlyniadau anfwriadol

370. Y bwriadau a'r dyheadau sy'n sail i ddarpariaethau'r Bil hwn yw y bydd pobl o bob oed yng Nghymru yn fwy llythrennog yn ariannol ac yn llai tebygol o wneud dewisiadau ariannol niweidiol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig fod yn wyladwrus o unrhyw ganlyniadau anfwriadol a pherygl efallai na fydd y canlyniadau yn hollol fel y cynlluniwyd. Mae wedi bod yn bwysig ystyried materion o'r fath wrth ddatblygu'r Bil felly.
371. Bydd yn bwysig sicrhau bod gwybodaeth am arfer ariannol penodol yn cael ei darparu'n briodol ac yn gyfrifol er mwyn osgoi effaith i'r gwrthwyneb i'r hyn a fwriedir; denu plant a phobl ifanc at gynhyrchion a gweithgareddau pan mai'r bwriad yw tynnu sylw at berygl a chynghori gofal. Byddai'n destun gofid arbennig pe byddai esbonio sut mae cerdyn credyd yn gweithio a sut y gellir ei ddefnyddio yn arwain at bobl ifanc yn darganfod y cyfle hwn am y tro cyntaf a bod yn fwy tebygol o fynd i ddyledion cardiau credyd mawr a oedd yn anghynaliadwy. Yn yr un modd, pe byddai gwybodaeth yn cael ei darparu am gamblo, peiriannau ffrwythau neu fwcis er enghraifft, gallai hyn gael y canlyniad anfwriadol o ennyn diddordeb mewn gweithgaredd o'r fath.
372. Ystyrir bod y canlyniad anfwriadol hwn yn annhebygol ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu ei fod yn risg sylweddol, cyn belled ag y bo'r canllawiau cywir ar waith ar sut y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ymdrin â phwnc o'r fath a bod unrhyw gynnwys a deunyddiau yn addas i oedran. Awgrymir y gellid cynnwys materion ariannol mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon fel bod athrawon yn ddigon medrus a hyfforddedig erbyn yr amser y maent yn gyfrifol am ei ddarparu. Byddai angen i drefniadau datblygu proffesiynol parhaus eraill gael eu gwneud ar gyfer athrawon sy'n addysgu eisoes ac ar gyfer ysgolion yn fwy cyffredinol.
373. Rhagwelir y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn gwneud defnydd o arbenigwyr allanol a chynrychiolwyr y sector ariannol ei hun. Bydd angen gofalu bod eu mewnbwn yn ddiuedd ac na ystyrir ei fod yn hyrwyddo cynhyrchion unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu benodol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun addysg bellach ac uwch pan roddir cyngor ar y gwahanol ddewisiadau bancio sydd ar gael i fyfyrwyr.
374. Cynhyrchwyd y Bil hwn mewn cyfnod lle mae llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu pwysau cyllidebol difrifol ac mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol yn parhau i wynebu caledi am rai blynyddoedd. Ceir perygl y gallai ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gynhyrchu dogfennau mwy strategol arallgyfeirio adnoddau o wasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, fel y pwysleisiwyd yn y Memorandwm Esboniadol ac y cydnabuwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei hun (gweler paragraff 143), ceir hefyd resymau ariannol pendant pam y gallai cael strategaeth cynhwysiant ariannol effeithiol fod o wir fudd i awdurdodau lleol, yn enwedig yn y tymor hir. Byddai gallu Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar gynhyrchu strategaethau cynhwysiant ariannol hefyd yn

galluogi'r gwaith hwn i gael ei wneud yn rhan o gynllunio strategol ehangach yr awdurdod os ystyrir bod hynny'n briodol.

## 11. Ystyriaethau cydraddoldeb

375. Yn achos y gofyniad cwricwlwm ar gyfer addysg ariannol, rhoddwyd ystyriaeth i unrhyw effaith andwyol ar grwpiau ethnig a ffydd penodol, pe byddai cynnwys y cwricwlwm yn groes i'w credoau er enghraifft.
376. Mae hyn wedi dangos pwysigrwydd rhoi hyblygrwydd i ysgolion o ran sut y maent yn bodloni'r gofyniad ar gyfer addysg ariannol fel y gellir gwneud hyn mewn ffordd sy'n briodol i'w hamgylchiadau lleol a demograffig. Er enghraifft, efallai y bydd ysgol â phoblogaeth Fwslimaidd sylweddol eisiau darparu addysg ariannol mewn ffordd sy'n cymryd cyfraith Shariah i ystyriaeth, yn enwedig wrth drafod cysyniadau benthyca a morgeisi. Byddai darparu canllaw neu fframwaith sy'n anstatudol ac felly'n hyblyg a heb fod yn rhwymol yn caniatáu hyn.
377. Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*. Mae'n rhaid iddynt hefyd hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu, a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu. Bydd yr egwyddorion hyn yn berthnasol pan fydd awdurdodau lleol yn arfer unrhyw swyddogaethau dan y Bil hwn.
378. Ceir dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus penodol ar gyfer awdurdodau lleol hefyd, er mwyn sicrhau gwell perfformiad o ran y ddyletswydd gyffredinol dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*, fel y nodwyd uchod. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb strategol ac amcanion, ymgysylltu â phobl briodol, ac asesu effaith polisiau ac arferion. Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau dan y Bil hwn, bydd awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn hefyd.
379. Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau dan y Bil hwn, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol wneud hynny yn unol â'u Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol dan *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993* neu unrhyw safonau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw dan *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011*.
380. Mae Adran 8(2) y Bil yn nodi bod yn rhaid i bob awdurdod lleol ymgynghori ag unigolion fel y gwêl yn briodol (gan gynnwys sefydliadau y mae'n ymddangos eu bod yn bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion i gymdeithas neu'r amgylchedd) cyn cyhoeddi eu strategaethau cynhwysiant ariannol. Dylai'r ddarpariaeth hon sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu yn digwydd gyda'r holl grwpiau perthnasol o bobl cyn cyhoeddi unrhyw strategaeth cynhwysiant ariannol. Dylai hyn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn ystyried effaith unrhyw

strategaeth ar y grwpiau hynny cyn cwblhau eu strategaeth.

381. Nid oes unrhyw ystyriaethau cydraddoldeb eraill a nodwyd fel rhai sy'n codi o ddarpariaethau'r Bil.

## 12. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

382. Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) wedi ei gynnwys yn Atodiad A y ddogfen hon. Mae'r CRIA yn ystyried effaith y *Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)* drafft ar blant yng Nghymru a'u hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

383. Mae cyngor a mewnbwn Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru wedi hysbysu'r gwaith o gyflawni'r CRIA.

384. I grynhoi, ystyrir bod y Bil yn cyd-fynd â'r CCUHP ac yn flaengar o safbwynt hawliau plant. Rhoddwyd sylw dyledus i'r confensiwn a hawliau plant wrth ddatblygu'r Bil sydd wedi cynnwys ymgynghori sylweddol gyda phlant a phobl ifanc eu hunain.

## 13. Adolygiad ôl-weithredu

385. Mae dulliau adolygu gweithrediad wedi eu cynnwys yn rhan o'r Bil. Mae Adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am gynnydd addysg ariannol, tra bod adran 8(4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar sut y maent wedi gweithredu eu strategaethau cynhwysiant ariannol. Mae'r ddau ofyniad adrodd yn rhai blynyddol.

386. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol, fel mater o arfer da, i adolygu effaith gyffredinol y ddeddfwriaeth maes o law, bum mlynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol er enghraifft. Fodd bynnag, penderfyniad i Weinidogion Cymru fydd hwn.

387. Mae adran 14 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddod â'r Ddeddf i rym, ar ôl iddi dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Disgrifir Adran 14(3) y Bil fel cymal "codiad haul" weithiau. Mae'n darparu y bydd y Ddeddf yn dod i rym yn awtomatig ar 1 Ionawr 2018 (os bydd unrhyw ran ohoni heb ei gweithredu gan Weinidogion Cymru erbyn y dyddiad hwnnw).

## Rhan 3: Nodiadau Esboniadol

### Adran 1: Trosolwg

388. Mae hyn yn darparu trosolwg o ddarpariaethau'r Bil.

### Adran 2: Dehongliad: “addysg ariannol” ac ati

389. Mae hyn yn nodi'r diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i'r Bil.

### Adran 3: Dehongliad: “awdurdod lleol”

390. Mae hyn yn diffinio 'awdurdod lleol' at ddibenion y Bil.

### Adran 4: Addysg ariannol i'w darparu mewn ysgolion a gynhelir

391. Mae hyn yn diwygio adran 101 *Deddf Addysg 2002* (“Deddf 2002”).

392. Adran 101 o Ddeddf 2002 sy'n llywodraethu cynnwys y cwricwlwm sylfaenol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r cwricwlwm sylfaenol yn berthnasol i bob disgybl rhwng 3 oed a diwedd addysg orfodol. Mae'n cyflwyno gofynion ar ysgolion a gynhelir ynghylch addysgu addysg grefyddol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith ac addysg rhyw.

393. Bydd y gwelliant hwn yn ychwanegu addysg ariannol at y rhestr o bynciau a addysgir yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol. Bydd y gofyniad i addysgu addysg ariannol yn berthnasol i'r ail, y trydydd a'r pedwerydd cyfnod allweddol (fel y'u diffinnir gan adran 103 o Ddeddf 2002).

### Adran 5: Sefydlu elfen addysg ariannol y Cwricwlwm Cenedlaethol

394. Mae adran 108(3) o Ddeddf 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion yn ymwneud â'r pynciau a addysgir yn yr ail, y trydydd a'r pedwerydd cyfnod allweddol. Efallai y bydd y gorchmynion yn nodi targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio a threfniadau asesu ar gyfer y pynciau hynny.

395. Bydd yr adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori, fel y bo'n briodol, gydag arbenigwyr perthnasol, cyn gwneud gorchymyn dan adran 108(3), sy'n ymwneud ag addysg ariannol.

### Adran 6: Adroddiad Blynyddol

396. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, ym mhob blwyddyn ariannol, adroddiad ar gynnydd addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

397. Gallai Gweinidogion Cymru, gyda 3 mis o rybudd, ei gwneud yn ofynnol i Estyn baratoi'r adroddiad.

#### **Adran 7: Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol**

398. Mae Adran 78 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014* yn cyflwyno dyletswyddau ar awdurdodau lleol ynghylch lles y plant sy'n derbyn gofal ganddynt. Bydd hyn yn ychwanegu dyletswydd ychwanegol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn derbyn addysg ariannol priodol o'r adeg y byddant yn saith oed.

#### **Adran 8: Yr awdurdod lleol i gyhoeddi strategaeth**

399. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth cynhwysiant ariannol y mae'n rhaid ei hadolygu o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i awdurdod lleol adrodd ar sut y gweithredodd ei strategaeth yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Cyn cyhoeddi'r strategaeth, mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori, fel y bo'n briodol, yn enwedig gyda'r trydydd sector.

#### **Adran 9: Cynnwys y strategaeth**

400. Mae hyn yn darparu rhestr o'r ffactorau y mae'n rhaid eu cyflwyno mewn strategaeth cynhwysiant ariannol. Gallai Gweinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr trwy orchymyn. Bydd gorchymyn yn dod i rym dim ond os yw wedi ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol (y weithdrefn gadarnhaol).

#### **Adran 10: Canllawiau**

401. Gallai Gweinidogion Cymru gyflwyno canllawiau ar strategaethau cynhwysiant ariannol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir.

#### **Adran 11: Cyngor i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol**

402. Mae hyn yn darparu i awdurdodau lleol gynnig cyngor priodol ar wasanaethau ariannol a rheoli ariannol i bobl ifanc. Mae'r ddarpariaeth yn berthnasol i bobl ifanc categori 1, 2 a 3 fel y'u diffinnir gan adran 104 *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014*.

#### **Adran 12: Gwybodaeth am ffynonellau cyngor**

403. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu, ar eu gwefan, manylion am ble i ddod o hyd i gyngor am reoli ariannol. Os bydd awdurdod lleol yn credu nad yw'r cyngor ar gael yn rhesymol, gallai ddarparu'r cyngor hwnnw (ond nid yw'n ofynnol iddo wneud hynny).

### **Adran 13: Cyngor i fyfyrwyr**

404. Mae hyn yn ei gwneud yn rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn darparu cyngor ar reoli ariannol i fyfyrwyr.

### **Adran 14: Cychwyn**

405. Mae hyn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddeddf trwy orchymyn. Gallai Gweinidogion Cymru gychwyn gwahanol ddarpariaethau ar wahanol ddiwrnodau a gallent hefyd wneud darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol neu drosiannol. Yn unol ag arfer safonol, nid oes unrhyw weithdrefn Cynulliad ar gyfer gorchymyn sydd ddim ond yn cychwyn darpariaethau'r Ddeddf. Fodd bynnag, bydd unrhyw orchymyn cychwyn sy'n cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol neu drosiannol yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu gan y Cynulliad Cenedlaethol (y weithdrefn negyddol).

406. Hefyd, mae adran 14(4) yn darparu y bydd unrhyw ddarpariaethau yn y Ddeddf, nad ydynt eisoes mewn grym, yn dod i rym ar 1 Ionawr 2018.

### **Adran 15: Teitl byr**

407. Mae hyn yn rhoi'r teitl byr 'Deddf Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) 2014' i'r Ddeddf.

## Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

### Cyflwyniad

1. Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) yn ystyried effaith y *Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)* drafft ar blant yng Nghymru a'u hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).
2. Cytundeb hawliau dynol rhyngwladol yw'r CCUHP sy'n berthnasol i bob plentyn ac unigolyn ifanc hyd at 18 oed. Cafodd ei gadarnhau gan y DU ym mis Rhagfyr 1991 a daeth i rym yn y DU ym mis Ionawr 1992.
3. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Confensiwn fel sail ar gyfer llunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004. Caiff hawliau plant yng Nghymru eu diogelu ymhellach gan *Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sylweddol o fewn y CCUHP a'i brotocolau dewisol.
4. Mae CRIAu yn ddull allweddol ar gyfer gweithredu'r CCUHP. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w cynnal fel ffordd o sicrhau y rhoddir sylw dyledus i hawliau plant wrth gyflwyno deddfwriaeth neu arfer swyddogaethau Gweinidogol.
5. Er bod y rhwymedigaethau hyn ar Weinidogion Cymru wrth iddynt gyflwyno deddfwriaeth, mae hefyd yn bwysig i Filiau Aelodau Preifat ystyried y CCUHP yn llawn a chynhyrchwyd y CRIA hwn i hysbysu'r cynigion yn y Bil.

### Diben y Bil a'i effaith ar blant

6. Nod y Bil yw mynd i'r afael â'r sefyllfa lle mae llawer o bobl yng Nghymru yn mynd i drafferthion ariannol oherwydd diffyg gwybodaeth a sgiliau wrth reoli arian. Gwaethygir y broblem hon gan dueddiad, yn yr hinsawdd economaidd anffafriol sydd ohoni, i bobl droi at fenthyg llog uchel, anghynaliadwy fel ffordd o ddatrys eu problemau ariannol.
7. Trafodir yr angen am y Bil yn fanwl yn y Memorandwm Esboniadol ac ni chaiff yr holl ddadleuon a gyflwynwyd eu hailadrodd yn y CRIA hwn. Fodd bynnag, un o'r prif grwpiau o bobl y mae'r Bil yn ceisio ei helpu yw plant a phobl ifanc eu hunain. Hysbyswyd y gwaith o baratoi'r Bil gan angen i fynd i'r afael â'r perygl y bydd pobl ifanc yn arbennig yn mynd i drafferthion ariannol oherwydd diffyg gwybodaeth ac addysg.
8. Er y gall problemau ariannol a'r heriau o reoli arian effeithio ar bob oedran a sector o gymdeithas, teimlir bod y cyfnod o fywyd o fod yn oedolyn ifanc yn adeg pryd y ceir perygl arbennig o uchel, a gellid dadlau mai yn y cyfnod hwn y mae ymyraethau addysg a chynhwysiant ariannol yn fwyaf hanfodol. Ystyrir felly y bydd y Bil hwn yn arbennig o fuddiol i blant a phobl ifanc wrth iddynt ddynesu at yr adeg bontio hon mewn bywyd.



9. Bydd y Bil yn darparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer addysg ariannol yng Nghymru trwy ei gwneud yn rhan statudol o'r cwricwlwm ysgol. Bydd yn wahanol i bwnc cwricwlwm cenedlaethol, lle caiff sylw i gynnwys penodol ei ragnodi i ysgolion, a bydd yn debycach i Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ac addysg sy'n gysylltiedig â gwaith o ran y ddarpariaeth – h.y. gorfodol ond bydd gan ysgolion hyblygrwydd o ran sut y maent yn ei darparu. Disgwylir y byddai Llywodraeth Cymru yn llunio fframwaith anstatudol, fel gydag ABCh, y dylai ysgolion ei dilyn, ond nad oes gorfodaeth arnynt i wneud hynny.
  
10. Mae'r Bil hefyd yn ceisio cryfhau swyddogaeth awdurdodau lleol wrth helpu pobl i osgoi mynd i drafferthion ariannol, trwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol. Dylai'r strategaeth amlinellu sut mae awdurdod lleol yn bwriadu annog trigolion i feithrin sgiliau mewn llythrennedd ariannol a rheoli ariannol, yn ogystal â sut y bydd yr awdurdod lleol yn hwyluso mynediad am ddim at wasanaethau addysg a rheoli ariannol ar-lein. Dylai'r strategaeth hefyd nodi sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n hybu cynhwysiant ariannol yn eu hardal.
  
11. Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno gofynion ar awdurdodau lleol o ran darparu cyngor ar reoli ariannol. Mae hyn yn cynnwys cyngor cyffredinol i'w trigolion, ond yn enwedig i blant a fu'n derbyn gofal gynt, ac i fyfyrwyr addysg bellach ac uwch sy'n astudio yn eu hardal.
  
12. Yn benodol, bydd y Bil yn effeithio ar blant a phobl ifanc drwy'r gofynion newydd yn y cwricwlwm a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar yr hyn yr addysgir iddynt yn yr ysgol. Byddant hefyd yn cael eu heffeithio gan y strategaethau cynhwysiant ariannol y bydd yn rhaid i awdurdodau eu rhoi ar waith. Disgwylir i bob un o'r rhain fod yn effeithiau hynod gadarnhaol, er y darperir dadansoddiad pellach yn y CRIA hwn gan gynnwys unrhyw risgiau neu ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'r Bil.
  
13. Trwy dderbyn addysg ariannol, dylai plant a phobl ifanc fod yn fwy galluog wrth wneud penderfyniadau ariannol ac mewn sefyllfa well i reoli eu harian a'u cyllidebau yn effeithiol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig ac yn fuddiol wrth iddynt symud i fod yn oedolion a bod angen iddynt gymryd cyfrifoldeb llawn am eu penderfyniadau a'u hamgylchiadau ariannol. Bydd y swyddogaeth a'r cyfrifoldebau a roddir i awdurdodau lleol i hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn ei gwneud yn fwy tebygol fod plant yn cael eu magu mewn cartref sy'n rheoli ei gyllid yn effeithiol, ac felly bydd o fudd i'w lles. Yn amlwg, mae llawer o faterion eraill yn hynod berthnasol hefyd, yn enwedig tlodi, ac mae ymyraethau eraill o'r fath y tu allan i gwmpas y Bil hwn.
  
14. Dylai pob grŵp o blant elwa ar yr ymyraethau cadarnhaol a wneir gan y Bil hwn ac ni ddylai fod effaith andwyol ar unrhyw grŵp penodol. Fodd bynnag, efallai y bydd mwy o angen addysg a chynhwysiant ariannol ar grwpiau penodol o blant nag eraill. Un enghraifft yw plant sy'n derbyn gofal, a dyna pam mae

darpariaethau penodol yn y Bil i awdurdodau lleol sicrhau bod y grŵp hwn o blant yn derbyn addysg ariannol a bod ganddynt gyfrifoldeb parhaus i ddarparu cyngor a gwybodaeth i'r rhai sy'n gadael gofal.

### **Dadansoddi effaith y Bil ar blant a'u hawliau o dan y CCUHP**

15. Mae'r Mesur yn berthnasol i nifer o Erthyglau yn y CCUHP. Yr Erthyglau mwyaf perthnasol a nodwyd yw Erthyglau 28 a 29, sy'n cyflwyno'r hawl i addysg ac i'r addysg hon ddatblygu personoliaeth a thalentau'r plentyn i'r eithaf. Mae'r Bil yn datblygu'r ddau hawl hyn gan ei fod yn cyflwyno agwedd newydd, berthnasol iawn i addysg statudol plant yng Nghymru a fydd yn eu helpu i fod yn unigolion mwy cyflawn a medrus wrth wynebu heriau fel oedolion ifanc a thrwy gydol eu bywydau.
16. Mae Erthygl 29 yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu personoliaeth a thalentau plant 'i'r eithaf'. Ar hyn o bryd, nid yw llythrennedd a gallu ariannol yn ddigon datblygedig mewn addysg ysgol a bydd cryfhau darpariaeth y sgiliau bywyd hanfodol hyn yn gwella'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i blant a phobl ifanc. Byddant yn dysgu am faterion ymarferol fel cyfraddau llog, pwysigrwydd cynilo, a pheryglon dyled, a fydd yn eu helpu i ddatblygu eu doniau a'u gallu 'i'r eithaf'.
17. Bydd cychwyn y gofyniad statudol yn 7 oed yn sicrhau, o oedran ifanc, bod plant yn derbyn gwybodaeth a phrofiadau dysgu hanfodol a fydd yn eu paratoi'n dda ar gyfer bod yn oedolion â gallu ariannol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod agweddau at arian a'r berthynas ag ef yn ffurfio ar oedran cynnar ac ystyriwyd hyn wrth baratoi'r Bil, a dyna arweiniodd at y penderfyniad i gychwyn y ddarpariaeth statudol o 7 oed. Er y gallai'r gofyniad cwricwlwm ddechrau'n gynharach, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i wrthddadleuon gan bobl ifanc y gallai hyn fod yn rhy ifanc mewn gwirionedd, neu o leiaf yn ddigon ifanc. Hefyd, ni fyddai absenoldeb gofyniad statudol yn atal cyfleoedd ar gyfer addysg ariannol yn iau na 7 oed beth bynnag.
18. Ystyriwyd y safbwyntiau hyn yn ofalus ac ystyriwyd mai dechrau Cyfnod Allweddol 2 (7 oed) fyddai'r adeg fwyaf addas i gychwyn yr hawl statudol i addysg ariannol.
19. *Rhoddir Erthyglau 28 a 29 ar waith dan y Bil.*
20. Mae Erthyglau 13 a 17 yn rhoi hawliau i blant o ran derbyn gwybodaeth. Dan Erthygl 13, mae gan blant yr hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw hyn yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill. Bydd y Bil yn darparu i blant yng Nghymru dderbyn gwybodaeth ac addysg berthnasol ar faterion ariannol drwy'r cwricwlwm a hefyd i'w cartrefi dderbyn mwy o wybodaeth a chyngor dan strategaethau cynhwysiant ariannol awdurdodau lleol. Ceir darpariaethau hefyd sydd â'r nod o sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth berthnasol pan fyddant yn gwneud cais ar gyfer addysg uwch ac yn ystod eu hamser fel myfyrwyr.

21. Yn yr un modd, mae Erthygl 17 yn rhoi'r hawl i blant gael gwybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Bydd y Bil yn hyrwyddo'r hawl hwn gan y bydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei sianelu drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau awdurdodau lleol i hybu cynhwysiant ariannol. Wrth gynnwys sefydliadau ariannol fel banciau a chymdeithasau adeiladu, bydd angen i ysgolion ac awdurdodau lleol fod yn wylidwrus o'r angen am amhleidioldeb ac atal hyrwyddo cynhyrchion ariannol a allai fod yn niweidiol i blant a phobl ifanc.

22. Y bwriad yn sicr yw i'r Bil *rymuso* plant a phobl ifanc a darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i reoli eu harian yn effeithiol a gwneud y penderfyniadau gorau ar gyfer eu hamgylchiadau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol trwy wella'r wybodaeth sydd ar gael iddynt a gwella'r cyfleoedd iddynt ddysgu sgiliau bywyd angenrheidiol.

23. *Rhoddir Erthyglau 13 a 17 ar waith dan y Bil.*

24. Dan Erthygl 12, mae gan blant yr hawl i ddweud beth maent yn ei gredu y dylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei chymryd i ystyriaeth. Ystyriwyd yr hawl hwn yn ofalus ac mae safbwyntiau plant a phobl ifanc wedi bod yn ganolog i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y cynigion ar gyfer y Bil hwn.

25. Cynhaliwyd arolwg gan Dîm Allgymorth a Chyswllt y Cynulliad yn ystod haf 2013 ar y cynigion cyffredinol cychwynnol. Cymerodd 195 o bobl ifanc o oedran ysgol uwchradd ran ac mae eu safbwyntiau wedi cael dylanwad sylweddol ar y Bil.

- O'r 195 o ymatebwyr o oedran ysgol uwchradd, roedd 77 y cant nad oeddynt yn cael digon o addysg i reoli eu harian yn effeithiol.
- Pan ofynnwyd a oedd ganddynt ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth o'r system ariannol i reoli eu harian yn synhwyrol ac yn effeithiol, dywedodd 67 y cant nad oedd ganddynt.
- Roedd 70 y cant o'r ymatebwyr yn ymwybodol o beryglon benthyccwyr diwrnod cyflog.
- Dywedodd 63 y cant eu bod yn deall y costau y byddant yn eu hwynebu yn y dyfodol a sut y byddant yn rhoi pwysau ar gyllidebu misol.
- Pan ofynnwyd iddynt am y ffordd orau o addysgu rheoli arian yn effeithiol a hyrwyddo arferion ariannol cyfrifol, yr ateb mwyaf cyffredin oedd 'cael gwersi yn yr ysgol gyda siaradwyr gwadd o'r diwydiant ariannol'.

26. Ymgynghorwyd ymhellach â phobl ifanc yn ystod gwanwyn 2014 a derbyniwyd 226 o ymatebion.

- Roedd 65 y cant yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau y darperir addysg ariannol yn yr ysgol.
- Dywedodd 67 y cant yr hoffent ddysgu mwy am bynciau fel treth, benthyciadau ac osgoi dyled.
- Roedd 71 y cant yn teimlo y byddai derbyn addysg ariannol yn yr ysgol yn eu paratoi'n well ar gyfer gwneud penderfyniadau ariannol da pan fyddant yn hŷn.

- Nid oedd 61 y cant o'r bobl ifanc yn cytuno y dylid darparu addysg ariannol yn yr ysgol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen.
- Roedd 84 y cant o'r farn y dylai mynediad at y rhyngrwyd fod ar gael am ddim mewn llyfrgelloedd.
- Roedd 78 y cant o'r farn y dylai awdurdodau lleol gyflawni swyddogaeth fwy o ran helpu pobl i reoli eu harian yn gyfrifol a hybu cynhwysiant ariannol.

27. Roedd y canlyniadau o ran dechrau addysg ariannol o Gyfnod Allweddol 2 yn peri syndod o ystyried y gefnogaeth gref i gynnwys addysg ariannol yn y cwricwlwm ac roedd hyn o bosibl yn adlewyrchu barn yr ystyriwyd bod 7 oed yn rhy ifanc. Cafodd hyn ei bwysu a'i fesur â dadleuon eraill bod ymyraethau cynnar sy'n briodol ar gyfer y lefel oedran yn arbennig o bwysig a daethpwyd i'r casgliad mai Cyfnod Allweddol 2 yw'r lefel orau ar gyfer cychwyn y gofyniad statudol.

28. Mae'r canfyddiad hwn hefyd yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod y ffordd yr addysgir cysyniadau ariannol yn briodol i oedran y dysgwr, a fyddai'n ystyriaeth a fyddai'n gynhenid i baratoi cwricwla beth bynnag. Felly, mae angen dealltwriaeth eang a hyblyg o addysg ariannol. Ni fyddai cyflwyno pynciau mwy datblygedig fel adlog, TAW a threthi, neu yswiriant diogelu taliadau yn briodol ar oedran rhy ifanc, er y gallai dulliau enghreifftiol syml o gynilo arian mewn 'cadw-mi-gei', defnydd sylfaenol o ddarnau arian neu rannu arian cinio wythnos dros bum diwrnod fod yn briodol.

29. Mae ymgysylltu ac ymgynghori â phobl ifanc wedi sbarduno'r gwaith o baratoi'r Bil a datblygu ei gynigion. Mae pobl ifanc wedi dweud yn eglur eu bod eisiau mwy o gyfleoedd i ddysgu am faterion ariannol a datblygu sgiliau perthnasol, ac y byddai mwy o sylw i hyn mewn ysgolion yn eu paratoi'n well ar gyfer heriau ariannol bywyd fel oedolyn. Sicrhawyd bod y cynigion yn y Bil yn cyd-fynd yn agos â'r hyn y mae pobl ifanc wedi ei ddweud a bod eu safbwyntiau wedi cael ystyriaeth lawn.

30. *Rhoddir Erthygl 12 ar waith dan y Bil.*

31. Mae Erthygl 25 yn nodi hawl plant sy'n derbyn gofal i gael adolygiad o'u sefyllfa yn rheolaidd. Mae sefyllfa benodol plant sy'n derbyn gofal o ran mynediad at addysg ariannol wedi ei hystyried wrth ddatblygu'r Bil. Mae Adran 7 y Bil yn cyflwyno dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant y maent yn gofalu amdanynt yn derbyn addysg ariannol. Er y byddai disgwyl iddynt dderbyn hyn yn yr ysgol drwy'r cwricwlwm, yn yr un modd â'u cyfoedion, mae adran hon y Bil yn cydnabod eu bod yn grŵp sy'n arbennig o agored i niwed ac y gallent fod yn fwy tebygol o gael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol. Teimlir felly bod y diogelwch ychwanegol a ddarperir gan adran 7 yn angenrheidiol. Mae hefyd yn briodol o gofio swyddogaeth rhianta corfforaethol awdurdodau lleol tuag at blant sy'n derbyn gofal.

32. Yn yr un modd, gellid dadlau bod mwy o angen cefnogaeth ar blant sy'n derbyn gofal o ran datblygu gallu ariannol pan fyddant yn oedolion ifanc a thu hwnt. Mae'r Bil yn cydnabod yr angen hwn ac yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i drefnu i blant a fu'n derbyn gofal dderbyn gwybodaeth a chynghori ar faterion ariannol. Unwaith eto, ystyrir bod hyn yn briodol oherwydd bod gan awdurdodau lleol, trwy eu swyddogaeth fel rhieni corfforaethol, gyfrifoldeb am les parhaus pobl ifanc yr oeddent yn gofalu amdanynt yn y gorffennol. Mae hefyd yn cyd-fynd â dyletswyddau yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014* ar awdurdodau lleol i gyfeillio, cynghori, a chynorthwyo pobl ifanc o'r fath.
33. *Perchir Erthygl 25 a gallai'r Bil ei rhoi ar waith.*
34. Mae Erthygl 26 yn datgan y dylai llywodraethau roi cymorth ariannol ychwanegol i blant sy'n rhan o deuluoedd mewn angen. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth i arian ychwanegol gael ei roi i blant dan amgylchiadau difreintiedig ond ei nod yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn meithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud y penderfyniadau ariannol gorau posibl ar gyfer eu hamgylchiadau. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i bobl ifanc sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig ac sy'n wynebu mwy o her ac anfantais yn ddiweddarach mewn bywyd, o'u cymharu ag eraill.
35. Mae'r Mesur yn cynnig hyblygrwydd o ran sut mae ysgolion yn darparu addysg ariannol. Bydd yn orfodol ond, yn wahanol i bwnc cwricwlwm cenedlaethol, byddai unrhyw ganllaw neu fframwaith yn anstatudol sy'n golygu y bydd ysgolion yn gallu teilwra eu darpariaeth mewn ffordd sy'n addas i'w demograffeg a'u hamgylchiadau lleol eu hunain. Byddai hyn yn caniatáu i ysgolion ddewis pynciau penodol i'w cynnwys, er enghraifft, peryglon benthyg diwrnod cyflog neu fenthycwyr arian didrwydded, pe byddai amddifadedd incwm yn broblem benodol yn eu dalgylch.
36. Er y rhagwelir y bydd addysg ariannol a chynhwysiant ariannol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â thlodi a'i drechu, cydnabyddir yn llwyr bod hwn yn fater llawer ehangach sydd angen ymyraethau llawer ehangach a dyfnach. Nid yw'r Bil yn honni ei fod yn ateb pob cwestiwn ar gyfer mater sy'n peri cymaint o broblemau, er y bydd yn ategu yn hytrach na rhwystro hawliau dan Erthygl 26.
37. Yn yr un modd, er na fydd y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio strategaeth cynhwysiant ariannol yn ymrwymo awdurdodau lleol yn uniongyrchol i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i blant o deuluoedd mewn angen, bydd angen i awdurdodau lleol gynllunio'n strategol i ddarparu llythrennedd ariannol a sgiliau rheoli ariannol gwell i'w trigolion. Dylai hyn wneud cyfraniad cadarnhaol wedyn at y rhai sydd angen mwy o gymorth i wneud y penderfyniadau ariannol cywir ar gyfer eu teuluoedd.

38. *Perchir Erthygl 26 a gallai'r Bil ei rhoi ar waith.*

39. Mae erthyglau 1-5 yn cynnwys egwyddorion cyffredinol y Confensiwn o ran pwysy'n cael eu diogelu, cadarnhad y dylai'r holl gyrff perthnasol weithio tuag at fuddiannau gorau plant, a rhyddid rhieni.

40. *Perchir Erthyglau 1 i 5 gan y Bil.*

#### **Yr effaith ar grwpiau penodol o blant**

41. Wrth baratoi'r Bil, rhoddwyd ystyriaeth i ba un a allai grwpiau penodol o blant gael eu heffeithio ai peidio. Aethpwyd i'r afael â rhai o'r rhain uchod wrth gyfeirio at Erthyglau penodol, er enghraifft plant sy'n derbyn gofal, a phlant o gefndiroedd difreintiedig.

42. Ceir perygl y gallai plant a addysgir yn rhywle ac eithrio'r ysgol fod y tu allan i gyrraedd y gofyniad cwricwlwm ar gyfer addysg ariannol. Yn yr un modd, mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i sut y gallai pobl eraill y tu allan i addysg ffurfiol, fel troseddwy'r ifanc, dderbyn addysg ariannol. Gellid dadlau bod y grwpiau hyn o bobl ifanc mewn angen arbennig o addysg ariannol.

43. Dan adran 19 *Deddf Addysg 1996*, mae'n rhaid i awdurdodau lleol drefnu i addysg addas gael ei darparu mewn mannau ac eithrio'r ysgol i'r plant hynny o oedran ysgol gorfodol sydd, oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall, na fyddant efallai'n derbyn addysg addas oni bai y gwneir trefniadau o'r fath ar eu cyfer.<sup>iii</sup>

44. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol felly i ddarparu addysg addas i ddisgyblion y tu allan i'r ysgol ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol na fyddent yn derbyn unrhyw addysg fel arall. Dylai hyn gynnwys y cwricwlwm llawn er bod perygl na fyddai elfennau'n cael eu darparu, gan gynnwys addysg ariannol. Mae'r ddarpariaeth o addysg ariannol ar gyfer y rhai a addysgir y tu allan i'r ysgol yn faes y bydd angen ei ystyried ymhellach wrth roi'r gofyniad cwricwlwm ar waith.

45. Bydd yr hyblygrwydd a roddir i ysgolion wrth ddarparu addysg ariannol yn bwysig lle mae natur poblogaeth yr ysgol yn dylanwadu ar ba gynnwys allai fod yn briodol. Mae'r Bil wedi ceisio ystyried sut y gellir parchu a diwallu anghenion grwpiau ffydd benodol. Er enghraifft, efallai y bydd ysgol â phoblogaeth Fwslimaidd sylweddol yn dymuno darparu addysg ariannol mewn modd sy'n rhoi ystyriaeth i gyfraith Shariah, yn enwedig wrth drafod cysyniadau benthyca a morgeisi.

---

<sup>iii</sup> Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw ar y ddarpariaeth o addysg y tu allan i'r ysgol yng Ngylchlythyr 47/2006, [Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion](#).

## **Canlyniadau a risgiau anfwriadol**

46. Y bwriadau a'r dyheadau sy'n sail i *Fil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)* yw y bydd plant a phobl ifanc yn elwa ac y bydd eu hawliau dan y CCUHP yn cael eu hategu a'u datblygu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig fod yn wylidwrus o unrhyw ganlyniadau anfwriadol a pherygl efallai na fydd y canlyniadau yn hollol fel y cynlluniwyd. Mae wedi bod yn bwysig ystyried materion o'r fath wrth ddatblygu'r Bil felly.
47. Bydd yn bwysig sicrhau bod gwybodaeth am arfer ariannol penodol yn cael ei darparu'n briodol ac yn gyfrifol er mwyn osgoi effaith i'r gwrthwyneb i'r hyn a fwriedir; denu plant a phobl ifanc at gynhyrchion a gweithgareddau pan mai'r bwriad yw tynnu sylw at berygl a chynghori gofal. Byddai'n destun gofid arbennig pe byddai esbonio sut mae cerdyn credyd yn gweithio a sut y gellir ei ddefnyddio yn arwain at bobl ifanc yn darganfod y cyfle hwn am y tro cyntaf a bod yn fwy tebygol o fynd i ddyledion cardiau credyd mawr a oedd yn anghynaliadwy. Yn yr un modd, pe byddai gwybodaeth yn cael ei darparu am gamblo, peiriannau ffrwythau neu fwcis er enghraifft, gallai hyn gael y canlyniad anfwriadol o ennyn diddordeb mewn gweithgaredd o'r fath.
48. Ystyrir bod y canlyniad anfwriadol hwn yn annhebygol ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu ei fod yn risg sylweddol, cyn belled ag y bo'r canllawiau cywir ar waith ar sut y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ymdrin â phwnc o'r fath a bod unrhyw gynnwys a deunyddiau yn addas i oedran. Awgrymir y gellid cynnwys materion ariannol mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon fel bod athrawon yn ddigon medrus a hyfforddedig erbyn yr adeg y maent yn gyfrifol am ei ddarparu. Byddai angen i drefniadau datblygu proffesiynol parhaus eraill gael eu gwneud ar gyfer athrawon sy'n addysgu eisoes ac ar gyfer ysgolion yn fwy cyffredinol.
49. Rhagwelir y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn gwneud defnydd o arbenigwyr allanol a chynrychiolwyr y sector ariannol ei hun. Bydd angen gofalu bod eu mewnbwn yn ddiuedd ac na ystyrir ei fod yn hyrwyddo cynhyrchion unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu benodol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun addysg bellach ac uwch pan roddir cyngor ar y gwahanol ddewisiadau bancio sydd ar gael i fyfyrwyr.

## **Crynodeb o effaith y Bil ar hawliau plant**

50. I grynhoi, ystyrir bod y Bil yn cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rhoddwyd sylw dyledus i hawliau plant wrth ddatblygu'r Bil sydd wedi cynnwys ymgynghori sylweddol gyda phlant a phobl ifanc eu hunain.
51. Ystyriwyd yr effaith ar grwpiau penodol a, phan fo angen, mae cynigion wedi eu haddasu er mwyn sicrhau bod y Bil yn cael effaith mor gadarnhaol â phosibl heb achosi niwed i unrhyw grwpiau penodol. Mae risgiau a chanlyniadau anfwriadol posibl wedi eu hystyried, ac mae hyn wedi dylanwadu ar gynnwys y Bil ei hun a'i weithrediad dilynol.

## Atodiad B: Cyfeiriadau

- 
- <sup>1</sup> Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Addysg Ariannol i Bobl Ifanc [Financial Education & the Curriculum, Rhagfyr 2011](#)
- <sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, [Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13 Financial Inclusion](#), Mawrth 2014
- <sup>3</sup> Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, [Galluogrwydd Ariannol y DU](#), Tachwedd 2013
- <sup>4</sup> Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, [Indebted Lives: the complexities of life in debt](#), Tachwedd 2013
- <sup>5</sup> Samariaid, [Adroddiad ar yr Effaith yng Nghymru 2013/14](#), Mehefin 2013
- <sup>6</sup> Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, [Overview of indebtedness, low income and financial exclusion](#), Mai 2014
- <sup>7</sup> Y Sefydliad ar Gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, [Financial education fact sheet, 2005](#)
- <sup>8</sup> Comisiwn Ewropeaidd, [Communication on Financial Education COM207 \(808\)](#), 18 Rhagfyr, 2007, t8
- <sup>9</sup> Comisiwn Ewropeaidd, [National Strategies for Financial Education Report](#), Hydref 2008, t2
- <sup>10</sup> *Ibid*, t2
- <sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, [Mae Pawb yn Cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru](#), Gorffennaf 2009
- <sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru, y Cynllun Gweithredu](#), Gorffennaf 2010
- <sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, [Blaenoriaethau'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar gyfer 2011-2013](#), Awst 2011
- <sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, [Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Cymru Nodyn Cyfarfod](#), 9 Mehefin 2011, [para 6.4]
- <sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, [Y Rhaglen Lywodraethu, Trechu Tlodi](#), 2011
- <sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, [Adroddiad Blynyddol Cynhwysiant Ariannol 2009-10](#), Rhagfyr 2010
- <sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, [Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu, Atodiad Cyfan](#), Mehefin 2013, t122
- <sup>18</sup> Llywodraeth Cymru, [Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu, Atodiad: Y Diweddaraf am y Camau Allweddol](#), Mehefin 2014
- <sup>19</sup> Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [CyT \[para 119\]](#), 24 Hydref, 2012
- <sup>20</sup> Adran Gwaith a Phensiynau, [Stat-Xplore](#)
- <sup>21</sup> Llywodraeth Cymru, [Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol](#), 2013
- <sup>22</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg, ["Trechu'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel yw ein prif flaenoriaeth nawr" meddai'r Gweinidog yn ei araith bwysig gyntaf i'r sector ysgolion](#)
- <sup>23</sup> Llywodraeth Cymru, Jeff Cuthbert (Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi), [Arian i gefnogi gwasanaethau cyngori o 2014-15](#), Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 15 Ebrill 2014
- <sup>24</sup> Llywodraeth Cymru, [Adolygiad o Wasanaethau Cyngori](#), Mawrth 2013
- <sup>25</sup> Llywodraeth Cymru, [Mathemateg yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru](#), 2008, t33
- <sup>26</sup> *Ibid*, t11
- <sup>27</sup> Dysgu Cymru, [Cydrannau Rhifedd](#)
- <sup>28</sup> Huw Evans, [Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Pobl Ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru](#), Tachwedd 2008
- <sup>29</sup> Llywodraeth Cymru, [Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru](#), 2008, t13
- <sup>30</sup> Llywodraeth Cymru, [Cwricwlwm Cymru - Galwad am dystiolaeth](#), Mai 16, 2014
- <sup>31</sup> Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru [CyT \[para 184\]](#), 16 Hydref, 2013
- <sup>32</sup> Llywodraeth Cymru, [Cofnodion y Grŵp Cyflawni Cynhwysiant Ariannol: 9 Mawrth 2012](#), Mawrth 2012, para 3.11
- <sup>33</sup> Dysgu Cymru, [Addysg Ariannol](#)
- <sup>34</sup> Plaid Cymru, ['Amrywiadau enfawr' mewn addysg ariannol yn ysgolion Cymru](#), Mawrth 17, 2014



- <sup>35</sup> Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol](#), Tachwedd 2010, t41
- <sup>36</sup> Estyn, [Materion ariannol: darpariaeth addysg ariannol i bobl ifanc rhwng 7 ac 19 mlwydd oed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru](#), Mehefin 2011, t1
- <sup>37</sup> Llywodraeth Cymru, [Adroddiad Cylch Gwaith Estyn: Ymateb Llywodraeth Cymru](#), Mehefin 2011, t2-3
- <sup>38</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyfarfod Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Cymru - 31 Hydref, 2011](#), Hydref 2011, para 3.12
- <sup>39</sup> Y Sefydliad ar Gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd / INFE, [High-level principles on national strategies for financial education](#), Awst 2012, t7
- <sup>40</sup> G20 Rwsia / Y Sefydliad ar Gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, [Advancing national strategies for financial education](#), Medi 2013, t14
- <sup>41</sup> *Ibid*, t34
- <sup>42</sup> Y Sefydliad ar Gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, [Financial Education for Youth: The role of schools](#), Ebrill 2014, t9
- <sup>43</sup> Llywodraeth Cymru, Huw Lewis, (y Gweinidog Addysg a Sgiliau), [Adolygiad o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Aseu](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 12 Mawrth, 2014
- <sup>44</sup> Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Addysg a Sgiliau), [Model cenedlaethol o ddysgu proffesiynol - 'Bargen Newydd' ar gyfer y gweithlu](#), Datganiad Llafar y Cabinet, 10 Mehefin, 2014
- <sup>45</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Cyfarfod Llawn, [CyT \[16:02\]](#), 10 Mehefin, 2014
- <sup>46</sup> Llywodraeth Cymru, [Cydamcanu - Cydymdrechu](#), Rhagfyr 2012
- <sup>47</sup> Llywodraeth Cymru, [Mae Pawb yn Cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru](#), Gorffennaf 2009, t17
- <sup>48</sup> Llywodraeth Cymru, [Extension of support for the Financial Inclusion Champions Initiative](#), Rhagfyr 19, 2012
- <sup>49</sup> Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru, y Cynllun Gweithredu](#), Gorffennaf 2010
- <sup>50</sup> Llywodraeth Cymru, [Mae Pawb yn Cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru, Adroddiad Blynyddol 2009-2010](#), Rhagfyr 2010, t34
- <sup>51</sup> Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [CyT \[para 119\]](#), 24 Hydref, 2012
- <sup>52</sup> Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol](#), Tachwedd 2010
- <sup>53</sup> Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwiliad i Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol, [Ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#), 2010
- <sup>54</sup> Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol](#), Tachwedd 2010, para 97
- <sup>55</sup> Llywodraeth Cymru, [Ymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar 'Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol' gan Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol](#), Tachwedd 2010, t4
- <sup>56</sup> Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [CyT \[para 20\]](#) 24 Hydref, 2012
- <sup>57</sup> *Ibid*, para 38
- <sup>58</sup> Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [CyT \[para 53\]](#), 8 Tachwedd, 2012
- <sup>59</sup> Swyddfa Masnachu Teg, [Cold Calling Control Zones / No Cold Calling Zones, Letter to Trading Standards Services](#), 20 Chwefror, 2008
- <sup>60</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllid Llywodraeth Cymru yn ehangu Ardaloedd Dim Galw Diwahoddiad](#), 27 Chwefror, 2014
- <sup>61</sup> Llywodraeth Cymru, [Mae Pawb yn Cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru](#), Gorffennaf 2009, tt17-19
- <sup>62</sup> Llywodraeth Cymru, [Cydamcanu - Cydymdrechu](#), Rhagfyr 2012
- <sup>63</sup> Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [CyT \[para 69\]](#), 24 Hydref, 2012
- <sup>64</sup> Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, [Indebted Lives: the complexities of life in debt](#), Tachwedd 2013

- 
- <sup>65</sup> Bethan Jenkins AC, [Ymgynghoriad ar Fil Addysg a Chynhwysiant Ariannol \(Cymru\)](#), Mawrth 2014
- <sup>66</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol \(Cymru\)](#)
- <sup>67</sup> Llais Defnyddwyr Cymru, [O ofal i ofid: sut y mae pobl ifanc yn ymdopi'n ariannol ar ôl gofal](#), Mawrth 2011
- <sup>68</sup> Estyn, [Y Fframwaith Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 2](#), Gorffennaf 2011
- <sup>69</sup> Y Sefydliad ar Gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, [Financial Education for Youth: The role of schools](#), Ebrill 2014, t9
- <sup>70</sup> Llywodraeth Cymru, [Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru](#), 2011
- <sup>71</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol i Orchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol \(Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol\)\(Cymru\) 2013](#), Chwefror 2013, para 17
- <sup>72</sup> Llywodraeth Cymru, [Mathemateg yn y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cymru](#), 2008, t11
- <sup>73</sup> Llywodraeth Cymru, Huw Lewis (y Gweinidog Addysg a Sgiliau), [Model cenedlaethol o ddysgu proffesiynol](#), Datganiad Llafar y Cabinet, 10 Mehefin, 2014
- <sup>74</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, CyT [16:02], 10 Mehefin 2014
- <sup>75</sup> Llywodraeth Cymru, Jeff Cuthbert (Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi), [Arian i gefnogi gwasanaethau cynghori o 2014-15](#), Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 15 Ebrill 2014
- <sup>76</sup> Llywodraeth Cymru, [Adolygiad o Wasanaethau Cynghori](#), Mawrth 2013
- <sup>77</sup> Centre for Economics and Business Research, [Potential benefits of implementing financial education](#), Rhagfyr 2012
- <sup>78</sup> Llywodraeth yr Alban, [Evaluation of Financial Education Scottish Primary and Secondary Schools](#), Hydref 2009
- <sup>79</sup> MoneySavingExpert.com, [Financial Education: Why is it so important](#), 25 Ionawr 2011
- <sup>80</sup> Llywodraeth Cymru, [Canllawiau Defnyddio Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cynghori rheng flaen, 2014 - 2017](#), Mai 2014
- <sup>81</sup> Llywodraeth Cymru, [Adolygiad o Wasanaethau Cynghori](#), Mawrth 2013, t115
- <sup>82</sup> *Ibid*, t116
- <sup>83</sup> Institute for Social and Economic Research, Prifysgol Essex, [The long term impacts of financial capability: Evidence from the BHPS](#), Chwefror 2011